Dadansoddi ar gyfer Polisi

YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH

GSR

GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH

Analysis for Policy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

RHIF YMCHWIL CYMDEITHASOL:
8/2019
DYDDIAD CYHOEDDI:
28/02/2019

# Ymchwil i bennu gwaelodlin y system anghenion addysgol arbennig yng Nghymru. Atodiad A: Astudiaethau achos ALlau

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol: 978-1-78964-817-1

Ymchwil i bennu gwaelodlin y system anghenion addysgol arbennig yng Nghymru. Atodiad A: Astudiaethau achos ALlau

Hefin Thomas, Brett Duggan, Dr Alison Glover, Jennifer Lane (Ymchwil Arad)
Dr Carmel Conn, Dr Kathy Evans, Sharon Drew, Amanda Kelland (Prifysgol De Cymru)

Thomas, H yn al (2019) *Ymchwil i bennu gwaelodlin y system anghenion addysgol arbennig yng Nghymru. . Adroddiad rhif GSR 8/2019.*

Ar gael trwy droi at: https://gov.wales/statistics-and-research/research-establish-baseline-special-educational-needs-system/?lang=cy

Safbwyntiau'r ymchwilydd a fynegir yn yr adroddiad hwn, ac nid rhai Llywodraeth Cymru o reidrwydd

Am wybodaeth bellach, cysylltwch ag:
Enw: Ymchwil Ysgolion
Is-adran: Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
Ffôn: 0300 025 0377
YmchwilYsgolion@llyw.cymru

## Atodiad A: Astudiaethau achos ALlau

### ALl1

Proffil ALl1:

- Mae canran y disgyblion sydd ag AAA yn uwch nag y mae ar gyfartaledd ymhlith ALlau Cymru (Llywodraeth Cymru, 2017b);[1]
- Mae canran y disgyblion eFSM yn uwch nag y mae ar gyfartaledd ymhlith ALlau Cymru (Llywodraeth Cymru, 2017b);
- Mae'r boblogaeth yn is na maint y boblogaeth ar gyfartaledd ymhlith ALlau Cymru (ONS, 2016);[2]
- Mae canran y siaradwyr Cymraeg yn is nag y mae ar gyfartaledd ymhlith ALlau Cymru (ONS, 2011);[3]
- Mae'r lefelau amddifadedd yn uwch nag y maent ar gyfartaledd ymhlith ALlau Cymru (Llywodraeth Cymru, 2014).[4]

Roedd y gwaith maes ar yr astudiaeth achos yn cynnwys cyfweliadau gyda phedwar swyddog o'r ALl (tri o'r adran addysg ac un o'r adran gwasanaethau cymdeithasol) a thri aelod o staff y BILl. Cynhaliwyd gwaith maes gydag uwch-reolwyr, SENCos ac athrawon mewn un ysgol gynradd cyfrwng Saesneg ac un ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg.[5] Yn ogystal, cynhaliwyd cyfweliadau gyda staff mewn ysgol arbennig, uned cyfeirio disgyblion a Sefydliad Addysg Bellach.

### Rolau a chyfrifoldebau o fewn ALl1

- Roedd y sawl a gyfwelwyd o'r farn bod rolau a chyfrifoldebau yn glir ar draws gwasanaethau sy'n ymwneud ag AAA yn gyffredinol. Er bod y rolau yn glir, nododd swyddogion yr ALl bod diffyg eglurder ynghylch prosesau weithiau, er enghraifft,

---

[1] Mae data ynghylch dysgwyr sydd ag AAA ac eFSM yn ôl ALl ar gael yma: https://gov.wales/docs/statistics/2017/170726-school-census-results-2017-en.pdf (Cyrchwyd 12 Mehefin 2018)
[2] Mae amcangyfrifon poblogaeth yn ôl ALl ar gael yma: https://statswales.gov.wales/Catalogue/Population-and-Migration/Population/Estimates/Local-Authority/populationestimates-by-localauthority-year (Cyrchwyd 12 Mehefin 2018)
[3] Mae data ynghylch sgiliau Cymraeg yn ôl ALl ar gael yma: https://statswales.gov.wales/Catalogue/Welsh-Language/WelshSpeakers-by-LA-BroaderAge-2001And2011Census
[4] Mae data ynghylch Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru ar gael yma: https://gov.wales/docs/statistics/2015/150812-wimd-2014-revised-en.pdf (Cyrchwyd 12 Mehefin 2018)
[5] Cynhwyswyd ysgolion dwyieithog a chyfrwng Cymraeg mewn astudiaethau achos ALlau eraill.

diffyg eglurder ynghylch y meini prawf a ddefnyddir gan iechyd er mwyn derbyn cyfeiriadau i rai o'i wasanaethau.

- Roedd rolau rhai o'r rhai a gyfwelwyd o'r ALl mewn perthynas ag AAA yn ymwneud ag un maes penodol, megis gwaith strategol, er bod sawl un wedi nodi y bu tuedd dros y blynyddoedd diwethaf i gyfuno cyfrifoldebau strategol a gweithredol o fewn un rôl fel ffordd o reoli cyfyngiadau ar y gyllideb.

- Amlinellodd y sawl a gyfwelwyd strwythurau AAA ar wahanol lefelau (ALl, amlasiantaeth, clwstwr, ysgol), sy'n cynnwys timau penodedig, cyfarfodydd rheolaidd, paneli asesu, gweithgorau, trafodaethau fforwm (e.e. fforwm SENCo sy'n cyfarfod bob tymor) a grwpiau amlasiantaeth. Mae gwaith amlasiantaeth yn digwydd mewn grwpiau penodedig, megis grŵp asesu ar y cyd ar gyfer troseddu ieuenctid, addysg ac ymyrraeth gan elusennau, sy'n canolbwyntio ar gymorth ar gyfer teuluoedd, ond sydd hefyd yn gweithredu fel rhan o grwpiau ALl sefydledig, megis 'panel darpariaeth' sy'n cynnwys aelodau o'r gwasanaethau cymdeithasol, y bwrdd iechyd lleol (BILl) a'r ysgol arbennig leol mewn penderfyniadau sy'n ymwneud â SEP. Adroddodd y sawl a gyfwelwyd y caiff rhai gwasanaethau eu darparu mewn partneriaeth ag ALl cyfagos a bod y consortiwm addysg rhanbarthol yn cyflawni rôl pwysig hefyd wrth gynorthwyo'r ALl.

- Holwyd y sawl a gyfwelwyd o ysgolion am rôl a chyfrifoldebau y SENCo yn eu lleoliad nhw yn benodol. Amlygwyd amrediad o gyfrifoldebau strategol a gweithredol, gan gynnwys: cynnal asesiadau, rheoli adnoddau, monitro ac adolygu SEP, cael cyswllt gyda staff, rhieni a gofalwyr ac asiantaethau allanol (e.e. gwasanaethau a ddarparir gan yr ALl, iechyd), hyfforddiant, gwaith allgymorth, mynychu cyfarfodydd panel SEP yr ALl, a gwaith strategol gyda grwpiau clwstwr ysgolion.

- Mewn dwy ysgol arbennig, rhennir agweddau ar rôl y SENCo rhwng sawl aelod o staff. Yn yr ysgol gynradd, y SENCo yw'r dirprwy bennaeth hefyd ac mae'n ymwneud â'r gwaith gweinyddol a gweithrediad strategol AAA o fewn yr ysgol, a darparir SEP gan ddirprwy SENCo sydd hefyd yn athro amser llawn yn y ganolfan adnoddau dysgu (SEP a ariannir gan yr ALl, a leolir ar safle ysgol). Yn yr ysgol arbennig, disgrifiwyd yr holl athrawon fel rhai sy'n cyflawni rôl cydlynydd anghenion y dysgwyr

yn eu dosbarthiadau.  Cyflawnir y gwaith o weinyddu rhaglen dreigl barhaus y cyfarfodydd adolygu blynyddol gan Gynorthwyydd Addysgu Lefel Uwch (CALU) profiadol, nad yw'n addysgu.

- Amlygodd y sawl a gyfwelwyd mewn ysgolion sawl tasg allweddol a gyflawnir gan eu SENCo, gan gynnwys cael cyswllt gyda rhieni a gofalwyr, bod yr unigolyn y dylid troi atynt am gwestiynau ynghylch AAA a chael cyswllt gydag asiantaethau y tu allan i'r ysgol.  Adroddodd un SENCo bod rhan fwyaf eu hamser yn y rôl yn cael ei dreulio yn gwneud gwaith cyswllt gydag asiantaethau allanol (e.e.  gwasanaethau a ddarparir gan ALIau, iechyd).  Roedd y SENCo hwn o'r farn bod hyn yn cynrychioli buddsoddiad gwerth chweil o'u hamser oherwydd eu bod yn teimlo ei fod yn arwain at bresenoldeb da gwasanaethau allanol mewn cyfarfodydd adolygu a gweithgarwch rhannu gwybodaeth effeithiol gyda'r ysgol.

- Mae mathau a lefelau y cymwysterau sydd gan SENCos a dirprwy SENCos yn amrywiol ac maent yn cynnwys:  Tystysgrifau Addysg i Raddedigion (TARau), diplomau ôl-raddedig mewn AAA ac arweinyddiaeth a rheolaeth addysgol, a graddau Meistr.  Roedd rhai SENCos wedi bod ar gyrsiau hyfforddiant arbenigol eraill yn ymwneud â datblygiad sgiliau iaith a chyfathrebu.  Adroddodd pob SENCo eu bod yn teimlo'n hyderus ynghylch cyflawni'r rôl ac roedd gan y rhan fwyaf ohonynt sawl blwyddyn o brofiad.  Dywedodd y sawl a gyfwelwyd yn yr ysgol arbennig bod eu staff (yn athrawon ac yn staff cymorth) yn meddu ar gymwysterau ar lefel uchel ac roeddent yn disgrifio'r ysgol fel 'cymuned ddysgu broffesiynol'.

- Yn y SAB, mae cyfrifoldebau'r SENCo yn debyg i gyfrifoldebau SENCos mewn ysgolion, er y caiff rhai agweddau ar y rôl eu dirprwyo i hyfforddwyr dysgu, er enghraifft, ysgrifennu IEPau a darparu SEP.  Roedd y SENCo yn cwblhau cymhwyster ôl-raddedig mewn anawsterau dysgu penodol adeg y cyfweliad.

**Gweithgarwch adnabod ac asesu ar gyfer dysgwyr sy'n cael eu cynorthwyo trwy gyfrwng gweithredu gan yr ysgol/a mwy a dysgwyr sydd â chynlluniau SAB yn ALI1**

- Roedd y sawl a gyfwelwyd ym mhob ysgol wedi disgrifio'r broses o fynegi pryder ynghylch cynnydd dysgwr fel cyfrifoldeb ar y cyd. Cyfeiriwyd at staff yn y dosbarth (athrawon a staff cymorth) amlaf fel y bobl sy'n mynegi pryderon cychwynnol, ond cyfeiriwyd hefyd at benaethiaid blwyddyn, penaethiaid bugeiliol, Cynorthwywyr Cymorth Llythrennedd Emosiynol (ELSAs) a rhieni a gofalwyr fel pobl sy'n gallu mynegi pryder.

- Roedd y sawl a gyfwelwyd mewn rhai ysgolion wedi adrodd ei bod yn fwy tebygol y caiff anghenion dysgwyr eu nodi ar adegau penodol yn ystod y flwyddyn academaidd. Roedd y rhain yn cynnwys wrth iddynt gyrraedd yr ysgol yn y lle cyntaf, er enghraifft, ar ôl gadael y meithrin neu ym Mlwyddyn 7, ar ddechrau ac ar ddiwedd y flwyddyn ysgol, a phan gynhelir profion cenedlaethol blynyddol (e.e. Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol Llywodraeth Cymru).

- Defnyddir amrediad o offerynnau asesu yn rheolaidd gan ysgolion er mwyn cynorthwyo'r broses o adnabod anghenion dysgu unigol. Roedd offerynnau y cyfeiriwyd atynt gan staff ysgol yn cynnwys profion asesu GL, offerynnau sgrinio megis Incerts, a Phrofion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol Llywodraeth Cymru. Cyfeiriwyd at lefel IQ gan rai ysgolion fel mesur er mwyn dod i farn a ddylid ystyried bod gan blentyn neu berson ifanc angen a nodir, yn ogystal â lefel 'goch' sy'n codi mewn asesiad GL. Roedd y sawl a gyfwelwyd o'r farn ei bod yn bwysig bod offerynnau asesu yn gadarn, a phwysleisiwyd pwysigrwydd cael offerynnau er mwyn adnabod anghenion academaidd yn ogystal ag anghenion cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol.

- Roedd y sawl a gyfwelwyd mewn ysgolion o'r farn bod helpu i ymchwilio i angen dysgu posibl yn rhan allweddol o rôl y SENCo. Disgrifiodd staff ysgol weithgareddau sy'n rhan o'r broses hon, megis gwneud arsylwadau yn yr ystafell ddosbarth, cyflawni'r gwaith profi a chasglu safbwyntiau yr holl weithwyr proffesiynol sy'n ymwneud â dysgwr. Roedd rhai o'r rhai a gyfwelwyd o'r farn bod cael persbectif eang am brofiad dysgwr o ysgol yn rhan allweddol o'r broses adnabod.

- Roedd rhai o'r rhai a gyfwelwyd yn teimlo bod cryfder perthnasoedd rhwng staff ysgol a dysgwyr yn cael dylanwad gref ar effeithiolrwydd prosesau adnabod cynnar mewn ysgolion.

- Yn gyffredinol, roedd staff ysgol yn ystyried bod prosesau er mwyn adnabod yn effeithiol, er bod rhai wedi cyfeirio at anhawster wrth nodi union natur yr angen sydd gan rai dysgwyr. Nododd un ysgol bod y SENCo wedi creu set o nodweddion AAA ar gyfer grwpiau gwahanol, ond nodwyd y bu ei defnydd yn gyfyngedig i ymarferwyr. Nododd un ysgol bod gwahaniaethau o ran sgiliau athrawon ym maes asesu ar gyfer dysgu yn her er mwyn adnabod angen yn gynnar.

- Nododd y sawl a gyfwelwyd o'r ysgol uwchradd bod cael dysgwyr ym Mlwyddyn 7 sydd ag anghenion dysgu heb eu nodi yn her. Dywedont eu bod yn cydweithio mwy gydag ysgolion cynradd clwstwr er mwyn sicrhau bod gwybodaeth fanylach yn cael ei chasglu yn gynharach ynghylch dysgwyr ym Mlwyddyn 5.

- Adroddodd y sawl a gyfwelwyd o SAB nad ydynt yn cael gwybod am ddysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol oni bai bod ganddynt ddatganiad. O ganlyniad, atgoffir yr holl ddysgwyr pan fyddant yn cofrestru o'r ffaith bod gwasanaethau cymorth i fyfyrwyr ar gael, ac estynnir gwahoddiad iddynt gysylltu â nhw os byddant yn teimlo bod angen iddynt gael help gyda'u dysgu. Cyfeiriodd un unigolyn a gyfwelwyd at y ffaith na fydd rhai dysgwyr yn datgelu angen academaidd a/neu gymdeithasol yn eu cais oherwydd eu bod yn barnau y gallai hwn fod yn rhwystr a fydd yn eu hatal rhag cael cynnig lle. Dywedodd y coleg eu bod yn ceisio gweithio tuag at system sy'n cynorthwyo'r cam o ddatgelu angen mor gynnar ag y bo modd.

**Cynllunio ar gyfer SEP ar gyfer dysgwyr sy'n cael eu cynorthwyo trwy gyfrwng gweithredu gan yr ysgol/a mwy a dysgwyr sydd â chynlluniau SAB o fewn ALI1**

- Mae ysgolion yn parhau i ddefnyddio'r term IEP i ddisgrifio'r ffurf a ddefnyddir er mwyn gosod targedau a chynlluniau. Roedd y sawl a gyfwelwyd o ysgolion yn ymwybodol o'r ffaith y bydd newid o ran y ffordd y defnyddir CDUau ar ryw adeg yn y dyfodol, a dywedont eu bod yn aros am arweiniad am hyn.

- Cyfeiriodd y sawl a gyfwelwyd mewn ysgolion at bersonél amrywiol sy'n ymwneud â gwaith cynllunio. Nodwyd mai athrawon dosbarth yw'r rhai sydd fwyaf tebygol o ddatblygu cynlluniau yn y cynradd, ond gallai athrawon pwnc Saesneg a mathemateg, aelodau'r tîm bugeiliol, a CALUs ymwneud â hyn hefyd, yn enwedig yn yr ysgol uwchradd. Yn ogystal, nododd y sawl a gyfwelwyd y gellir defnyddio asiantaethau allanol (e.e. gwasanaethau a ddarparir gan yr ALl, iechyd) at y diben hwn, yn enwedig wrth siapio unrhyw dargedau sy'n ymwneud â'u mewnbwn nhw.

- Adroddodd yr holl rai a gyfwelwyd bod prosesau cynllunio ym mhob lleoliad wedi bod yn canolbwyntio yn fwy ar yr unigolyn dros y blynyddoedd diwethaf, a disgrifiwyd bod dysgwyr a rhieni a gofalwyr yn cael mwy o gyswllt gyda'r broses gynllunio ar ôl y nodir angen dysgu. Mae platfformau ar gyfer y cyswllt hwn yn cynnwys cyfarfodydd tymhorol, nosweithiau rhieni a thrafodaethau yn yr ysgol gyda dysgwyr.

- Dywedodd ysgolion prif ffrwd eu bod yn defnyddio rhyw agwedd ar ddull PCP yn eu gweithgarwch cynllunio. Mae hyn ar ffurf 'proffil un tudalen' ar gyfer dysgwr yn gyffredinol, sy'n defnyddio'r cwestiynau strwythuredig hyn: 'beth sy'n bwysig i', 'beth sy'n gweithio' a 'beth yw'r hyn nad yw'n gweithio'.

- Roedd yr ALl wedi bod yn hyrwyddo'r defnydd o PCP ac roedd o'r farn bod hwn yn gam cychwynnol yn y broses o newid arferion mewn perthynas â rhoi sylw i AAA dysgwyr. Defnyddiwyd Grant Arloesi a Gweithredu ADY at y diben hwn, yn benodol er mwyn ariannu hyfforddiant i benaethiaid, SENCos ac ysgolion. Sefydlwyd gweithgor am PCP ac roedd wedi datblygu adnoddau ar y cyd â darparwr hyfforddiant allanol. Roedd yr ysgol arbennig wedi bod yn ymwneud â datblygu hyfforddiant ar gyfer 'hyfforddwyr' PCP hefyd, sy'n gallu lledaenu gwybodaeth am arferion newydd i ysgolion. Nododd ysgolion eu bod wedi cael hyfforddiant a'u bod yn defnyddio offerynnau a amlygwyd iddynt yn ystod yr hyfforddiant.

- Roedd rhan fwyaf y rhai a gyfwelwyd yn ystyried bod defnyddio arferion PCP yn cymryd mwy o amser na'r trefniadau cynllunio presennol, ond eu bod yn fwy gwerth chweil yn y tymor hir. Teimlwyd bod y gwaith paratoi ar gyfer cynllunio yn cymryd mwy o amser oherwydd yr ymgynghorir â mwy o bobl ac mae'r broses ymgynghori ei hun yn fanylach, er enghraifft, mwy o gyfarfodydd wyneb-yn-wyneb gyda rhieni a

gofalwyr. Fodd bynnag, roedd rhai o'r farn bod y broses gyfan yn fwy effeithlon oherwydd ei bod yn ei gwneud yn haws i nodi ffordd ymlaen ar gyfer plentyn neu berson ifanc.

- Barnwyd bod angen i IEPau gynnwys nifer gyfyngedig o dargedau CAMPUS, hynny yw, targedau cyraeddadwy, amser wedi'i bennu, mesuradwy, penodol, uchelgeisiol a synhwyrol. Adolygir y rhain bob tymor yn bennaf ac ni ddylid cael mwy na thri neu bedwar ohonynt. Yn aml, ystyriwyd bod angen i dargedau gynnwys sawl maes gweithredol, gan gynnwys targedau academaidd yn ogystal â thargedau er mwyn cynorthwyo datblygiad iaith, datblygiad corfforol, a datblygiad cymdeithasol ac emosiynol.

- Roedd pob lleoliad o'r farn bod system yr IEPau ac adnabod nifer gyfyngedig o dargedau yn rheolaidd yn effeithiol ar y cyfan. I rai plant a phobl ifanc, fodd bynnag, yn enwedig y rhai sydd ag anghenion mwy cymhleth, barnwyd bod un cynllun addysg yn annigonol. Cyfeiriwyd at fathau eraill o gynlluniau sy'n rhedeg law yn llaw ag IEPau i rai dysgwyr, ac mae'r rhain yn cynnwys cynlluniau ymddygiad, cynlluniau lles, cynlluniau trosglwyddo a chynlluniau iechyd. Cyfeiriodd y sawl a gyfwelwyd o ysgolion cynradd bod cynlluniau grŵp yn cael eu defnyddio weithiau, er enghraifft, ar gyfer yr holl ddysgwyr mewn grŵp darllen wedi'i seilio ar allu.

- Adroddodd y SAB ei fod yn datblygu arfer sy'n seiliedig ar ddull gweithredu sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Defnyddir cynlluniau dysgu annibynnol at ddibenion cynllunio ac asesu a chofnodion dysgu er mwyn cofnodi profiadau dysgu. Mae proffiliau un tudalen ar gyfer dysgwyr ar gael hefyd i diwtoriaid perthnasol, er bod y rhain wedi codi cwestiynau ynghylch y ffordd orau o ledaenu'r wybodaeth hon, ac mae cynlluniau yn eu lle i ddatblygu'r system fewnol er mwyn rhannu gwybodaeth am ddysgwyr.

- Adroddodd rhan fwyaf y rhai a gyfwelwyd bod mecanweithiau cyllido wedi dylanwadu ar eu capasiti i ddarparu SEP briodol. Er enghraifft, roedd rhai o'r rhai a gyfwelwyd yn teimlo bod grwpiau anogaeth yn dibynnu ar gysondeb a pherthnasoedd allweddol y gallent gynorthwyo unigolyn ifanc trwy eu gyrfa mewn ysgol, ond adroddwyd bod y cyllid yn tueddu i ddibynnu ar ffrydiau cyllido tymor byr.

- Roedd rhai o'r rhai a gyfwelwyd o'r farn y byddai o ddefnydd i CDUau gael eu cyflwyno ar y cyd â phlatfform meddalwedd a fyddai'n cynorthwyo ysgolion a cholegau i reoli'r broses CDU. Teimlwyd efallai bod potensial i'r platfform hwnnw ryngwynebu â systemau eraill sydd yn eu lle ar hyn o bryd, megis SIMS.

**Cynnwys plant, pobl ifanc, rhieni a gofalwyr wrth wneud penderfyniadau sy'n ymwneud â SEP gweithredu gan yr ysgol/a mwy a chynlluniau SAB, o fewn ALl1**

- Nododd rhan fwyaf yr ysgolion bod meithrin perthnasoedd da gyda dysgwyr yn ffordd bwysig o gynorthwyo eu cyfranogiad mewn penderfyniadau ynghylch eu dysgu. Disgrifiodd sawl un a gyfwelwyd o ysgolion bod casglu safbwyntiau dysgwyr yn rhan annatod o addysgu ac yn agwedd ar arferion asesu ffurfiannol parhaus.

- Roedd nifer o ysgolion o'r farn bod defnyddio prosesau PCP wrth gynllunio ac adolygu yn cynyddu cyfranogiad dysgwyr a rhieni a gofalwyr wrth wneud penderfyniadau ynghylch dysgu a chymorth. Dywedodd un ysgol eu bod wedi bod yn ysgrifennu targedau IEP yn flaenorol, ac yn gofyn i rieni a dysgwyr am unrhyw adborth am y rhain. Ni nododd unrhyw ysgol mai hwn yw'r arfer ar hyn o bryd, a barnwyd yn gyffredinol bod PCP yn well er mwyn caniatáu i ysgolion gael gwahanol bersbectifau o ddysgwr a'u dysgu. Nododd sawl un o'r rhai a gyfwelwyd bod dysgwyr yn mwynhau pan fydd rhywun yn holi eu barn.

- Er bod y SAB yn defnyddio system o alwadau ffôn (yn ddyddiol weithiau) er mwyn cyfathrebu gyda rhieni a gofalwyr dysgwyr sydd ag anghenion ychwanegol, roedd rhai o'r rhai a gyfwelwyd yn cwestiynu priodoldeb yr arfer hwn ar gyfer dysgwyr sy'n 18 oed. Disgrifiwyd bod rhieni a gofalwyr yn gefnogol iawn o'r syniad o hyrwyddo dysgu annibynnol eu plentyn, er y nodir bod disgwyliadau rhieni o'r cymorth a ddarparir yn aml yn mynd y tu hwnt i'r hyn sydd ar gael yn ymarferol. Disgrifiwyd bod safbwyntiau rhieni a gofalwyr a safbwyntiau addysgol yn wahanol weithiau o ran anghenion y bobl ifanc mewn addysg. Er enghraifft, adroddodd y sawl a gyfwelwyd sy'n gweithio ym maes addysg bellach bod Estyn wedi mynegi'r farn mewn arolygiad

y dylai pobl ifanc fod yn cael profiad o gyswllt cymunedol a gwaith, ac mae rhai rhieni a gofalwyr yn ystyried bod eu plentyn yn 'llai abl' na hyn.

- Dywedodd y sawl a gyfwelwyd sy'n gweithio yn y PRU eu bod yn cael anhawster weithiau wrth sicrhau cytundeb rhieni wrth gynllunio SEP, a mynegwyd pryder cyffredinol ganddynt bod rhieni a gofalwyr y maent yn gweithio gyda nhw yn aml yn ei chael hi'n anodd mynegi eu safbwyntiau ac eirioli dros eu plentyn.

- Adroddodd swyddogion yr ALI eu bod yn bwriadu datblygu adnoddau pellach er mwyn cynorthwyo cyfranogiad dysgwyr a rhieni ac roeddent wedi paratoi taflenni ynghylch PCP ac adnoddau eraill. Dywedont eu bod yn aros am ganllawiau pellach ynghylch y cod ymarfer ADY newydd cyn cwblhau'r adnoddau hyn.

**SEP ac adolygu ar gyfer dysgwyr sy'n cael eu cynorthwyo trwy gyfrwng gweithredu gan yr ysgol/a mwy a dysgwyr sydd â chynlluniau SAB, o fewn ALI1**

- Ar gyfer y sawl a gyfwelwyd o ysgolion, diffiniwyd SEP effeithiol fel plant a phobl ifanc yn gwireddu eu potensial mewn lleoliad lle y gallant fynegi eu hunain fel unigolion. I ysgolion, roedd SEP effeithiol yn gysylltiedig yn y ffordd gryfaf â lleoliadau mwy arbenigol, er enghraifft, y canolfannau adnoddau dysgu ar gyfer dysgwyr sydd â datganiadau a dysgwyr sy'n cael eu cynorthwyo trwy gyfrwng gweithredu gan yr ysgol a mwy a leolir yn yr ysgol gynradd, a'r dosbarthiadau arbennig sy'n gweithredu ar gyfer pob grŵp blwyddyn yn yr ysgol uwchradd ac sy'n cynnwys dysgwyr y darparir SEP ar eu cyfer trwy gyfrwng gweithredu gan yr ysgol a mwy yn bennaf. Barnwyd bod y rhain yn ganolfannau rhagoriaeth mewn perthynas ag amrediad o AAA gan nifer o athrawon a SENCos a gyfwelwyd. Roedd staff ysgol yn teimlo bod cyfleoedd i gael perthnasoedd agosach a mwy cefnogol i'w gweld yn y lleoliadau hyn, ynghyd â llwybrau mwy cyson a mwy o bosibilrwydd y gellir darparu'r cwricwlwm mewn ffordd hyblyg. Mynegwyd pryder gan y pennaeth mewn un lleoliad, fodd bynnag, bod dosbarthiadau arbenigol yn lleihau'r cyfleoedd i ddysgwyr fanteisio ar ehangder llawn y cwricwlwm ar lefel briodol. Roedd yr unigolyn hwn a gyfwelwyd o'r farn y byddai SEP yn cael ei threfnu mewn ffordd fwy priodol fel SEP pwrpasol a lloeren, a ddarparir dros gyfnod byrrach na'r hyn sy'n digwydd ar hyn o bryd.

- Mae'r ymyriadau penodol a ddefnyddir fel SEP mewn lleoliadau prif ffrwd yn cynnwys Accelerated Reader, Read, Write Inc, MaLT ar gyfer cymorth mathemateg, ac addysgu manwl. Roedd un o'r rhai a gyfwelwyd yn teimlo bod angen defnyddio offerynnau manylach a gwaith traws-gyfnod (lefelau cynradd ac uwchradd) er mwyn mesur effeithiolrwydd ymyriadau, er bod ymatebwyr eraill wedi nodi y caiff ymyriadau ac arferion eu gwerthuso yn rheolaidd.

- Disgrifiwyd bod SEP ar gyfer plant sy'n derbyn gofal yn dda iawn yn yr ALl, a bod dau dîm dynodedig yn gweithredu, un yn y gwasanaeth addysg ac un yn y gwasanaethau cymdeithasol. Yn gyffredinol, barnwyd bod SEP yn well ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal mewn lleoliadau addysgol a barnwyd bod y grŵp hwn yn gwneud yn dda o ran eu cyflawniad, o'i chymharu â'r boblogaeth nad oes ganddi AAA. Roedd un unigolyn a gyfwelwyd o'r gwasanaethau cymdeithasol, fodd bynnag, o'r farn bod angen i'r gwasanaeth addysg ddangos mwy o ddealltwriaeth ynghylch sail anghenion unigol, gan sicrhau nas defnyddir gwaharddiadau ar gyfer y grŵp hwn.

- Roedd rhai o'r rhai a gyfwelwyd yn teimlo bod nifer o ddysgwyr gallu isel ac y mae eu hymddygiad yn heriol yn cael eu haddysgu mewn lleoliadau prif ffrwd, ond ei bod yn anodd darparu'r hyblygrwydd o ran y cwricwlwm y mae ei angen ar y dysgwyr hyn. Yn y PRU, defnyddir cwricwlwm Cymwys am Oes, ond teimlir bod ei hyblygrwydd i wahaniaethu'r cwricwlwm mewn ffordd briodol yn gyfyngedig. Mewn cyferbyniad, ym maes addysg bellach, teimlwyd y gellir darparu ar gyfer dysgwyr ar bob lefel, gan gynnwys lefel cyn mynediad a chyrsiau Lefel 1.

- Roedd rhan fwyaf y rhai a gyfwelwyd wedi nodi mai llai o adnoddau ariannol yw'r her fwyaf wrth geisio darparu SEP a phrosesau adolygu. Amlygodd rhai o'r rhai a gyfwelwyd duedd a welwyd yn ddiweddar lle y disgwylir i athrawon dosbarth ddarparu mwy o SEP i ddysgwyr sydd ag AAA fel enghraifft o'r cyfyngiadau ar gyllidebau. Roedd sawl un a gyfwelwyd wedi sôn ei bod hi'n anos manteisio ar gymorth gan asiantaethau allanol, yn enwedig gwasanaethau ym maes iechyd, er bod yr ysgol uwchradd yn teimlo bod hwn yn faes lle y gwelir gwelliant. Cyfeiriodd ysgolion at anawsterau wrth gael adroddiadau ysgrifenedig gan wasanaethau iechyd a phresenoldeb gweithwyr iechyd proffesiynol mewn cyfarfodydd, yn enwedig os na fydd gan ddysgwr ddatganiad. Fodd bynnag, dywedodd rhai o'r rhai a gyfwelwyd o

faes iechyd eu bod wastad yn anfon adroddiadau am ddysgwyr yn eu llwyth achosion ymlaen i ysgolion.

- Soniodd gweithwyr iechyd proffesiynol bod rhai plant yn 'syrthio trwy'r rhwyd' o ran SEP, gan gyfeirio at y rhai sydd ag anableddau nad ydynt yn amlwg, megis awtistiaeth, a'u bod yn arbennig o agored i niwed yn hyn o beth. Roedd heriau eraill sy'n gysylltiedig â SEP yn cynnwys gwahanol sgiliau a gwybodaeth athrawon dosbarth, y ffaith bod cynnwys darpariaeth iechyd yn cael ei ystyried fel rhywbeth sy'n seiliedig ar ddiagnosis yn hytrach nag anghenion go iawn, a materion ynghylch capasiti o fewn gwasanaethau iechyd yn wyneb y galw sy'n cynyddu. Cyfeiriodd sawl un a gyfwelwyd o faes iechyd at y ffaith mai cyllid yw'r rheswm dros amseroedd aros hirach am wasanaethau ac am wasanaeth SEP annigonol mewn rhai ardaloedd.

- Disgrifiwyd adolygu IEPau gan y sawl a gyfwelwyd fel proses 'symlach' a 'mwy naturiol' nag adolygiadau datganiadau blynyddol. Barnwyd bod adolygiad athrawon o dargedau IEP yn rhan o broses barhaus addysgu a dysgu ac yn ymarfer defnyddiol er mwyn casglu tystiolaeth o gyflawniad dysgwyr a myfyrwyr am dargedau dysgwyr.

**Datrys anghytundebau sy'n ymwneud â SEP a ddarparir trwy gyfrwng gweithredu gan yr ysgol/a mwy ac ar gyfer dysgwyr sydd â chynlluniau SAB, o fewn ALl1**

- Nododd pob ysgol bod nifer yr anghytundebau a welir ynghylch AAA dysgwyr yn fach iawn. Adroddwyd bod problemau yn digwydd amlaf mewn perthynas â lleoliad a SEP ac felly, eu bod yn cael eu datrys cyn y bydd plentyn neu berson ifanc yn cyrraedd yr ysgol. Amlygodd y sawl a gyfwelwyd bwysigrwydd meithrin perthnasoedd da gyda rhieni a gofalwyr, sefydlu sianelau cyfathrebu effeithiol a gweithredu polisi 'drws agored' er mwyn helpu i osgoi anghytundebau. Nododd y sawl a gyfwelwyd bod sefydlu perthnasoedd llawn parch, tryloyw a gonest, rhoi amser digonol i wrando ar rieni a gofalwyr a gweithredu ynghylch materion yn gyflym yn arferion pwysig. Nododd un ysgol nad yw'n gwahaniaethu rhwng anghytundeb a darparu cymorth i rieni/gofalwyr, er enghraifft, mewn perthynas â deall prosesau a blaenoriaethau mewn ysgolion. Dywedodd nifer eu bod yn cynnwys rhieni a gofalwyr mewn gweithgarwch penderfynu mewn ffordd weithredol, a'u bod o'r farn bod hyn yn ffordd o osgoi anghytundebau.

- Nododd staff yr ALI eu bod wedi darparu hyfforddiant i swyddogion yr ALI ac i ysgolion ynghylch datrys anghydfodau. Roedd yr hyfforddiant wedi canolbwyntio ar bwysigrwydd cael sgyrsiau gyda phobl a sut i strwythuro'r trafodaethau hyn.

- Gan bod yr awdurdod yn un bach, nododd un swyddog o'r ALI ei bod yn hawdd nodi pwyntiau cyswllt, a bod cysylltiadau da yn bodoli rhwng gwahanol wasanaethau a sectorau. Nodwyd, fodd bynnag, ei bod yn aml yn anodd cynnwys gweithwyr iechyd proffesiynol mewn cyfarfodydd datrys anghytundebau.

- Ym maes addysg bellach, adroddodd y sawl a gyfwelwyd bod gweithio gyda rhieni a gofalwyr yn gallu bod yn heriol mewn rhai achosion, yn enwedig mewn achosion pan na fydd modd darparu cymorth ar yr un lefel ag yr oeddent yn arfer ei gael yn yr ysgol. Roedd hyn yn creu her benodol o ran esbonio'r gwahaniaethau rhwng lleoliadau, y cwricwlwm a SEP i rieni a gofalwyr.

**Asesiad statudol ar gyfer anghenion addysgol arbennig o fewn ALI1**

- Nododd staff yr ALI eu bod wedi cynnal adolygiad o feini prawf mynediad ac ymadael ar gyfer datganiadau yn ddiweddar. Yn dilyn hyn, adroddwyd bod yr ALI yn llawer mwy llym nawr wrth dderbyn cyfeiriadau a bod canllawiau pellach wedi cael eu dosbarthu i ysgolion ynghylch yr hyn y dylid ei ddarparu ar gyfer dysgwyr sy'n cael eu cynorthwyo trwy gyfrwng gweithredu gan yr ysgol a gweithredu gan yr ysgol a mwy. Dywedodd un swyddog o'r ALI, fodd bynnag, bod ysgolion yn teimlo effeithiau cyfyngiadau ar y gyllideb a'u bod yn parhau i wneud ceisiadau am SEP (h.y. ar gyfer dysgwyr sy'n cael eu cynorthwyo trwy gyfrwng gweithredu gan yr ysgol a mwy). Adroddodd y sawl a gyfwelwyd o'r ALI y bu cynnydd sylweddol yn nifer y ceisiadau am asesiad statudol o fewn yr ALI. Cefnogwyd y dybiaeth hon gan ddata ynghylch niferoedd y ceisiadau a wnaethpwyd am ddatganiadau, a oedd yn dangos cynnydd canrannol lawer yn uwch yn nifer y ceisiadau o fewn yr ALI hwn rhwng 2014/15 a 2016/17 o'i chymharu â'r cyfartaledd ar draws Cymru. Roedd y sawl a gyfwelwyd o'r ALI yn ystyried bod hyn yn ymwneud â chyflwyno rhaglen trawsnewid ADY. Roedd swyddogion yr ALI yn credu bod hyn oherwydd bod rhieni a gofalwyr yn dymuno sicrhau SEP ar gyfer eu plentyn y tu hwnt i gweithredu gan yr ysgol a mwy, cyn y gwneir newidiadau i'r system. Gallai'r dybiaeth hon ddynodi'r ffaith nad yw rhieni/gofalwyr yn llwyr ddeall goblygiadau'r Ddeddf eto.

- Adroddodd yr holl rai a gyfwelwyd o ysgolion eu bod yn defnyddio ymateb fesul cam er mwyn rhoi sylw i anghenion a nodir, ac y darparir cymorth ychwanegol ar lefel yr ystafell ddosbarth yn gyntaf trwy gyfrwng cymorth unigoledig neu o fewn grŵp bach. Nododd yr holl rai a gyfwelwyd o ysgolion eu bod yn defnyddio profion er mwyn mesur effaith ymyrraeth neu gymorth yn yr ysgol. Nododd SENCo yr ysgol gynradd bod yr holl ddysgwyr a gyfeiriwyd at asesiadau statudol wedi cael datganiad wedi hyn. Nodont, fodd bynnag, o'u profiad o fod ar y panel asesu, nas rhoddir cymeradwyaeth i bob cais am asesiad, ac roeddent yn teimlo y caiff y broses ei gyrru gan ansawdd y gwaith papur. Disgrifiodd rhai o swyddogion yr ALI y broses asesu statudol fel un 'fiwrocrataidd iawn'.

- Roedd staff yr ALI o'r farn bod prosesau adnabod yn weddol effeithiol mewn ysgolion, gan amlygu amrywiadau o ran yr arfer hefyd, y maent yn teimlo eu bod yn deillio o wahaniaethau o ran y ffordd yr arweinir ysgolion a lefelau sgiliau SENCos ac athrawon. Roedd rhai o staff yr ALI yn teimlo bod ysgolion weithiau yn cyfeirio achosion i'r ALI cyn iddynt archwilio'r dewisiadau er mwyn darparu SEP estynedig yn yr ysgol yn llawn. Amlygodd swyddogion yr ALI bod proses safoni ar y cyd ar gyfer IEPau wedi cael ei sefydlu ar draws ysgolion er mwyn ceisio gwella cysondeb.

- Nododd ysgolion a'r ALI bod asesu statudol yn digwydd mewn ffordd amserol yn gyffredinol a'i bod yn system gadarn. Mae unrhyw oedi yn tueddu i fod o ganlyniad i faterion sy'n ymwneud â chapasiti o fewn y gwasanaeth seicoleg addysg (SA) neu fel arall, y ffaith bod rhieni yn anghytuno gyda geiriad datganiadau. Nododd sawl un o'r rhai a gyfwelwyd bod y cyfnod rhwng adnabod angen a chanlyniad yr asesiad yn aml yn rhy hir, fodd bynnag, i ddysgwyr y mae gofyn iddynt gael cymorth ar unwaith. Adroddodd gweithwyr iechyd proffesiynol eu bod weithiau yn derbyn cyfeiriad gan SA yn uniongyrchol ac yn darparu cymorth ar unwaith, heb ddilyn eu system gyfeirio. Efallai y byddent yn gwneud hyn hefyd pe byddai oedi yn codi wrth i baediatregwyr cymunedol gyfeirio achosion y maent yn ymwybodol ohonynt yn barod. Dywedodd un o'r rhai a gyfwelwyd o faes iechyd y geiriau canlynol am broblemau gyda gweithrediad protocolau a gweithdrefnau, 'rydym yn dod o hyd i ffyrdd o sicrhau bod pethau yn gweithio'.

- Nododd y sawl a gyfwelwyd o'r BILl bod amserau aros am asesiad yn gallu bod yn her, er bod rhai o'r farn bod y broses flaenoriaethu ar gyfer cyfeiriadau yn helpu gyda hyn. Roedd rhai gweithwyr iechyd proffesiynol o'r farn bod y broses asesu ei hun yn peri problemau, ac roeddent yn teimlo ei bod yn tueddu i bortreadu plentyn mewn golau negyddol, sy'n gallu bod yn anodd i rieni a gofalwyr ei dderbyn. Fodd bynnag, roedd y sawl a gyfwelwyd o faes iechyd yn teimlo bod cydweithio agos gyda gweithwyr addysg proffesiynol, yn enwedig o fewn y gwasanaeth SA, yn effeithiol ac yn cyfrannu at ganlyniadau da.

**SEP statudol o fewn ALl1**

- Roedd rhai o'r rhai a gyfwelwyd yn teimlo bod datganiadau fel system yn rhy fiwrocrataidd ac nad yw datganiadau yn addas i'r diben fel ffurf. Dywedodd un o'r rhai a gyfwelwyd bod gweithwyr proffesiynol 'yn gwneud gwaith da gyda thempled gwael' ac roeddent yn teimlo bod geirio amcanion datganiadau mewn ffordd gyffredinol yn ddefnyddiol ar gyfer yr ALl, ond nad yw o reidrwydd yn helpu'r plentyn neu'r person ifanc unigol.

- Nododd y sawl a gyfwelwyd o'r ALl bod yr awdurdod yn fach ac felly, ei fod yn gyfyngedig o ran ei SEP. Er enghraifft, ni cheir SEP ddynodedig ar gyfer dysgwyr sydd ag AYECh. Defnyddir lleoliadau y tu allan i'r sir ar gyfer rhai dysgwyr sydd ag anghenion cymhleth a darparir rhai gwasanaethau i ysgolion gan weithwyr proffesiynol sy'n gweithio mewn ALlau eraill. Roedd rhai o'r farn bod yr amrediad cyfyngedig hwn o ran SEP yn rhannol gyfrifol am waharddiadau ac absenoldebau dysgwyr trwy weithredu amserlenni rhan-amser mewn rhai lleoliadau addysgol. Fodd bynnag, barnwyd bod maint bach yr awdurdod yn gryfder gan rai o'r rhai a gyfwelwyd, gan ei fod yn golygu nad yw'r awdurdod yn un 'anhysbys' i ddefnyddwyr gwasanaeth, a bod gwasanaethau yn dra chyfarwydd â phlant a phobl ifanc yn gyffredinol.

- Yn yr ysgol arbennig, disgrifiwyd bod gan SEP wahanol ystyron pan ystyrir gwahanol oedrannau. Yn y Cyfnod Sylfaen, barnwyd bod effeithiolrwydd yn ymwneud ag ymyrraeth gynnar, yng Nghyfnod Allweddol 2, fe'i ystyriwyd mewn perthynas â datblygu dysgu annibynnol, ac yng Nghyfnodau Allweddol 3 a 4, gyda darpariaeth profiadau bywyd.

- Mae arferion arbenigol sy'n cael eu hyrwyddo yn yr ysgol arbennig yn cynnwys arfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, System Cyfathrebu Cyfnewid Lluniau (PECS), cymorth ymddygiad cadarnhaol, a dadansoddiad ymddygiad cymhwysol (ABA). Nododd yr ysgol bod PCP wrth wraidd ei SEP a'i fod yn cael ei ddefnyddio ar draws pob agwedd ar addysgeg a chymorth. Nodwyd bod amcanion a nodir yn natganiadau dysgwyr yn aml yn eang ac mae'n anodd sicrhau eu bod yn cyd-fynd â nodau tymor byr, ond bod yr elfen o gynllunio PCP yn cynorthwyo'r broses hon. Barnwyd bod symud i PCP yn golygu newid y ffurfiau cynllunio a strwythur cyfarfodydd, ond hefyd, newid o ran y diwylliant a chydnabod gwahanol bersbectifau yn yr ystafell ddosbarth. Roedd y sawl a gyfwelwyd yn teimlo bod prosesau PCP yn sicrhau yr ystyrir llais y dysgwr wrth gynllunio llwybrau dysgu unigol a mapio SEP.

- Mae'r ysgol arbennig yn gweithredu system o gynlluniau lluosog ar gyfer dysgwyr, sy'n gweithredu yn ychwanegol i'r IEP. Mae'r cynlluniau'n cynnwys cynlluniau trosglwyddo a chynlluniau cymorth ymddygiad. Barnwyd bod targedau tymhorol yn rhai rhy hirdymor i rai dysgwyr, yn enwedig y rhai y mae angen iddynt gael adborth am eu dysgu yn fwy buan a mwy o nodau tymor byr.

- Nododd ysgolion bod mewnbwn gan asiantaethau allanol (e.e. gwasanaethau a ddarparir gan yr ALl, iechyd) yn haws i ddysgwyr sydd â datganiadau yn gyffredinol, er bod yr ysgol gynradd wedi adrodd ei bod yn cael anawsterau gyda gwasanaethau iechyd plant ar gyfer y grŵp hwn o ddysgwyr hefyd. Adroddodd y SENCo uwchradd eu bod yn treulio cryn dipyn o amser yn cael cyswllt gydag asiantaethau allanol, ac adroddwyd bod sawl gwasanaeth iechyd yn ymweld â'r ysgol bob tymor.

**Adolygu SEP statudol o fewn ALl1**

- Roedd ysgolion prif ffrwd yn ystyried bod y broses flynyddol o adolygu datganiadau yn amherthnasol i brosesau addysgu a dysgu arferol parhaus ac arferion asesu ffurfiannol, ac felly, yn cymryd mwy o amser. Yn yr ysgol arbennig, disgrifiwyd adolygu fel 'tasg anferth' gan bod gan bob disgybl ddatganiad, er y barnwyd ei bod yn fwy integredig gyda'r arferion a'r prosesau cyffredinol yn yr ysgol, yn enwedig oherwydd y defnydd hollbresennol o brosesau PCP yn yr ysgol.

- Nododd y sawl a gyfwelwyd bod adolygiadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal yn cael eu cynnal ar wahân i gyfarfodydd blynyddol er mwyn adolygu datganiadau addysgol. Mae'r rhesymau dros hyn yn cynnwys: nid yw cadeiryddion pob cyfarfod yn dymuno cyfuno'r cyfarfodydd, mae gofyn i wahanol weithwyr proffesiynol fynychu'r cyfarfodydd, ynghyd â natur y materion a drafodir (e.e. barnwyd ei bod yn amhriodol bod gweithwyr addysg proffesiynol yn cael gwybodaeth fanwl am faterion ac amgylchiadau teuluol yn y cartref).

- Roedd rhai o'r rhai a gyfwelwyd yn y gwasanaeth iechyd yn creu bod ffurf y gwaith papur a ddefnyddir er mwyn adolygu SEP yn ailadroddus ac na chaiff ei ddiweddaru'n ddigon aml, felly gall gwybodaeth am blentyn neu berson ifanc fod wedi dyddio yn aml. Nododd y sawl a gyfwelwyd o'r BILI hefyd ei bod yn arfer gan yr ysgol arbennig i hysbysu gweithwyr iechyd proffesiynol yn gynnar o ddyddiadau cyfarfodydd adolygu, a byddai adnodd yn cael ei neilltuo i hyn wedyn.

- Dywedodd y sawl a gyfwelwyd o faes iechyd bod sicrhau ansawdd y mewnbwn ar ffurf adroddiadau a chynlluniau gofal yn cael ei fonitro mewn ffordd ddigonol, er enghraifft, gan Rwydwaith Pediatrig Cymru Gyfan, cyfarfod llywodraethu blynyddol a thrwy gyfrwng goruchwyliaeth glinigol a holiaduron bodlonrwydd defnyddwyr y gwasanaeth. Roedd rhai o'r sawl a gyfwelwyd yn teimlo, fodd bynnag, bod y broses o fonitro effeithiolrwydd SEP yn llai effeithiol.

**Cynnwys plant, pobl ifanc, rhieni a gofalwyr yn y broses o wneud penderfyniadau am SEP statudol a datrys anghytundebau, o fewn ALI1**

- Yr offerynnau y cyfeiriwyd atynt amlaf er mwyn cynorthwyo cyfranogiad dysgwyr a rhieni mewn prosesau penderfynu ynghylch SEP statudol oedd tudalennau maint poster sy'n dwyn y teitl 'yr hyn sy'n gweithio' a'r 'hyn nad yw'n gweithio', a ddefnyddir yn ystod cyfarfodydd adolygu blynyddol. Mae'r ysgol arbennig yn defnyddio'r rhain, ond mae'n defnyddio ffynonellau gwybodaeth eraill hefyd gan gynnwys holiaduron rhieni, arolwg Agweddau Disgyblion at eu Hunain a'r Ysgol (PASS) a ffurflenni gwerthuso yn dilyn cyfarfodydd adolygu blynyddol.

- Roedd yr ysgol arbennig o'r farn bod cymorth ar gyfer cyfranogiad dysgwyr a rhieni yn flaenoriaeth allweddol o ran ei darpariaeth ac mae'n cynnig amrediad o sianelau cyfathrebu ar gyfer y ddau. Er enghraifft, barnwyd bod grwpiau rhieni, gweithdai rhieni, nosweithiau rhieni, presenoldeb rhieni mewn diwrnodau HMS yr ysgol ac amrediad o blatfformau ar-lein a chyfryngau cymdeithasol yn ffyrdd pwysig o sicrhau safbwyntiau rhieni a gofalwyr.

- Roedd rhai staff ysgol yn teimlo bod cyfranogiad dysgwyr a rhieni a gofalwyr mewn PCP weithiau yn golygu bod gofyn defnyddio strategaethau cymorth. Nododd un SENCo, pan ofynnir i ddysgwyr nodi targed dysgu, eu bod yn aml yn cyfeirio at yr un peth, hynny yw, 'Gwella fy llawysgrifen'. Mae un ysgol yn dangos y templedi PCP i rieni a gofalwyr fel ffordd o'u helpu i baratoi ar gyfer cyfarfod. Gan feddwl am y heriau wrth gynorthwyo cyfranogiad dysgwyr, dywedodd un SENCo eu bod wedi sylwi bod dysgwyr yng Nghyfnod Allweddol 4 yn well wrth gymryd rhan mewn cyfarfodydd a gwneud penderfyniadau. Roedd y SENCo hwn yn priodoli hyn i'r ffaith bod unigolion yn dod yn gyfarwydd â'r broses ar ôl iddynt fynychu cyfarfodydd yn ystod blynyddoedd blaenorol.

- Dywedodd gweithwyr iechyd proffesiynol eu bod wedi mabwysiadu rhai dulliau gweithredu sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn arferion eu gwasanaeth, ond bod rheoli gwahanol safbwyntiau am blentyn a rhiant, a safbwyntiau sy'n gwrthdaro, yn faes sy'n peri her.

- O ran anghytundebau, roedd y sawl a gyfwelwyd o'r farn bod prosesau datrys yn effeithiol ac mai nifer gymharol fach o achosion yn yr ALl sy'n cyrraedd tribiwnlys. Dywedodd staff yr ALl, fodd bynnag, eu bod yn gallu treulio cryn amser ar achosion tribiwnlys, er bod cyfanswm yr amser yn amrywio'n fawr fesul achos.

- Roedd y sawl a gyfwelwyd sy'n gweithio yn y gwasanaethau iechyd yn teimlo nad ydynt yn aml yn cael gwybod yn ddigon cynnar am anghytundeb ac weithiau, na fyddant yn cael clywed amdano nes y bydd wedi cael ei uwchgyfeirio. Roeddent yn nodi bod fforwm wedi cael ei sefydlu yn y bwrdd iechyd er mwyn ceisio lleihau nifer yr anghytundebau sy'n cael eu huwchgyfeirio. Dywedodd un gweithiwr iechyd

proffesiynol eu bod yn aml yn cael cais i ddarparu gwybodaeth ar unwaith a bod hyn yn peri problemau oherwydd ymrwymiadau eu llwyth achosion.

**Gweithio gydag eraill o fewn ALl1**

- Cyfeiriwyd at nifer o sefydliadau partner gan swyddogion yr ALl, gweithwyr iechyd proffesiynol, ysgolion, y SAB a'r ddarpariaeth EOTAS. Roedd y rhain yn cynnwys sefydliadau annibynnol ac o'r trydydd sector, y gwasanaeth ieuenctid, heddlu bro, Gyrfa Cymru, SNAP a grwpiau ymgynghori annibynnol. Roedd y sawl a gyfwelwyd o ysgolion wedi amlygu therapi lleferydd ac iaith, therapi galwedigaethol, ffisiotherapi a gwasanaethau CAMHS fel partneriaid allanol allweddol.

- Roedd y sawl a gyfwelwyd sy'n gweithio ar draws gwasanaethau yn teimlo, er bod pwyntiau cyswllt yn aml yn glir, bod cyswllt a rhannu gwybodaeth yn gallu bod yn her. Nododd sawl un a gyfwelwyd sy'n gweithio ym maes addysg bod meithrin cysylltiadau gyda gweithwyr proffesiynol o faes iechyd a gwasanaethau cymdeithasol yn arbennig o heriol, er enghraifft, ni fydd ymarferwyr wastad yn ymateb pan wneir cyswllt, ni all ymarferwyr fynychu cyfarfodydd ac ni rennir gwybodaeth bob tro. Disgrifiodd dwy ysgol arferion arloesol y maent wedi'u datblygu i gynyddu cyfleoedd cyswllt, sy'n cynnwys cynnal clinigau iechyd yn yr ysgol a staff yr ysgol yn mynychu apwyntiadau clinigol gyda rhieni/gofalwyr. Esboniodd SENCo un ysgol eu bod yn neilltuo cryn dipyn o'r amser a gaiff ei neilltuo iddynt, i gael cyswllt gydag asiantaethau allanol (e.e. gwasanaethau a ddarparir gan yr ALl, iechyd) ac roeddent yn teimlo bod hyn wedi arwain at well presenoldeb mewn cyfarfodydd a gwelliant wrth rannu gwybodaeth. Nododd y SENCo bod rhoi cyfnodau hir o rybudd am gyfarfodydd (e.e. cyfarfodydd adolygu blynyddol) yn arwain at bresenoldeb gwell, yn enwedig ymhlith gweithwyr iechyd proffesiynol.

- Nododd sawl un a gyfwelwyd bod rhannu safle neu adeilad wedi helpu i hwyluso arferion effeithiol mewn perthynas â gweithio gydag eraill. Barnwyd bod agosrwydd at weithwyr proffesiynol mewn timau a gwasanaethau cysylltiedig yn ffactor sy'n cynorthwyo'r broses o sefydlu perthnasoedd gwaith da, gan hwyluso cyfathrebu a chynorthwyo'r broses gynllunio, er enghraifft, mewn perthynas â phontio.

- Nododd y sawl a gyfwelwyd o faes iechyd nad ydynt wastad yn ymwybodol o geisiadau am wybodaeth gan bod y rhain yn aml yn mynd i'r asiantaeth arweiniol. Adroddodd nifer o ymatebwyr o faes iechyd bod gwaith amlasiantaeth yn ei le a'i fod yn effeithiol, gan gyfeirio at amrediad o bartneriaid, gan gynnwys gweithwyr iechyd proffesiynol eraill a phartneriaid yn y sector annibynnol a'r trydydd sector. Fodd bynnag, roedd rhai o'r rhai a gyfwelwyd yn teimlo'n llai cadarnhaol am hyn; dywedodd un a gyfwelwyd 'ein bod i gyd yn gweithio mewn seilos' heb unrhyw gorff cydlynu unigol o fewn y BILl.

- Adroddodd gweithwyr iechyd proffesiynol am sawl her sy'n ymwneud â chyfathrebu gyda phartneriaid. Roedd y rhain yn cynnwys anawsterau wrth rannu gwybodaeth a'r ffaith y defnyddir gwahanol systemau gwybodaeth a chyfathrebu o fewn gwasanaethau iechyd ac addysg. Nododd rhai gweithwyr iechyd proffesiynol ei bod yn gallu bod yn anodd troi at adroddiadau SA a bod oedi yn codi yn aml wrth anfon a chael adroddiadau o ganlyniad i'r ffaith y defnyddir gwahanol systemau.

- Roedd y sawl a gyfwelwyd o ysgolion yn teimlo bod effeithiolrwydd y cymorth gan asiantaethau allanol (e.e. gwasanaethau a ddarparir gan yr ALl, iechyd) yn amrywio. Roedd rhai o'r rhai a gyfwelwyd yn ystyried bod cyswllt mwy rheolaidd rhwng asiantaethau allanol a phlant unigol yn fwy effeithiol nag, er enghraifft, cyswllt bob tymor a ffurfiau cyngor cyffredinol. Nododd un gweithiwr addysg proffesiynol bod adroddiadau gan asiantaethau allanol yn gallu bod yn niwlog ac weithiau, ni fyddant yn cynnig fawr iawn o gyfeiriad clir i gynorthwywyr cymorth dysgu sy'n cynnal grwpiau ymyrraeth. Dywedodd un SENCo, fodd bynnag, y dylai asiantaethau allanol ganolbwyntio llai ar 'ddatrys trafferthion' ac achosion unigol, gan ymwneud yn fwy â hyfforddiant ar gyfer staff a datblygu capasiti mewn ysgolion.

- Adroddodd rhai o'r rhai a gyfwelwyd bod heriau wrth gyfeirio pobl ifanc at CAMHS, er enghraifft, pan gaiff cyfeiriadau eu neilltuo i'r seicolegydd addysg, mae nifer gyfyngedig oriau y gwasanaeth seicoleg addysg yn golygu mai ychydig iawn o ddysgwyr y gellir eu cyfeirio. Adroddodd y sawl a gyfwelwyd o SAB bod diffyg capasiti o fewn CAMHS wedi arwain at sefyllfa lle y mae'n rhaid i feddygon teulu

gyfeirio pobl ifanc at gwnselydd y coleg a bod hyn wedi llethu gwasanaeth cwnsela y coleg.

**Trosglwyddo o fewn ALl1**

- Roedd yr holl rai a gyfwelwyd yn teimlo bod trefniadau trosglwyddo, yn enwedig mewn perthynas â phontio o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd, yn gadarn ac yn effeithiol iawn. Disgrifiwyd nifer o arferion fel rhai sy'n cynorthwyo trosglwyddo ar gyfer dysgwyr sydd ag AAA. Mae arferion yn cynnwys: ymweliadau gan weithwyr addysg proffesiynol er mwyn rhannu gwybodaeth, er enghraifft, cyfarfodydd rhwng Portage a'r SENCo cynradd; rhaglen estynedig o ymweliadau ar gyfer dysgwyr sydd ag AAA sy'n symud o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd, weithiau at ddiben penodol (e.e. er mwyn tynnu lluniau i greu llyfrau trosglwyddo ar gyfer dysgwyr sydd ag awtistiaeth).

- Nododd yr ysgol arbennig bod ganddi gynlluniau trosglwyddo ar wahân i ddysgwyr er mwyn trosglwyddo rhwng cyfnodau allweddol a phontio i mewn ac allan o'r ysgol. Caiff y cynlluniau hyn eu strwythuro mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn (h.y. yr hyn sy'n gweithio, yr hyn nad yw'n gweithio) ac fe'u rhennir ar draws yr holl staff sy'n ymwneud â dysgwr. Nododd yr ysgol hefyd ei bod yn trefnu ei chyfarfodydd adolygu blynyddol mewn ffordd sy'n rhoi amser rhagarweiniol hir i'r trosglwyddo, hynny yw, trwy flaenoriaethu cyfarfodydd i ddysgwyr yn B6 ac yn B13/14 yn gynnar yn ystod y flwyddyn academaidd cyn trosglwyddo.

- Roedd sawl un a gyfwelwyd yn teimlo bod trosglwyddo ôl-16 yn achosi mwy o broblemau. Nododd rhai bod llai o ddewisiadau ar yr adeg hon, a nododd eraill sy'n gweithio yn y gwasanaethau iechyd nad oes unrhyw wasanaethau ar gael i bobl ifanc oni bai bod ganddynt anabledd dysgu. Nododd SENCo un ysgol bod diffyg cysylltiadau cyfathrebu da rhwng ysgolion a lleoliadau sy'n ymwneud ag addysg ôl-16 a'u bod yn credu ei bod yn aml yn syrthio ar ysgwyddau rhieni a gofalwyr i gyfleu gwybodaeth am anghenion eu plentyn, oni bai bod gan yr unigolyn ifanc ddatganiad a/neu anghenion cymhleth. Nododd yr ysgol uwchradd y bydd pennaeth blwyddyn yn mynd ar ymweliadau coleg efallai, ond y gwelir bwlch yn y gwasanaeth ar gyfer pobl ifanc 19-25 oed yn arbennig. Roedd y sawl a gyfwelwyd o SAB yn teimlo 'nad yw'r cylch wedi cau', hynny yw, bod y wybodaeth a ddaw o ysgolion uwchradd

ynghylch dysgwyr yn anghyson ar draws yr holl wasanaethau a'r sefydliadau sy'n ymwneud â dysgwr. Adroddwyd bod gwybodaeth gynhwysfawr yn fwy tebygol o gael ei rhannu am ddysgwyr sydd ag anghenion difrifol nag y mae am ddysgwyr sydd ag anghenion dysgu cymedrol.

- Roedd meysydd heriol eraill a godwyd mewn perthynas â phontio yn cynnwys: problemau gyda'r disgwyliad y dylai plant ifanc sydd ag AAA fod yn gallu trosglwyddo o addysg cyn ysgol rhan-amser i addysg amser llawn mewn ysgol yn syth, diffyg dewisiadau wrth bontio rhwng cyfnod allweddol 3 a 4, yn enwedig dewisiadau ar gyfer pynciau mwy ymarferol, a phroblemau rhannu gwybodaeth wrth bontio o ALlau eraill.

- Adroddodd y gwasanaethau cymdeithasol nad ydynt yn cael fawr iawn o gyswllt gyda phontio disgyblion oedran ysgol, ond eu bod yn ymwneud yn fwy â phontio ôl-14 ac ôl-19. Roedd grŵp gweithredol dynodedig wedi cael ei sefydlu at y diben hwn, ac mae'n ystyried gweithgarwch trosglwyddo pobl ifanc i wasanaethau oedolion pan fyddant yn 18 oed a phontio i'r coleg pan fyddant yn 19 oed. Mae'r grŵp yn goruchwylio asesiadau o angen a throsglwyddo gwybodaeth, ond teimlwyd bod ei effeithiolrwydd yn gyfyngedig gan bod gwasanaethau oedolion yn aml yn canolbwyntio ar gynnwys pecynnau gwasanaeth, hynny yw, faint y mae pecyn yn ei gostio, yn hytrach nag ymateb i anghenion unigol a pharatoi ar gyfer bywyd fel oedolyn.

- Nododd y sawl a gyfwelwyd o'r ALl eu bod yn gweithio ar brotocol ar gyfer trosglwyddo ar hyn o bryd, sy'n nodi'r disgwyliadau gan wahanol wasanaethau.

**Yr iaith Gymraeg o fewn ALl1**

- Adroddodd yr ALl ei bod yn bosibl cynnal asesiadau yn Gymraeg, ond bod darparu SEP cyfrwng Cymraeg yn anos. Cynhaliwyd ymarferion mapio ar sawl achlysur i ganfod y galw am ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a dangoswyd bob tro bod y niferoedd yn isel.

- Adroddodd ysgolion nad oeddent wedi dod ar draws y galw am ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg. Mae hyn yn debygol o adlewyrchu'r ffaith na chynhwyswyd unrhyw

ysgolion cyfrwng Cymraeg yn y gwaith maes ar gyfer yr astudiaeth achos hon.[6] Nododd y sawl a gyfwelwyd o'r SAB a'r PRU bod ganddynt staff sy'n siarad Cymraeg, ond na chafwyd unrhyw geisiadau am y cymorth hwn.

- Nododd rhai o'r rhai a gyfwelwyd o faes iechyd eu bod yn cynnig gwasanaeth trwy gyfrwng y Gymraeg os gofynnir amdano a bod ganddynt rai staff sy'n siarad Cymraeg. Nododd gweithwyr iechyd proffesiynol eraill eu bod wedi darparu adroddiadau a gwybodaeth i rai teuluoedd yn Gymraeg ond nad ydynt yn gallu cynnig rhai gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg (e.e. asesiadau neu apwyntiadau clinigol) oherwydd diffyg sgiliau ieithyddol ymhlith y staff. Roedd y sawl a gyfwelwyd o faes iechyd yn teimlo bod heriau sylweddol yn bodoli wrth geisio recriwtio a chadw staff yn gyffredinol, a bod y rhain yn waeth yn achos siaradwyr Cymraeg. Amlygodd y sawl a gyfwelwyd y ffaith nad oedd unrhyw staff sy'n gweithio ym maes nyrsio cymunedol a therapi galwedigaethol, er enghraifft, yn siarad Cymraeg.

[6] Cynhwyswyd ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog mewn astudiaethau achos eraill.

**ALl2**

**Cefndir ALl2**

Proffil ALl2:

- Mae canran y disgyblion sydd ag AAA yn debyg i'r ganran ar gyfartaledd ymhlith ALlau Cymru (Llywodraeth Cymru, 2017b);[7]
- Mae canran y disgyblion eFSM yn debyg i'r ganran ar gyfartaledd ymhlith ALlau Cymru (Llywodraeth Cymru, 2017b);
- Mae'r boblogaeth yn is na maint y boblogaeth ar gyfartaledd ymhlith ALlau Cymru (ONS, 2016);[8]
- Mae canran y siaradwyr Cymraeg yn uwch nag y mae ar gyfartaledd ymhlith ALlau Cymru (ONS, 2011);[9]
- Mae'r lefelau amddifadedd yn is nag y maent ar gyfartaledd ymhlith ALlau Cymru (Llywodraeth Cymru, 2014).[10]

Roedd y gwaith maes ar yr astudiaeth achos yn cynnwys cyfweliadau gyda phedwar swyddog o'r ALl (dau o'r adran addysg a dau o'r adran gwasanaethau cymdeithasol) a saith aelod o staff y BILl. Cynhaliwyd gwaith maes gydag uwch-reolwyr, SENCos (y mae'r ALl yn cyfeirio atynt fel ALNCos) ac athrawon mewn un ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg ac un ysgol uwchradd ddwyieithog.[11] Yn ogystal, cynhaliwyd cyfweliadau gyda staff mewn ysgol arbennig, PRU a SAB.

**Rolau a chyfrifoldebau o fewn ALl2**

- Roedd rhan fwyaf y rhai a gyfwelwyd o'r farn bod rolau a chyfrifoldebau sy'n ymwneud ag AAA yn glir ar draws gwasanaethau. Fodd bynnag, roedd rhai a gyfwelwyd mewn ysgolion yn teimlo nad yw prosesau atebolrwydd wastad yn glir. Roedd rhai a gyfwelwyd mewn ysgolion yn teimlo ei bod yn anodd iddynt fonitro

[7] Mae data ynghylch disgyblion sydd ag AAA ac eFSM yn ôl ALl ar gael yma: https://gov.wales/docs/statistics/2017/170726-school-census-results-2017-en.pdf (Cyrchwyd 12 Mehefin 2018)
[8] Mae amcangyfrifon poblogaeth yn ôl ALl ar gael yma: https://statswales.gov.wales/Catalogue/Population-and-Migration/Population/Estimates/Local-Authority/populationestimates-by-localauthority-year (Cyrchwyd 12 Mehefin 2018)
[9] Mae data ynghylch sgiliau Cymraeg yn ôl ALl ar gael yma: https://statswales.gov.wales/Catalogue/Welsh-Language/WelshSpeakers-by-LA-BroaderAge-2001And2011Census
[10] Mae data ynghylch Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru ar gael yma: https://gov.wales/docs/statistics/2015/150812-wimd-2014-revised-en.pdf (Cyrchwyd 12 Mehefin 2018)
[11] Cynhwyswyd ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog mewn astudiaethau achos ALlau eraill.

gweithredoedd asiantaethau partner a'i bod weithiau yn aneglur yr hyn y byddai modd iddynt ei wneud pe na bai asiantaeth wedi gweithredu mewn ffordd y cytunwyd arni fel rhan o ddatganiad neu adolygiad.

- Roedd y sawl a gyfwelwyd mewn ysgolion yn glir ynghylch rolau a chyfrifoldebau yr ALl a phartneriaid eraill ac roedd y sawl a gyfwelwyd o'r ALl yn teimlo bod eglurder ynghylch rolau'r adran addysg a'r adran gwasanaethau cymdeithasol a gwaith partneriaid allanol. Roedd y sawl a gyfwelwyd o'r ALl yn teimlo bod diffyg eglurder am y sawl sy'n gyfrifol am ariannu SEP mewn perthynas â lleoliadau y tu allan i'r sir. Roedd hyn yn tueddu i gael ei godi ynghylch plant sy'n derbyn gofal gan yr ALl, yn benodol mewn achosion lle y mae newid sydyn mewn lleoliad maeth yn arwain at y plentyn yn symud i ALl arall. Adroddodd staff gwasanaethau cymdeithasol a'r BILl eu bod yn llai clir ynghylch prosesau tribiwnlys a datrys anghytundeb o'u cymharu ag agweddau eraill ar y system AAA. Fodd bynnag, roedd y rhain hefyd wedi nodi nad oeddent yn aml yn cael cyswllt uniongyrchol gyda'r prosesau hyn.

- Disgrifiwyd strwythurau ar wahanol lefelau (ysgol, clwstwr, ALl, amlasiantaeth) gan y sawl a gyfwelwyd, sy'n helpu i gynnig eglurder ynghylch rolau a chyfrifoldebau. Roedd y rhain yn cynnwys: cyfarfodydd mewnol rheolaidd rhwng staff ysgolion a staff yr ALl, cyfarfodydd SENCo clystyrau ysgolion, cyfarfodydd rheolaidd rhwng staff ysgolion a staff yr ALl, panel safoni yr ALl (panel amlasiantaeth sy'n canolbwyntio ar asesu, darparu ac adolygu sy'n gysylltiedig â chontractau gweithredu gan yr ysgol a mwy a datganiadau), cyfarfodydd amlasiantaeth lleol a rhanbarthol eraill (e.e. rhwng gwasanaethau cymdeithasol ac addysg neu rhwng ALlau a BILlau).

- Holwyd y sawl a gyfwelwyd yn yr ysgolion cynradd ac uwchradd am gyfrifoldebau eu SENCo. Yn un o'r ysgolion, roedd y SENCo yn aelod o'r SMT ac roeddent yn cyflawni rôl addysgu amser llawn hefyd, ond nid oedd ganddynt gymwysterau AAA penodol. Roedd cyfrifoldebau'r SENCo hwn yn rhai o natur strategol yn bennaf ac roeddent yn cynnwys cynllunio a gwerthuso ymyriadau, cael cyswllt gyda'r ALl a phartneriaid a chyfrannu at asesiadau ac adolygiadau. Adroddodd y SENCo hwn nad yw wastad yn hyderus wrth gwblhau gwaith papur sy'n ymwneud ag asesiadau ac adolygiadau, a byddai'n dymuno cael 'mentor SENCo' i droi ato am gyngor o bryd i'w gilydd. Yn yr ysgol arall, roedd gan y SENCo 15 awr yr wythnos o ymrwymiadau

addysgu, a nhw oedd swyddog LAC a dirprwy swyddog diogelu yr ysgol. Roedd gan y SENCo gymwysterau AAA penodol ac roedd eu rôl yn cynnwys ystod eang o gyfrifoldebau strategol a gweithredol, gan gynnwys rheoli amserlenni, hyfforddiant, asesiadau, cynllunio, darparu ac adolygu'r ddarpariaeth, gweithgareddau trosglwyddo, cael cyswllt gyda rhieni/gofalwyr ac asiantaethau allanol (e.e. gwasanaethau a ddarparir gan yr ALl, iechyd) a datrys anghytundebau. Roedd y SENCo yn teimlo'n hyderus ynghylch rhan fwyaf yr agweddau ar y rôl.

- Barnwyd bod y rolau a chyfrifoldebau ffurfiol yn glir yn y PRU. O ganlyniad i nifer y plant y mae gofyn iddynt gael SEP, adroddodd cynrychiolydd y PRU eu bod yn darparu cymorth strategol i ysgolion prif ffrwd er mwyn osgoi gorfod cyfeirio rhai plant i'r PRU. Adroddwyd bod gweithwyr allweddol ac athrawon dosbarth yn ysgrifennu cynlluniau, e.e. Cynllun Ymddygiad Unigol (CYU), IEP, cynllun llythrennedd, cynllun cynorthwyo dysgwr a chynllun cynhwysiant, a gaiff eu coladu gan y SENCo.

- Barnwyd bod rolau a chyfrifoldebau mewnol yn glir yn y SAB, ac roedd staff SAB yn deall rolau ysgolion a thîm addysg yr ALl yn dda. Fodd bynnag, barnwyd bod rolau a chyfrifoldebau partneriaid allanol y SAB ym maes iechyd a gwasanaethau cymdeithasol yr ALl, yn llai clir.

**Gweithgarwch adnabod ac asesu ar gyfer dysgwyr sy'n cael eu cynorthwyo trwy gyfrwng gweithredu gan yr ysgol/a mwy a dysgwyr sydd â chynlluniau SAB yn ALl2**

- Yn gyffredinol, roedd rhan fwyaf y rhai a gyfwelwyd yn teimlo bod prosesau adnabod ac asesu yn yr ysgol yn effeithiol. Disgrifiodd y sawl a gyfwelwyd o ysgolion eu prosesau mewnol er mwyn asesu anghenion dysgwyr a gwneud penderfyniadau ynghylch dysgwyr sy'n cael eu cynorthwyo trwy gyfrwng gweithredu gan yr ysgol a gweithredu gan yr ysgol a mwy. Disgrifiodd y sawl a gyfwelwyd eu prosesau er mwyn gwneud penderfyniadau, ynghyd ag amrywiaeth o offerynnau y maent yn eu defnyddio er mwyn cynnal asesiadau. Adroddodd ysgolion eu bod yn ceisio cyngor a chymorth staff yr ALl yn rheolaidd (seicolegwyr addysg neu athrawon cwricwlwm a chynhwysiant fel arfer) wrth lunio asesiadau yn yr ysgol.

- Yn yr ysgol gynradd, nododd staff y byddai pryderon cychwynnol am ddysgwyr yn cael eu codi gan athrawon dosbarth fel arfer, a'u cyfeirio at y SENCo. Fel arfer, byddai hyn yn arwain at gyfarfod a fyddai'n cynnwys y SENCo, yr athro dosbarth a CA er mwyn trafod unrhyw bryderon a chynllunio unrhyw ddarpariaeth wahaniaethol. Yna, byddai'r dysgwr yn cael ei fonitro yn y dosbarth a byddai'r SENCo yn gofyn am gyngor gweithwyr proffesiynol allanol fel seicolegwyr addysg neu SLTs pe byddent yn teimlo bod hyn yn angenrheidiol.

- Yn yr ysgol uwchradd, nododd y sawl a gyfwelwyd eu bod fel arfer yn ymwybodol o AAA dysgwyr trwy wybodaeth a ddarparir gan ysgolion cynradd yn ystod y broses bontio. Fodd bynnag, adroddont y byddai pryder cychwynnol yn cael ei godi gan athro dosbarth, athro cofrestru neu CA fel arfer, ac y byddai'n cael ei gyfeirio i'r SENCo, a fyddai'n adolygu nodiadau'r dysgwr wedi hyn ac yn neilltuo CA iddynt er mwyn arsylwi'r dysgwr yn ystod gwers, cyn trafod pa gamau i'w cymryd (e.e. cyfarfod rhieni/gofalwyr, ceisio cyngor).

- Adroddodd staff addysg yr ALl a staff ysgol y cynhelir cyfarfodydd cynllunio ddwywaith y flwyddyn rhwng seicolegwyr addysg yr ALl a'r SENCo ym mhob ysgol er mwyn trafod a gwneud penderfyniadau ynghylch dysgwyr (e.e. y byddai gofyn cynnal ymgynghoriadau gyda staff arbenigol amdanynt). Yn ogystal, roeddent yn nodi bod mwy o gyswllt anffurfiol rheolaidd rhyngddynt, sy'n golygu bod y gwasanaeth SA yn ymwybodol o'r rhan fwyaf o achosion yn gynnar. Nododd staff yr ysgol arbennig a SENCo bod modd gwneud ceisiadau trwy neges e-bost neu dros y ffôn hefyd pe byddai angen, a bod yr ALl yn ymatebol iawn pan fyddai rhywun yn cysylltu ag ef. Nododd yr ALl a'r ysgolion bod y heriau yn tueddu i fod yn gysylltiedig â diffyg capasiti (dim digon o seicolegwyr addysg ac athrawon cynhwysiant a'r cwricwlwm yn arbennig), yn hytrach na gyda phrosesau neu systemau.

- Nododd y sawl a gyfwelwyd mewn ysgolion y gallai adnabod achosion yn gynnar yn ystod y cyfnod sylfaen fod yn heriol gan bod plant yn datblygu mor gyflym.

- Nododd y sawl a gyfwelwyd sy'n gweithio trwy gyfrwng y Gymraeg bod diffyg offerynnau asesu cyfoes ac addas i'r oedran ar gael i'w defnyddio trwy gyfrwng y

Gymraeg (yn enwedig ar gyfer dysgwyr hŷn). Roedd hyn mewn cyferbyniad ag ystod ehangach yr offerynnau asesu Saesneg sydd ar gael.

- Adroddodd y sawl a gyfwelwyd o ysgolion y defnyddir canlyniadau'r prawf darllen a rhifedd cenedlaethol fel offeryn adnabod yn gynnar er mwyn targedu darpariaeth yn yr ysgol, gan gynnwys dysgu gwahaniaethol ac ymyriadau wedi'u targedu (e.e. gwaith grŵp bach sy'n canolbwyntio ar sgiliau darllen neu rifedd).

- Disgrifiodd y rhai a gyfwelwyd o'r ALI ac o ysgolion y ffaith y ceir ymateb fesul cam ar ôl adnabod pryder cychwynnol, wrth i ysgolion drafod achosion gyda staff yr ALI fel arfer, a monitro cynnydd dysgwyr am gyfnod. Cafwyd enghreifftiau gan y sawl a gyfwelwyd o ymateb fesul cam trwy arsylwi, cael trafodaethau yn yr ysgol, dysgu gwahaniaethol a monitro cyn cynnwys staff yr ALI yn ôl y gofyn. Roedd y sawl a gyfwelwyd wedi nodi na fydd achosion llai cymhleth yn cynnwys cyngor gan yr ALI o gwbl efallai.

- Amlygwyd rhai heriau ynghylch adnabod yn gynnar ac asesu yn yr ysgol gan y sawl a gyfwelwyd. Nododd y sawl a gyfwelwyd o ysgolion a'r ALI bod bodloni disgwyliadau rhieni o ran pa mor gyflym y gellir cynnal prosesau yn gallu bod yn her. Nododd y sawl a gyfwelwyd bod rhai rhieni/gofalwyr yn disgwyl i'r ddarpariaeth gael ei rhoi yn ei lle yn gyflym ar ôl y mynegir pryder, ond y gallai'r disgwyliadau hyn wrthdaro â'r angen i ysgolion a seicolegwyr addysg ymateb fesul cam weithiau, a monitro sut y mae dysgwyr yn ymateb i ddysgu gwahaniaethol am gyfnod, cyn gwneud penderfyniadau.

- Amlygodd rhai o'r rhai a gyfwelwyd o'r BILl bod nodi anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu (SLC) yn ystod y blynyddoedd cynnar yn her. Nododd staff y BILl bod hwn yn faes lle y mae'r gwasanaeth SLT yn dymuno meithrin cysylltiadau gwell gyda darparwyr ac ymwelwyr iechyd, gan ddatblygu meini prawf cliriach. Roedd staff y BILl yn teimlo bod adnabod anghenion SLC yn gynnar yn fwy effeithiol mewn ardaloedd Dechrau'n Deg, lle y caiff mwy o weithgarwch ymgysylltu ei drefnu gyda rhieni/gofalwyr er mwyn esbonio'r cymorth a pham y gallai helpu.

- Adroddodd rhan fwyaf y rhai a gyfwelwyd o'r ALI, y BILI a'r ysgol arbennig leol bod gweithgarwch i adnabod anghenion yn ystod y blynyddoedd cynnar yn effeithiol. Disgrifiodd y sawl a gyfwelwyd brosesau er mwyn nodi anghenion, lle y gall ymwelwyr iechyd, gweithwyr cymdeithasol a meithrinfeydd gyfeirio achosion at baediatregwyr cymunedol, gwasanaeth portage yr ALI (gwasanaeth ymweliadau â'r cartref i blant cyn ysgol sydd ag AAA) neu'r ganolfan datblygu plant lleol (cyfleuster ar y cyd a gaiff ei redeg gan yr ALI a'r BILI ar gyfer plant sydd ag AAA). Yn ogystal, amlygodd y sawl a gyfwelwyd rôl pwysig panel amlasiantaeth y blynyddoedd cynnar sy'n trafod achosion a gyfeiriwyd gan aelodau neu ymarferwyr eraill. Adroddodd y sawl a gyfwelwyd o faes iechyd y gallai rhai rhieni/gofalwyr fod yn amharod i dderbyn cyfeiriadau am asesiadau neu gymorth ychwanegol yn ystod y blynyddoedd cynnar, a bod hyn yn arwain at gymorth yn cael ei ddarparu yn hwyrach nag y dylai fod wedi cael ei ddarparu o bryd i'w gilydd.

- Nododd rhan fwyaf y rhai a gyfwelwyd o faes iechyd bod ysgolion yn cysylltu â'u gwasanaethau o bryd i'w gilydd am gyngor ynghylch adnabod ac asesu yn yr ysgol. Nododd rhan fwyaf y rhai a gyfwelwyd o'r BILI (e.e. ThG, SLT a CAMHS) bod gan eu gwasanaethau un pwynt cyswllt er mwyn sicrhau mynediad (e.e. llinell gymorth), yr oeddent yn annog dysgwyr, rhieni/gofalwyr neu staff ysgol i'w ddefnyddio. Disgrifiodd gwasanaeth CAMHS ei fod wedi bod yn darparu sesiynau misol mewn ysgolion uwchradd, y gallent gynnig cyfleoedd i ddysgwyr a staff ysgolion geisio eu cyngor ynghylch adnabod yn gynnar a chyfeirio.

- Adroddodd y PRU bod gan bob dysgwr IEP a sbectrwm eang o asesiadau gwaelodlin gan gynnwys asesiadau emosiynol ac ymddygiadol a ddefnyddir ar gyfer pob dysgwr. Adroddwyd bod nifer o ddysgwyr yn cyrraedd y PRU gyda darpariaeth wedi'i threfnu trwy gyfrwng gweithredu gan yr ysgol a mwy.

- Yn ychwanegol i'r wybodaeth a ddarparir gan ysgolion (gweler yr adran ynghylch trosglwyddo, tudalen 156), nododd y sawl a gyfwelwyd o SAB eu bod yn defnyddio holiadur mynediad er mwyn gofyn i ddysgwyr am wybodaeth ynghylch unrhyw AAA/AAD, yn ogystal ag unrhyw ddarpariaeth estynedig a gawsant yn yr ysgol. Nododd y sawl a gyfwelwyd bod hyn wedi helpu i nodi AAA/AAD ond bod y broses yn dibynnu ar ddysgwyr yn hunan-adrodd AAA/AAD, a bod yn well gan rai dysgwyr

beidio gwneud hynny. I'r dysgwyr hynny nad oedd y SAB yn ymwybodol o'u AAA/AAD, nododd y sawl a gyfwelwyd bod pryderon yn aml yn cael eu codi gan diwtoriaid i'r tîm cymorth dysgu yn fuan ar ôl hanner tymor yr hydref, ar ôl iddynt gyflwyno eu haseiniadau cyntaf.

**Cynllunio ar gyfer SEP ar gyfer dysgwyr sy'n cael eu cynorthwyo trwy gyfrwng gweithredu gan yr ysgol/a mwy a dysgwyr sydd â chynlluniau SAB o fewn ALl2**

- Roedd y sawl a gyfwelwyd o ysgolion yn teimlo bod eu prosesau er mwyn cynllunio SEP yn yr ysgol ar gyfer dysgwyr sy'n cael eu cynorthwyo trwy gyfrwng gweithredu gan yr ysgol a gweithredu gan yr ysgol a mwy yn effeithiol. Nododd y sawl a gyfwelwyd bod gan yr holl ddysgwyr IEPau a bod y rhain yn cael eu diweddaru bob blwyddyn. Disgrifiodd ysgolion y ffaith y cynhelir trafodaethau mewnol rheolaidd rhwng SENCos ac athrawon AAA a CCDs, yn ogystal â phrosesau er mwyn trafod anghenion dysgwyr yn ystod cyfarfodydd staff cyffredinol. Yn ogystal, pwysleisiodd staff ysgol bwysigrwydd trafodaethau anffurfiol rhwng y SENCo a staff arall yr ysgol ynghylch monitro dysgwyr a chynllunio darpariaeth.

- Adroddodd y sawl a gyfwelwyd o'r ALl ac ysgolion bod cyfarfodydd cynllunio a gynhelir ddwywaith y flwyddyn rhwng staff yr ALl a'r SENCo ym mhob ysgol yn effeithiol wrth gynnig cyfle i drafod a chynllunio'r ddarpariaeth, gan fanteisio ar gyngor staff yr ALl. Nododd y sawl a gyfwelwyd o ysgolion a'r ALl bod 'contractau gweithredu gan yr ysgol a mwy' yn cael eu defnyddio gyda rhai dysgwyr er mwyn amlinellu'r ddarpariaeth estynedig y bydd yr ALl yn ei darparu ar gyfer rhai dysgwyr sy'n cael eu cynorthwyo trwy gyfrwng gweithredu gan yr ysgol a mwy. Esboniodd y sawl a gyfwelwyd o'r ALl bod contractau gweithredu gan yr ysgol a mwy fel arfer yn cael eu gweithredu ar gyfer dysgwyr a gyfeirir at banel safoni yr ALl, ond lle y mae'r panel wedi penderfynu nad oedd asesiad statudol yn angenrheidiol.

- Nododd yr ALl eu bod yn bwriadu peilota CDUau (wedi'u seilio ar dempled a gaiff ei beilota mewn ALl arall) ar gyfer dysgwyr Blwyddyn 2 a Blwyddyn 6 heb ddatganiadau, ac y byddai IEPau yn cael eu cynnwys yn y templed CDU ar gyfer y

dysgwyr hyn yn ystod y cyfnod peilota.[12] Nododd y sawl a gyfwelwyd o'r ALl eu bod yn bwriadu defnyddio CDUau yn lle contractau gweithredu gan yr ysgol a mwy ar gyfer dysgwyr Blwyddyn 6. Nid oedd unrhyw rai o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw yn defnyddio CDUau, ond nododd pob un ohonynt eu bod wedi dechrau defnyddio proffiliau un tudalen ar gyfer rhai dysgwyr, law yn llaw â'u dogfennaeth AAA bresennol. Nododd y sawl a gyfwelwyd o ysgolion bod gan bob dysgwr IEPau. Roedd yr ysgol uwchradd wedi dechrau defnyddio proffiliau un tudalen gyda dysgwyr Blwyddyn 7 ac 8 sydd â SEP trwy gyfrwng gweithredu gan yr ysgol a gweithredu gan yr ysgol a mwy, a bod yr ysgol gynradd yn eu treialu gyda dysgwyr Blwyddyn 4 a 5. Adroddodd y SAB hefyd eu bod yn bwriadu treialu CDUau yn ystod 2018/19 mewn un campws.

- Cyfeiriodd rhai o'r rhai a gyfwelwyd o faes iechyd at enghreifftiau o ddarpariaeth a ddarparir ar y cyd rhwng y BILl, yr ALl ac ysgolion. Amlygodd y sawl a gyfwelwyd o faes iechyd bod y gwasanaeth SLT yn darparu 'hyfforddiant cyn cyfeirio' i ysgolion er mwyn helpu athrawon a CAwyr i ddeall pa gymorth y bydd y gwasanaeth SLT yn ei ddarparu. Nododd staff y BILl hefyd bod SLTs yn mynychu cyfarfodydd cynllunio a gynhelir ddwy waith y flwyddyn mewn ysgolion fel arfer.

- Grwpiwyd dosbarthiadau yn y PRU yn ôl angen, er mwyn sicrhau 'grwpiau ymarferol', e.e. gorfywiogrwydd, gweithredu lefel uchel ac yn fwyaf tebygol o ddychwelyd i ysgol prif ffrwd, ASD, a lefel uchel dysgwyr gorbryderus gan gynnwys ASD. Roedd y modelau ymddygiad a gwobrwyo yr un fath ar gyfer pob dosbarth. Ynghyd â data ynghylch dilyniant academaidd, cofnodir hunan-barch a gwelliant mewn ymddygiad/empathi hefyd.

- Yn y SAB, roedd y cymorth ar gyfer dysgwyr sydd ag AAA yn cael ei gynllunio ac fe'i ddarparir trwy gyfrwng y gwasanaeth cymorth i ddysgwyr. Roedd y gwasanaeth hwn yn cynnwys cydlynwyr AAA a staff cymorth dysgu ar gyfer dysgwyr ar gyrsiau prif ffrwd, yn ogystal â staff sy'n canolbwyntio ar ddarparu cyrsiau sgiliau byw'n annibynnol (SBA), yn bennaf ar gyfer dysgwyr sy'n trosglwyddo o ysgolion arbennig.

[12] Nid yw'r gofynion CDU gorfodol, a nodir yn y Cod ADY newydd i Gymru, wedi cael eu cyhoeddi eto. Gallai hwn fod yn wahanol i'r CDU a ddatblygwyd ac a beilotwyd fel rhan o astudiaeth ymchwil gweithredol Llywodraeth Cymru (Gweler Adran 1.7 y prif adroddiad).

Nododd y sawl a gyfwelwyd y gallai rhai staff yn y SAB gynnal asesiadau sgrinio cyflym a'u bod yn gallu sgrinio am AAA/AAD, ond nad oeddent yn gallu cynnal asesiadau diagnostig (e.e. ar gyfer awtistiaeth neu ADCG).

**Cynnwys plant, pobl ifanc, rhieni a gofalwyr yn y broses o wneud penderfyniadau ynghylch darpariaeth gweithredu gan yr ysgol/a mwy o fewn ALI2**

- Nododd y sawl a gyfwelwyd o ysgolion bod cyswllt rhieni a gofalwyr gyda'r prosesau o wneud penderfyniadau sy'n ymwneud â'r ddarpariaeth a ddarparir trwy gyfrwng gweithredu gan yr ysgol/a mwy, yn weddol gyfyngedig. Nid oedd rhieni a gofalwyr yn cael eu gwahodd i adolygiadau IEP fel arfer, er eu bod yn cael eu gwahodd i siarad â'r SENCo a thrafod yr IEP yn ystod nosweithiau rhieni. Nododd staff yr ALI ac ysgol bod prosesau er mwyn cyfathrebu gyda rhieni/gofalwyr a dysgwyr er mwyn sicrhau bod eu safbwyntiau yn cael eu hystyried, yn effeithiol.

- Nododd y sawl a gyfwelwyd o ysgolion uwchradd eu bod wedi dechrau defnyddio PCP fel rhan o adolygiadau blynyddol ar gyfer dysgwyr sydd ar gontractau gweithredu gan yr ysgol a mwy (h.y. gyda dysgwyr sy'n cael cymorth estynedig trwy gyfrwng gweithredu gan yr ysgol a mwy o'r ALI). Estynnwyd gwahoddiad i ddysgwyr fynychu'r adolygiadau hyn a gofynnwyd iddynt a fyddent yn dymuno i riant/gofalwr fynychu. Nododd un SENCo bod: 'PCP yn broses ddefnyddiol. Mae'n dda cynnwys y disgybl ond mae'n fwy dwys. Mae'r disgybl yn fwy canolog i'r broses gyfan. Mae'n fwy personol pan fyddant yn cymryd rhan yn y broses o osod targedau ac mae'n cynnig mwy o berchnogaeth iddynt'.

- Ar gyfer y PRU, ysgrifennir yr IEP trwy gynnal deialog gyda'r rhiant a'r dysgwr, ac fe'i ysgrifennir gan y dysgwr yn bennaf. Trafodir IEP a CYUs gyda'r dysgwr hefyd. Fodd bynnag, adroddodd y PRU am anawsterau gyda logisteg dwyn pawb ynghyd, a bod rhai plant yn teithio cryn bellteroedd, o siroedd eraill weithiau. Ymdrechwyd i sicrhau bod y broses mor hygyrch ag y bo modd a defnyddiwyd holiadur, e.e. sut mae pethau'n mynd yn eich barn chi? Beth allwn ni ei wneud? Mae'r ymatebion hyn wedi cyfrannu at adolygiadau, a baratowyd cyn neu yn ystod y cyfarfod fel arfer. Yn ogystal, mae dysgwyr wedi ysgrifennu am eu profiad yn yr ysgol trwy ddefnyddio 'fy stori i', sy'n cynnig asesiad holistig o'r angen.

**SEP ac adolygu ar gyfer dysgwyr sy'n cael eu cynorthwyo trwy gyfrwng gweithredu gan yr ysgol/a mwy a dysgwyr sydd â chynlluniau SAB, o fewn ALI2**

- Roedd y sawl a gyfwelwyd o ysgolion yn teimlo bod SEP a ddarparir trwy gyfrwng gweithredu gan yr ysgol/a mwy yn eithaf effeithiol, er eu bod wedi nodi hefyd bod diffyg capasiti yn bodoli er mwyn galluogi pob dysgwr i wireddu eu potensial. Nododd rhai o'r rhai a gyfwelwyd bod hyn yn golygu nad oedd darpariaeth estynedig ar gyfer y rhai heb ddatganiadau yn cael ei gweithredu mewn ffordd amserol.

- Disgrifiodd ysgolion eu capasiti yn yr ysgol i gynnig darpariaeth a'r math o ymyriadau y maent yn eu darparu. Yn yr ysgol gynradd, roedd tîm bach o CAwyr wedi darparu ymyriadau wedi'u targedu gyda dysgwyr mewn grwpiau bach, yn ogystal â sesiynau un-i-un gyda rhai dysgwyr. Nododd yr ysgol eu bod wedi gwneud cais am SEP estynedig pellach o bryd i'w gilydd ar gyfer cynlluniau trwy gyfrwng gweithredu gan yr ysgol a mwy gan yr ALI, a ddarparir fel arfer gan athrawon cynhwysiant neu CAwyr peripatetig. Roedd yr ysgol yn teimlo bod y ddarpariaeth hon yn effeithiol, ond bod diffyg capasiti o fewn yr ALI i ddarparu digon o gymorth. Roedd y sawl a gyfwelwyd o ysgolion uwchradd yn disgrifio SEP sy'n cael ei darparu trwy gyfrwng gweithredu gan yr ysgol/a mwy fel rhywbeth a ddarparir gan y SENCo, CAwyr, hyfforddwyr dysgu ac athro sy'n arbenigo mewn dyslecsia, a oedd wedi darparu ymyriadau amrywiol wedi'u targedu yng 'nghanolfan' AAA yr ysgol. Nododd y SENCo uwchradd y byddent yn mynychu hyfforddiant ac yn briffio'r holl staff yn ystod cyfarfodydd tîm a sesiynau DPP.

- Nododd y sawl a gyfwelwyd o ysgolion cynradd bod y ddarpariaeth a ddarparir trwy gyfrwng gweithredu gan yr ysgol/a mwy yn cael ei hadolygu gan CAwyr sy'n cadw dyddiadur dyddiol o gynnydd disgybl, a gaiff ei drafod yn rheolaidd gyda'r SENCo. Disgrifiodd y sawl a gyfwelwyd o ysgolion uwchradd drafodaethau tîm AAA wythnosol (CAwyr, athro AAA, SENCo a staff eraill yn ôl y gofyn) er mwyn trafod cynnydd dysgwyr, gan ddiweddaru systemau rheoli gwybodaeth yr ysgol gydag unrhyw newidiadau i anghenion dysgwyr. Adroddodd y sawl a gyfwelwyd o ysgolion cynradd ac uwchradd y cynhelir cyfarfodydd ffurfiol rhwng y SENCo a CAwyr bob tymor i adolygu cynnydd disgyblion. Adroddodd y sawl a gyfwelwyd o ysgolion y cynhelir adolygiad blynyddol o bob IEP.

- Roedd y sawl a gyfwelwyd o'r ysgol uwchradd yn defnyddio PCP fel rhan o adolygiadau blynyddol o gontractau gweithredu gan yr ysgol a mwy dysgwyr (h.y. gyda dysgwyr sy'n cael cymorth gweithredu gan yr ysgol a mwy estynedig gan yr ALI). Roedd y SENCo uwchradd yn teimlo bod y broses o adolygu PCP yn fwy effeithiol o ran cynnwys rhieni/gofalwyr a dysgwyr a'i bod yn fwy personol, gan arwain at fwy o 'ymrwymiad' gan ddysgwyr a rhieni/gofalwyr yr estynnwyd gwahoddiad iddynt fynychu. Fodd bynnag, nododd y sawl a gyfwelwyd hefyd bod y broses yn cymryd mwy o amser na'r trefniadau adolygu blaenorol a bod ganddynt bryderon ynghylch eu capasiti i gynnal adolygiadau PCP gyda'r holl ddysgwyr sydd ag AAA. Roedd rhai o'r rhai a gyfwelwyd yn teimlo bod hyfforddi mwy o athrawon i fod yn gallu cynnal adolygiadau PCP yn hanfodol os oedd pob dysgwr sydd ag AAA yn mynd i gael adolygiadau PCP.

- Amlygodd y sawl a gyfwelwyd o'r ALI ddiffyg capasiti o fewn yr ALI i ddarparu SEP estynedig hefyd, yn enwedig ar gyfer y rhai heb gynlluniau statudol. Nododd y sawl a gyfwelwyd o ysgolion a'r ALI bod diffyg darpariaeth i blant sydd ag awtistiaeth o ganlyniad i gynnydd yn y galw am y math hwn o ddarpariaeth. Adroddodd y sawl a gyfwelwyd y bu gostyngiad yn nifer y staff yn yr ALI, a oedd yn gysylltiedig â phwysau ariannol a chynnydd yng nghanran y cyllidebau addysg lleol a gaiff ei dirprwyo i ysgolion. Nododd y sawl a gyfwelwyd o ysgolion a'r ALI y gallai hyn arwain at 'gylch cythreulig' lle y byddai rhai ysgolion yn dewis peidio cael gwasanaethau canoledig, gan arwain at ostyngiad yng nghyllidebau canolog yr ALI ar gyfer gwasanaethau AAA, a byddai llai o wasanaeth ar gael i ysgolion, ac yn dilyn hyn, byddai ysgolion pellach yn debygol o ddewis peidio cael y gwasanaeth o ganlyniad i anfodlonrwydd gyda'r gwasanaeth llai.

- Nododd y sawl a gyfwelwyd o'r ALI eu bod yn casglu llawer o dystiolaeth ynghylch cynnydd dysgwyr unigol, ond bod angen iddynt wneud mwy o ran gwerthuso cynnydd cyffredinol yr holl blant sydd ag AAA. Nododd y sawl a gyfwelwyd o'r ALI eu bod yn dymuno pennu proses fonitro gadarn ar gyfer dysgwyr gan ddefnyddio darpariaeth allgymorth a chanolfannau adnoddau dysgu yr ALI. Nododd y sawl a gyfwelwyd o'r ALI bod angen iddynt ddiffinio'n well yr hyn y mae eu gwasanaethau yn ceisio'i gyflawni ar lefel strategol, a pha ddata y byddai modd ei ddefnyddio i fesur a yw'r ddarpariaeth yn llwyddiannus.

- Nododd staff o wasanaethau cymdeithasol yr ALl eu bod yn arfer mynychu cyfarfodydd adolygu IEP blynyddol ar gyfer dysgwyr o Flwyddyn 9 a throsodd ond nad ydynt yn gallu gwneud hyn mwyach oherwydd diffyg capasiti. Gan sôn am yr adolygiadau IEP yr oeddent wedi eu mynychu yn flaenorol, roedd staff gwasanaethau cymdeithasol yr ALl yn teimlo nad oedd yr adolygiadau hyn yn effeithiol wrth ystyried safbwyntiau rhieni/gofalwyr a dysgwyr. Fodd bynnag, nododd staff o wasanaethau cymdeithasol yr ALl hefyd bod hyfforddiant PCP wedi cael effaith ar y broses o gynnwys rhieni/gofalwyr mewn cyfarfodydd adolygu. Nododd staff o wasanaethau cymdeithasol yr ALl eu bod yn aml yn gweithio i helpu dysgwyr sydd ag AAA i oresgyn rhwystrau sy'n atal dysgu, yn enwedig mewn lleoliadau ôl-16 (e.e. goresgyn gorbryder ynghylch teithio ar drafnidiaeth gyhoeddus i'r coleg).

- Byddai cynnydd dysgwyr sy'n mynychu'r PRU yn cael ei adolygu bob chwe wythnos, a rhai yn dychwelyd i'r ysgol ar ôl rhwng 12 a 18 wythnos. Adroddodd y sawl a gyfwelwyd yr arferai lefelau ailintegreiddio i'r brif ffrwd fod yn uchel, wrth i'r rhan fwyaf o ddysgwyr ailintegreiddio'n llwyddiannus, ond bod y niferoedd wedi gostwng yn sylweddol o ganlyniad i lefel arbenigol y cymorth sy'n ofynnol, ac na all ysgolion prif ffrwd gynorthwyo ailintegreiddio mwyach. Fodd bynnag, mae 'ailintegreiddio mewn ysgol prif ffrwd' yn un o fesurau perfformiad y PRU. Yr unig adolygiadau blynyddol penodol a gynhaliwyd oedd y rhai ar gyfer y dysgwyr sydd â datganiadau.

- Roedd y sawl a gyfwelwyd yn teimlo bod y ddarpariaeth a gynigir gan dimau SBA a chymorth dysgu y SAB yn effeithiol. Fodd bynnag, adroddodd un unigolyn a gyfwelwyd bod diffyg o ran yr SLTs, yr arbenigwyr dyslecsia, y seicolegwyr addysg a'r athrawon nam ar y golwg sydd ar gael, gan nodi bod yn rhaid i'r coleg brynu darpariaeth allanol o'r sector preifat neu'r trydydd sector yn aml. Roedd y sawl a gyfwelwyd yn teimlo bod prosesau adolygu yn effeithiol o fewn y SAB, a nodwyd bod staff wedi dechrau defnyddio prosesau adolygu PCP ar gyfer dysgwyr ar gyrsiau cyn-alwedigaethol.

**Datrys anghytundebau sy'n ymwneud â'r ddarpariaeth a gynigir trwy gyfrwng gweithredu gan yr ysgol/a mwy ac ar gyfer dysgwyr sydd â chynlluniau SAB o fewn ALl2**

- Pwysleisiodd y sawl a gyfwelwyd o ysgolion a'r ALI eu bod yn ceisio datrys anghytundebau mewn ffordd anffurfiol a bod hyn yn effeithiol fel arfer. Nododd y sawl a gyfwelwyd o ysgolion a'r ALI bod anghytundebau yn cael eu hosgoi fel arfer trwy gynnwys rhieni/gofalwyr a phlant yn y prosesau cynllunio ac adolygu, ac y gallai PCP fod yn offeryn defnyddiol er mwyn hwyluso eu cyswllt. Adroddodd y sawl a gyfwelwyd o ysgolion eu bod wedi dod ar draws rhai anghytundebau yn ymwneud â'r ddarpariaeth a gynigir trwy gyfrwng trefniadau gweithredu gan yr ysgol/a mwy a bod y rhain fel arfer yn ymwneud â phenderfyniadau ynghylch asesu statudol, y byddent yn cael eu cyfeirio'n ôl i'r ALI.

- Nododd staff gwasanaethau cymdeithasol yr ALI eu bod yn treulio cryn dipyn o'u hamser yn cael cyswllt gyda rhieni neu ofalwyr sydd â phryderon am y ddarpariaeth ar gyfer eu plentyn. Nododd staff o wasanaethau cymdeithasol yr ALI bod gofyn rhoi cryn dipyn o gymorth i rai rhieni/gofalwyr er mwyn eu galluogi i ddeall penderfyniadau sy'n ymwneud â'u plentyn, yn enwedig os oedd gan rieni/gofalwyr AAA eu hunain.

- Roedd y sawl a gyfwelwyd yn teimlo bod prosesau er mwyn datrys anghytundebau ynghylch cynlluniau SAB yn weddol effeithiol. Nododd y sawl a gyfwelwyd bod rhieni/gofalwyr yn cysylltu â'r coleg i fynegi pryderon ynghylch darpariaeth eu plentyn o bryd i'w gilydd, a bod y rhain yn cael eu datrys trwy gyfrwng cyfarfod anffurfiol gyda'r holl bartneriaid perthnasol fel arfer (rhieni/gofalwyr, asiantaethau allanol, tiwtoriaid, tîm cymorth dysgu fel arfer). Nododd y sawl a gyfwelwyd bod heriau'n codi ym maes AB weithiau, lle y gallai gofynion penodol cwrs (a bennir gan gorff achredu allanol) wrthdaro ag AAA/AAD penodol. Cyfeiriodd un o'r rhai a gyfwelwyd at ofyniad i 'gyffyrdd-deipio' ar gwrs astudiaethau busnes fel enghraifft o achlysur pan na fydd corff dyfarnu yn dymuno hepgor gofyniad er bod y SAB yn dymuno gwneud hynny. Adroddodd y sawl a gyfwelwyd eu bod wedi arsylwi tuedd lle'r oedd y SAB yn cael mwy o gwynion am y ffordd y mae'r coleg yn cynorthwyo dysgwyr sydd â phroblemau iechyd meddwl. Nododd y sawl a gyfwelwyd y gallai hyn arwain at ddiffyg eglurder ynghylch ai'r SAB neu'r BILI sy'n gyfrifol am ddarparu a chyllido cymorth.

**Asesiad statudol ar gyfer anghenion addysgol arbennig o fewn ALI2**

- Yn gyffredinol, roedd y sawl a gyfwelwyd yn teimlo bod prosesau asesu ac adolygu yn effeithiol. Roedd y sawl a gyfwelwyd o'r ALI ac ysgolion yn teimlo bod prosesau er

mwyn gwneud penderfyniadau ynghylch a ddylid cynnal asesiad statudol, yn ogystal â'r cam o gynnal yr asesiad ei hun, yn glir ac yn effeithiol. Roedd y rhain yn cynnwys 'pecyn safoni' o wybodaeth a chanllawiau i ysgolion gan yr ALl, sy'n esbonio'r broses o wneud cyfeiriadau i'r panel, yn ogystal â ffurflenni cyfeirio safonol at yr ALl yn gofyn am dystiolaeth gan ysgolion am y ddarpariaeth wahaniaethol a weithredwyd a pha wasanaethau sydd wedi bod yn ymwneud â'r dysgwr. Nododd ysgolion, er y gallai prosesau fod yn fiwrocrataidd, bod y ddogfennaeth yn gynhwysfawr ac y cynhelir trafodaethau rheolaidd gyda seicolegwyr addysg cyn ac yn ystod y broses os bydd gofyn cael cyngor.

- Roedd y sawl a gyfwelwyd o'r ALl, yr ysgol arbennig a rhai o'r BILl wedi disgrifio eu cyswllt gyda phanel safoni amlasiantaeth yr ALl (panel amlasiantaeth sy'n canolbwyntio ar asesu, darparu ac adolygu sy'n ymwneud ag AAA), ac roeddent yn teimlo ei fod yn effeithiol, yn deg ac yn gyson. Mae'r panel yn cynnwys cynrychiolwyr o adran addysg yr ALl (SA, swyddog datganiadau ac athro cynhwysiant a'r cwricwlwm), gwasanaethau cymdeithasol yr ALl, pennaeth yr ysgol arbennig, penaethiaid prif ffrwd a SENCos (mae'r ysgolion yn cylchdroi'r aelodaeth), SNAP Cymru, a'r BILl (paediatregydd cymunedol a SLT). Roedd yr holl rai a gyfwelwyd yn teimlo bod aelodaeth y panel safoni yn briodol. Nododd staff yr ALl y rhoddir blaenoriaeth i blant sy'n derbyn gofal yn ystod cyfarfodydd y panel safoni. Nododd un aelod o staff y BILl: 'Mae'r panel safoni wedi gwneud argraff dda iawn arnaf. Mae'n trafod achosion cymhleth ac mae'n cyflawni ei rôl yn dda.'

- Nododd rhai staff o'r BILl bod eu cyswllt gyda phrosesau asesu statudol yn tueddu i fod yn gyfyngedig i ysgrifennu adroddiadau a ystyrir gan y panel safoni. Fodd bynnag, nododd rhai y byddent yn eistedd ar y panel pe baent yn cael cyswllt sylweddol gydag achos dysgwr. Roedd yr holl staff o'r BILl yn teimlo bod eu cyswllt yn ddigonol a'i fod yn digwydd ar adegau priodol. Roedd rhai o'r farn y byddai gofyn iddynt fynychu mwy o gyfarfodydd yn y dyfodol ac roeddent yn pryderu am eu capasiti i wneud hynny.

- Roedd y sawl a gyfwelwyd o ysgolion yn teimlo bod prosesau asesu statudol yn deg ac yn gynhwysfawr, er nad oeddent wedi bod yn ymwneud â chyfarfodydd y panel safoni yn uniongyrchol. Roedd rhai o'r rhai a gyfwelwyd mewn ysgolion yn teimlo

bod y broses yn cymryd cryn dipyn o amser a'i bod yn fiwrocrataidd, ac roedd rhai yn teimlo bod y ddogfennaeth yn gallu bod yn aneglur o ran lefel y manylder sy'n ofynnol gan ysgolion. Nododd un unigolyn a gyfwelwyd bod amrywiadau yn ôl math y dystiolaeth a gyflwynir gan ysgolion gan nad oedd unrhyw arweiniad ynghylch pa offerynnau sgrinio neu ddiagnostig y dylid eu defnyddio gan ysgolion er mwyn casglu tystiolaeth ategol.

- Y prif her a godwyd gan y sawl a gyfwelwyd ynghylch asesu statudol oedd amseroldeb cwblhau'r asesiadau. Nododd y sawl a gyfwelwyd nad yw disgwyliadau rhieni/gofalwyr o ran yr amser y mae'n ei gymryd i gynnal asesiadau yn aml yn adlewyrchu'r hyn sy'n bosibl. Nododd staff yr ALl a'r BILl y gallai oedi ddigwydd wrth geisio cwblhau adroddiadau'r BILl mewn pryd o fewn y system bresennol. Adroddodd y sawl a gyfwelwyd o faes iechyd bod yr oedi o ganlyniad i deuluoedd yn colli apwyntiadau gydag ymarferwyr BILl fel arfer, a'r amseroedd aros hir er mwyn ail-drefnu apwyntiadau. Fodd bynnag, roedd staff y BILl wedi nodi nad ydynt wastad yn cael ceisiadau am wybodaeth yn ddigon cyflym, ac roedd rhai yn nodi bod staff yr ALl yn anfon gwybodaeth at baediatregwyr cymunedol yn unig weithiau, sy'n gallu arwain at staff eraill o fewn y BILl yn cael gwybodaeth yn hwyr. Yn ogystal, cyfeiriodd y sawl a gyfwelwyd o'r ALl at brinder staff a gostyngiadau ym maint eu timau fel ffactorau sy'n effeithio ar amseroldeb asesiadau.

**Darpariaeth statudol ar gyfer anghenion addysgol arbennig o fewn ALl2**

- Nododd y sawl a gyfwelwyd o ysgolion eu bod yn treialu proffiliau un tudalen (roedd ysgolion yn bwriadu defnyddio proffiliau un tudalen ar draws yr ysgol gyfan yn y dyfodol). Roedd gan bob dysgwr yn yr ysgol arbennig ddatganiadau a phroffil un tudalen. Roedd y sawl a gyfwelwyd o ysgolion yn ystyried bod y proffiliau un tudalen yn ddefnyddiol, a nodwyd y defnyddir y rhain yn ystod cyfarfodydd staff. Roedd SENCo yr ysgol gynradd wedi mynychu hyfforddiant CDU a drefnwyd gan yr ALl.

- Roedd rhan fwyaf y rhai a gyfwelwyd o'r farn bod SEP statudol yn effeithiol, ond amlygwyd heriau o ran capasiti a chyllid. Roedd rhan fwyaf y rhai a gyfwelwyd o ysgolion, yr ALl a'r BILl yn teimlo bod SEP yn cael ei gweithredu mewn ffordd amserol ar gyfer y rhai sydd â datganiadau. Nododd un unigolyn a gyfwelwyd o'r BILl 'Yn fy mhrofiad i, mae'r ddarpariaeth yn mynd y tu hwnt i'r hyn a ysgrifennir yn y

datganiad fel arfer.' Fodd bynnag, nododd y sawl a gyfwelwyd o'r ALl a'r ysgolion bod diffyg darpariaeth allgymorth gan yr ALl o ganlyniad i lai o gapasiti. Adroddodd rhai o'r rhai a gyfwelwyd eu bod yn ymwybodol o achosion lle nad oedd gan ysgolion y capasiti i gynnig darpariaeth y cytunwyd arni ym mhanel safoni yr ALl. Roedd rhai o'r rhai a gyfwelwyd yn teimlo y gallai hyn olygu bod gwaharddiadau a chyfeiriadau i'r gwasanaethau cymdeithasol a/neu'r ysgol arbennig yn fwy tebygol.

- Yn y blynyddoedd cynnar, adroddodd y sawl a gyfwelwyd bod y ganolfan datblygiad plant, a reolir ar y cyd gan yr ALl a'r BILl, yn gyfleuster effeithiol ar gyfer plant cyn ysgol sydd â phroblemau niwroddatblygiadol, salwch corfforol hirdymor ac anableddau. Roedd y sawl a gyfwelwyd o'r BILl, yr ALl a'r ysgol arbennig yn teimlo bod cydleoli athrawon a staff cymorth yn y dosbarth gyda phaediatregwyr cymunedol, therapyddion, nyrsys a seicolegwyr yn fodel darpariaeth effeithiol.

- Roedd rhan fwyaf y rhai a gyfwelwyd o ysgolion yn teimlo bod SEP statudol yn effeithiol, er bod rhai o'r rhai a gyfwelwyd wedi amlygu bylchau (e.e. hyfforddiant ynghylch defnyddio braille, darpariaeth awtistiaeth arbenigol, arbenigwyr ymddygiadol). Roedd gan yr ysgol gynradd a'r ysgol uwchradd rai staff (CAwyr neu athrawon) a gyflogir gan yr ALl yn uniongyrchol i gynorthwyo dysgwyr sydd ag anghenion cymhleth.

- Roedd yr holl rai a gyfwelwyd yn teimlo bod y ddarpariaeth yn yr ysgol arbennig leol yn effeithiol iawn, a nododd sawl un bod ehangder y cyfleoedd galwedigaethol sydd ar gael yn gryfder penodol o fewn yr ALl. Fodd bynnag, amlygodd rhan fwyaf y rhai a gyfwelwyd hefyd bod diffyg lleoedd ar gael mewn yn yr ysgol arbennig oherwydd cynnydd a welwyd yn y galw yn ddiweddar. Roedd y sawl a gyfwelwyd yn priodoli hyn i gynnydd sylweddol yn niferoedd y disgyblion pump oed sy'n cael lle yn yr ysgol arbennig, yn ogystal â chynnydd yn nifer y disgyblion sy'n trosglwyddo i'r ysgol arbennig ar ddechrau Blwyddyn 9.

**Adolygiadau statudol o fewn ALl2**

- Nododd y sawl a gyfwelwyd o'r ALl y cynhelir adolygiadau blynyddol o ddatganiadau a 'chontractau gweithredu gan yr ysgol a mwy' gan banel safoni amlasiantaeth yr ALl. Nododd y sawl a gyfwelwyd o'r ALl os caiff adolygiadau achos unigol eu hystyried yn

rhai 'syml' (e.e. os na chynigir unrhyw newidiadau neu os nad oes unrhyw ymholiadau yn codi yn eu cylch), efallai na fydd y panel yn eu trafod. Fodd bynnag, os cynigir gwneud newidiadau i SEP neu os bydd ymholiadau yn codi, fe'u trafodir gan y panel safoni.

- Nododd y sawl a gyfwelwyd o'r ysgol gynradd bod cynnydd dysgwyr sydd â datganiadau yn cael ei adolygu bob wythnos, ac y cynhelir cyfarfodydd tymhorol ffurfiol rhwng y SENCo a CAwyr. Nododd y rhai a gyfwelwyd o'r ysgol uwchradd a'r ysgol arbennig eu bod wedi dechrau defnyddio PCP fel rhan o adolygiadau rhai dysgwyr sydd â datganiadau. Yn yr ysgol uwchradd, roedd hyn ar gyfer dysgwyr Blwyddyn 7 ac 8 sydd â datganiadau yn unig. Yn yr ysgol arbennig, roedd PCP yn cael ei ddefnyddio fel rhan o adolygiadau ar gyfer yr holl ddysgwyr ym Mlwyddyn 9 a thua chwarter yr holl ddysgwyr. Roedd y rhai a gyfwelwyd o ysgolion yn teimlo bod defnyddio dull PCP yn ystod adolygiadau yn llawer mwy effeithiol na'r trefniadau adolygu blaenorol o ran cynnwys rhieni/gofalwyr a dysgwyr mewn penderfyniadau. Yn ogystal, roedd y sawl a gyfwelwyd yn teimlo hefyd ei fod yn fwy personol a'i fod yn sicrhau set o nodau a rennir, gan arwain at fwy o 'ymrwymiad' gan ddysgwyr a rhieni/gofalwyr. Nododd un uwch-reolwr ysgol bod 'Pawb yn ymateb yn well i PCP; mae ansawdd y sgwrs yn well pan fo'r disgybl yn yr ystafell ac mae pobl yn fwy tebygol o weithredu ar sail allbynnau'r cyfarfod. Rhoddir mwy o bwys i'r camau gweithredu.'

- Nododd y sawl a gyfwelwyd o ysgolion hefyd bod defnyddio PCP fel rhan o'r broses adolygu yn cymryd mwy o amser na'r trefniadau adolygu blaenorol, ac roedd ganddynt bryderon ynghylch eu capasiti i ddefnyddio PCP ym mhob adolygiad. Yn yr ysgol arbennig, roeddent yn amcangyfrif y byddai adolygiadau sy'n defnyddio PCP yn cymryd tua 4-5 awr, o'i chymharu â tua awr ar gyfer adolygiad statudol. Roedd yr ysgol arbennig wedi cynnwys 'sesiwn PCP ' 30 munud wythnosol, lle y gallai dysgwyr ac ymarferwyr ganolbwyntio ar fyfyrio am a chofnodi cynnydd dysgwyr (e.e. yr hyn sy'n gweithio'n dda a pha welliannau y mae angen eu gwneud). Un o fanteision tybiedig y dull hwn oedd lleihad o ran swm y gwaith sy'n ofynnol er mwyn casglu tystiolaeth ar gyfer adolygiadau blynyddol.

- Roedd y rhai a gyfwelwyd o ysgolion yn teimlo bod pobl briodol yn ymwneud ag adolygiadau statudol a buont yn disgrifio sut y byddent yn cynnwys y SENCo, cynrychiolwyr yr ALl a gweithwyr proffesiynol eraill a fu'n ymwneud â'r dysgwr (e.e. SLT, ThG) fel arfer.  Nododd y sawl a gyfwelwyd bod dysgwyr yn mynychu cyfarfodydd adolygu a bod rhieni/gofalwyr yn cael gwahoddiad.  Nododd y rhai a gyfwelwyd o ysgolion y byddai adolygiadau statudol yn cynnwys trafodaeth fanylach fel arfer (nag adolygiadau IEPau), gan gynnwys argymhellion manylach yn ogystal â strategaethau a 'mannau diogel' i ddysgwyr fynd pe byddent yn cael anawsterau.

- Roedd rhan fwyaf o staff y BILl yn teimlo bod eu cyswllt gydag adolygiadau yn briodol, gan nodi nad oes angen iddynt fynychu cyfarfodydd adolygu fel arfer, ond y byddent yn anfon adroddiad fel arfer.  Nododd rhai o staff y BILl nad ydynt wastad yn cael adborth o gyfarfodydd adolygu a bod hyn yn wendid yn y system bresennol.  Nododd rhai o staff y BILl nad ydynt wastad yn cael gwybod am gyfarfodydd adolygu oherwydd yr anfonir gwahoddiadau trwy baediatregwyr cymunedol, nad ydynt wastad yn trosglwyddo'r wybodaeth iddynt (neu byddent yn ei throsglwyddo yn rhy hwyr).  Mewn rhai achosion, nododd staff y BILl eu bod wedi meithrin cysylltiadau uniongyrchol gyda'r ALl er mwyn cael gwahoddiadau ac adroddiadau yn uniongyrchol.

- Mae'r ALl wedi sefydlu 'grŵp llywio PCP', sy'n cynnwys cynrychiolwyr o adrannau addysg a gwasanaethau cymdeithasol yr ALl.  Mae'r ALl wedi llunio cynllun hyfforddiant PCP i ysgolion sy'n cynnwys hyfforddiant cychwynnol a diweddaru a ddarparir gan SA a gweithiwr cymdeithasol.  Roedd yr hyfforddiant hwn yn canolbwyntio ar SENCos yn y lle cyntaf ond fe'i ddarparwyd i broffesiynau eraill hefyd – SLT, paediatregwyr cymunedol, therapyddion galwedigaethol a staff sy'n ymwneud â gwasanaethau 'tîm o amgylch y teulu'.  Ceir hyrwyddwyr PCP ym mhob clwstwr ysgolion ac mae PCP yn eitem sefydlog ar agenda fforymau SENCos clwstwr ysgolion tymhorol.  Roedd y SENCos cynradd ac uwchradd wedi mynychu hyfforddiant PCP a ddarparwyd gan yr ALl.

- Roedd y sawl a gyfwelwyd o'r ALl yn teimlo bod prosesau adolygu yn weddol effeithiol ond roeddent yn ystyried y byddai symud i CDUau yn fwy tebygol o sicrhau bod y broses yn fwy 'hwylus' ac yn llai biwrocrataidd oherwydd eu bod yn teimlo y

byddai llai o weithgarwch ysgrifennu adroddiadau. Nododd y sawl a gyfwelwyd o'r ALI bod ansawdd y dystiolaeth a gyflwynir gan ysgolion er mwyn cynorthwyo adolygiadau yn amrywio'n fawr ac nad oedd yn ddigon manwl weithiau er mwyn galluogi i aelodau'r panel wneud penderfyniadau (e.e. dim digon o wybodaeth am ymyriadau neu ganlyniadau ymyriadau). Nododd y sawl a gyfwelwyd o'r ALI bod ansawdd y wybodaeth a geir gan ysgolion sy'n defnyddio PCP lawer yn well.

- Nododd staff o wasanaethau cymdeithasol yr ALI bod prosesau adolygu statudol ar gyfer datganiadau AAA yn effeithiol. Nodwyd eu bod yn archwilio sut y byddai modd cyfuno adolygiadau blynyddol o gynlluniau gwasanaethau cymdeithasol a PEPs ar gyfer plant sy'n derbyn gofal gan yr ALI mewn ffordd fwy effeithiol gydag adolygiadau blynyddol o ddatganiadau. Nid oedd rhai o'r rhai a gyfwelwyd o ysgolion yn glir a fyddai prosesau adolygu ar gyfer PEPs a CDUau yn parhau i fod ar wahân neu a fyddent yn cael eu cyfuno.

**Cynnwys plant, pobl ifanc, rhieni a gofalwyr wrth wneud penderfyniadau am ddarpariaeth statudol a datrys anghytundebau o fewn ALI2**

- Nododd staff yr ALI bod ysgolion yn dda wrth gyfathrebu gyda rhieni/gofalwyr a dysgwyr er mwyn sicrhau yr ystyrir eu safbwyntiau pan wneir penderfyniadau am ddarpariaeth statudol. Roedd ysgolion cynradd o'r farn bod proffiliau un tudalen yn ddefnyddiol ar gyfer adolygiadau blynyddol o ddatganiadau a bod hyn yn gwella'r broses o ystyried llais y disgybl.

- Nododd staff yr ALI y caiff safbwyntiau dysgwyr eu cynrychioli mewn ffordd anuniongyrchol yn ystod cyfarfodydd y panel safoni (sy'n ymwneud ag asesu ac adolygiadau ar gyfer datganiadau a chontractau gweithredu gan yr ysgol a mwy); adroddwyd bod adroddiadau SA yn cynnwys safbwyntiau dysgwyr ac y gofynnir i'r ymarferwr sy'n nabod y plentyn orau i gynrychioli safbwyntiau'r dysgwr yn ystod y drafodaeth. Adroddodd y sawl a gyfwelwyd o'r ALI bod canlyniadau trafodaethau'r panel safoni wastad yn cael eu cyfleu i ddysgwyr, naill ai ar lafar neu mewn llythyr. Fodd bynnag, roedd staff yr ALI yn cydnabod hefyd na chaiff y broses o ystyried safbwyntiau dysgwyr yn ystod trafodaethau'r panel safoni ei dogfennu mewn ffordd ddigonol bob amser.

- Nododd staff y BILI y gallai fod yn anodd i rieni/gofalwyr ddeall y prosesau sy'n rhan o asesiad statudol, yn enwedig os oes ganddynt AAA eu hunain. Nododd rhai o staff y BILI eu bod yn cael cais i fynychu cyfarfodydd gyda staff yr ALI a rhieni/gofalwyr weithiau. Roedd rhai o'r rhai a gyfwelwyd yn teimlo y ceir tybiaeth o bryd i'w gilydd eu bod yn cyflawni 'rôl cyfryngu' os bydd anghytundeb yn codi rhwng rhieni/gofalwyr a'r ALI.

- Adroddodd y sawl a gyfwelwyd o'r PRU bod cryn dipyn o amser yn cael ei dreulio yn delio â datrysiad. Mae'r PRU yn estyn gwahoddiad i rieni yn gynnar yn ystod y gweithgarwch ymgysylltu gyda dysgwr i drafod unrhyw broblemau sydd ganddynt, a'r nod yn hyn o beth yw osgoi anghytundebau rhag codi yn y dyfodol. Mae gwasanaethau eraill wedi bod yn ymwneud ag unrhyw ddeialog gyda rhieni hefyd.

- Roedd y sawl a gyfwelwyd o'r ALI wedi amlygu'r ffaith bod mwyafrif yr anghytundebau sy'n cyrraedd cam y tribiwnlys yn ymwneud â rhieni/gofalwyr yn gofyn am le ar gyfer eu plentyn mewn ysgol annibynnol leol. Nododd staff o wasanaethau cymdeithasol yr ALI eu bod wedi dod ar draws rhai cwynion gan rieni a gofalwyr ynghylch SEP statudol. Nododd staff ysgol nad oeddent wedi bod yn ymwneud ag unrhyw anghytundebau ffurfiol a oedd yn ymwneud â'r ddarpariaeth statudol. Dywedodd rhai o'r rhai a gyfwelwyd y byddai anghytundebau ynghylch datganiadau yn tueddu i gael eu cyfeirio at yr ALI yn uniongyrchol, yn hytrach na'r ysgol. Ni nododd y sawl a gyfwelwyd o ysgolion bod anghytundebau ynghylch y ddarpariaeth a gaiff ei chynorthwyo trwy gyfrwng gweithredu gan yr ysgol a gweithredu gan yr ysgol a mwy wedi codi yn eu lleoliadau.

**Gweithio gydag eraill o fewn ALI2**

- Roedd y sawl a gyfwelwyd o ysgolion yn teimlo bod perthnasoedd da yn bodoli rhwng ysgolion clwstwr yn gyffredinol, a bod fforymau clwstwr SENCo wedi helpu i wella'r cyfathrebu a'r cysondeb mewn arferion gwaith. Amlygodd SENCo yr ysgol gynradd ddatblygiad 'pecyn trosglwyddo' cyson fel enghraifft.

- Roedd y sawl a gyfwelwyd o ysgolion yn teimlo bod perthnasoedd gwaith gyda'r ALI, yr ysgol arbennig a'r PRU yn dda a'u bod yn cael cynnig cymorth effeithiol. Nododd y sawl a gyfwelwyd o'r uwchradd bod Gyrfa Cymru yn mynychu adolygiadau blynyddol

i ddysgwyr o Flwyddyn 9 i fyny a'u bod yn cael copïau o IEPau a nodiadau am ddysgwyr er mwyn eu galluogi i ysgrifennu LSPs.

- Roedd y sawl a gyfwelwyd yn yr ALl yn teimlo bod perthnasoedd gwaith effeithiol yn bodoli yn fewnol rhwng addysg a gwasanaethau cymdeithasol. Adroddodd y sawl a gyfwelwyd bod hyn yn cael ei hwyluso wrth i gynrychiolwyr addysg fynychu cyfarfodydd gwasanaethau cymdeithasol (e.e. paneli LAC) ac wrth i gynrychiolwyr gwasanaethau cymdeithasol fynychu paneli safoni AAA. Yn ogystal, adroddodd y sawl a gyfwelwyd o'r ALl bod perthnasoedd gwaith effeithiol yn bodoli gyda'r BILl, gan amlygu paediatregwyr cymunedol, SLT a ThG yn benodol. Nododd un unigolyn a gyfwelwyd o'r BILl: 'Rydym yn buddsoddi mewn perthnasoedd drwy'r amser ac yn ceisio cael dylanwad ysgafn ar y ffordd y mae ysgolion neu wasanaethau yn darparu pethau. [er mwyn hyrwyddo arfer da]'

- Roedd y sawl a gyfwelwyd o'r ALl, yr ysgolion a'r BILl yn teimlo bod eglurder gan bod un pwynt cyswllt ar gyfer asiantaethau y maent yn gweithio gyda nhw. Er enghraifft, nododd y sawl a gyfwelwyd o'r ALl a'r BILl eu bod yn rhannu gwybodaeth gydag ysgolion am yr SLTs, y seicolegwyr addysg a'r nyrsys ysgol sy'n gweithio ym mhob clwstwr ysgolion. Nododd y sawl a gyfwelwyd o wasanaethau cymdeithasol yr ALl bod ganddynt berthnasoedd gwaith effeithiol gyda Gyrfa Cymru a'r ysgol arbennig, yn ogystal â gyda staff addysg yr ALl a staff ysgolion.

- Adroddodd y sawl a gyfwelwyd bod cyfarfodydd fforwm SENCo clystyrau ysgolion yn effeithiol fel cyfleoedd i feithrin perthnasoedd gwaith amlasiantaeth, er bod rhai yn cwestiynu a yw'r presenoldeb yn cael ei fonitro er mwyn sicrhau bod pob ysgol yn cael budd. Yn ogystal, amlygodd rhai o'r rhai a gyfwelwyd bwysigrwydd darparu hyfforddiant PCP yr ALl ar draws gwahanol wasanaethau fel ffordd o rannu arfer da a dealltwriaeth o rolau a chyfrifoldebau gwahanol sefydliadau.

- Roedd y sawl a gyfwelwyd o ysgolion yn teimlo bod gwaith da yn cael ei wneud mewn partneriaeth rhwng yr ysgol arbennig a'r ysgolion prif ffrwd, yn ogystal â'r SAB lleol. Roedd hyn yn cynnwys staff yr ysgol arbennig yn cyd-ddarparu sesiynau mewn ysgolion prif ffrwd ac yn cyd-ddatblygu cyrsiau i'w cyflwyno yn y SAB.

- Nododd staff gwasanaethau cymdeithasol yr ALl bod ganddynt brosesau effeithiol yn eu lle er mwyn rhannu gwybodaeth yn electronig gyda staff y BILl. Fodd bynnag, nododd y sawl a gyfwelwyd o adran addysg yr ALl a'r BILl bod rhannu gwybodaeth yn electronig rhwng addysg ac iechyd yn her. Priodolwyd hyn i'r ffaith bod gwasanaethau addysg ac iechyd yn defnyddio gwahanol systemau TGCh. Nododd y sawl a gyfwelwyd o'r ALl y gallai hyn arwain at ychydig oedi wrth brosesu gwybodaeth gan bod yn rhaid trosglwyddo copïau papur o ddogfennau iechyd a'u mewnbynnu â llaw ar systemau addysg.

- Nododd rhan fwyaf o staff y BILl bod cydlynu gwahanol wasanaethau iechyd sy'n gweithio gyda'r un dysgwyr yn her. Nododd staff y BILl eu bod yn gallu gweld pa wasanaethau eraill a oedd yn gweithio gyda phlentyn, ond na cheir un unigolyn sy'n meddu ar y cyfrifoldeb cyffredinol. Fodd bynnag, roedd staff eraill o'r BILl yn teimlo y byddai hi'n anodd i unigolyn gydlynu gwasanaethau.

- Roedd y sawl a gyfwelwyd o ALlau, BILlau, ysgolion a SABau yn teimlo y ceir 'meysydd annelwig' lle y mae'n aneglur pwy ddylai fod yn gyfrifol am ddarparu ac ariannu darpariaeth. Er enghraifft, roedd rhai a gyfwelwyd o'r BILl yn nodi eu bod yn darparu darpariaeth addysg y dylai ysgolion fod yn gyfrifol amdani, ac roedd rhai o'r rhai a gyfwelwyd o'r SAB yn darparu cymorth yr oeddent yn teimlo y dylai'r BILl fod yn gyfrifol amdano. Amlygodd rhai o'r rhai a gyfwelwyd bwysigrwydd paneli amlasiantaeth wrth helpu i ddatrys ac egluro rhai o'r materion hyn.

- Adroddodd cynrychiolydd y PRU am waith amlasiantaeth cadarnhaol sy'n digwydd gydag asiantaethau megis Gyrfa Cymru a chyfiawnder ieuenctid, sy'n gweithio gyda dysgwyr. Priodolwyd yr effeithiolrwydd hwn i ddymuniad i rwydweithio, yn hytrach na strategaeth y cytunwyd arni. Fodd bynnag, adroddwyd bod risg dyblygu gwasanaethau yn gallu codi, er enghraifft sawl asiantaeth yn darparu gwasanaeth cwnsela.

- Yn gyffredinol, roedd y sawl a gyfwelwyd yn teimlo bod gwaith amlasiantaeth rhwng SABau a sefydliadau eraill yn llai datblygedig na'r hyn a welir rhwng ysgolion, ALlau a BILlau. Roedd un unigolyn a gyfwelwyd o'r SAB yn teimlo bod angen cael proses neu system TG a rennir er mwyn galluogi ysgolion/ALlau i gynnal a throsglwyddo

CDUau a phroffiliau un tudalen i SABau. Roedd un unigolyn a gyfwelwyd o'r SAB yn teimlo bod hon yn her allweddol i'r sector AB gan eu bod yn gweithio mewn ffordd ranbarthol, a cheir potensial y gwelir gwahanol systemau mewn gwahanol ALlau. Nododd un unigolyn a gyfwelwyd o'r SAB bod bwrdd rhanbarthol sy'n canolbwyntio ar 14-19 yn ddefnyddiol ar gyfer gwaith amlasiantaeth rhwng ysgolion, ALlau a'r SAB, yn ogystal â gweithgarwch cynllunio trosglwyddo. Disgrifiodd y rhai a gyfwelwyd o'r SAB gyswllt rheolaidd gyda gwasanaethau CAMHS, ond nodwyd ei bod yn gallu bod yn anodd i'r SAB gadw cofnod o'r holl asiantaethau sy'n ymwneud â dysgwyr.

**Trosglwyddo o fewn ALl2**

- Nododd y sawl a gyfwelwyd o'r ALl, yr ysgol arbennig a'r BILl bod trosglwyddo o'r blynyddoedd cynnar i addysg statudol yn gweithio'n dda, gan bwysleisio rôl pwysig y ganolfan datblygiad plant a gwasanaeth portage.

- Roedd y sawl a gyfwelwyd yn yr ysgol gynradd yn teimlo'n llai cadarnhaol am y broses o bontio i'r ysgol, gan nodi nad ydynt yn cael llawer o wybodaeth gan ddarparwyr blynyddoedd cynnar am anghenion dysgwyr sy'n trosglwyddo i mewn. Yr unig eithriadau a amlygwyd oedd rhai o blant a oedd wedi cael SLT trwy gyfrwng rhaglen Dechrau'n Deg.

- Roedd y sawl a gyfwelwyd o ysgolion a'r ALl yn teimlo bod y trosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd yn weddol effeithiol, er eu bod wedi nodi hefyd bod effeithiolrwydd trosglwyddo yn amrywio, gan ddibynnu ar yr ysgolion dan sylw. Yn ogystal, roedd y sawl a gyfwelwyd o'r ysgol arbennig wedi nodi bod trosglwyddo i mewn i'r ysgol yn effeithiol ar y cyfan ond ei fod yn amrywio gan ddibynnu ar yr ysgol yr oedd y dysgwyr wedi dod ohoni.

- Roedd y sawl a gyfwelwyd yn yr ysgol arbennig yn teimlo bod y trosglwyddo yn effeithiol pan fyddai'n cael ei gynllunio'n dda wrth bwyntiau trosglwyddo penodol (e.e. ar ddechrau Blwyddyn 2, 6 a 9) ond bod trosglwyddo yn ystod blwyddyn yn fwy heriol gan bod yr achosion hyn yn aml yn ymwneud â newidiadau sydyn ym mywyd dysgwr.

- Roedd yr holl rai a gyfwelwyd wedi disgrifio prosesau amrywiol er mwyn sicrhau trosglwyddo effeithiol, gan gynnwys sicrhau y cynhelir cyfarfodydd rhwng y SENCo cynradd ac uwchradd yn ddigon cynnar. Amlygwyd bod cyfarfodydd trosglwyddo rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd neu ysgolion arbennig yn broses bwysig er mwyn sicrhau bod dogfennau allweddol (e.e. datganiadau, adroddiadau adolygu) yn cael eu rhannu a bod trafodaethau yn cael eu cynnal ynghylch anghenion dysgwyr. Roedd heriau a amlygwyd gan ysgolion yn cynnwys cynlluniau heb fod yn cael eu darparu gan ysgolion, amrywiadau o ran lefel y manylder yn y cynlluniau (e.e. dim manylion ynghylch sawl awr o ymyrraeth). Roedd y sawl a gyfwelwyd mewn ysgolion ac yn yr ALl yn nodi bod proffiliau un tudalen yn ddefnyddiol iawn fel rhan o'r broses bontio. Dywedodd un uwch-reolwr 'Ceir ymgysylltu da a sgyrsiau aml gyda rhai SENCos pan fydd dysgwyr yn trosglwyddo i mewn a chyswllt cyfyngedig iawn mewn achosion eraill, wrth i ddogfennau gael eu hanfon yn hwyr yn ystod y tymor cyn trosglwyddo.'

- Adroddodd rhan fwyaf y rhai a gyfwelwyd bod trosglwyddo i AB yn llai effeithiol na'r prosesau ar gyfer dysgwyr iau. Nododd staff gwasanaethau cymdeithasol yr ALl eu bod yn mynychu adolygiadau blynyddol statudol ar gyfer dysgwyr o Flwyddyn 9 ymlaen a bod hyn yn cynorthwyo'r broses bontio ar gyfer dysgwyr yr oeddent yn ymwneud â nhw.

- Roedd y sawl a gyfwelwyd o'r ALl ac ysgolion yn teimlo bod effeithiolrwydd y trosglwyddo ar gyfer dysgwyr sy'n symud i'r ardal o ALlau eraill yn amrywio, gan ddibynnu ar yr ysgol yr oedd y dysgwyr yn trosglwyddo ohoni. Adroddodd rhai o'r rhai a gyfwelwyd bod trosglwyddo yn fwy heriol pan fydd dysgwyr yn symud i mewn o ALlau y tu hwnt i Gymru, gan ei bod yn anos sicrhau gwybodaeth am y dysgwyr gan yr ALlau a'r ysgolion hyn. Pwysleisiwyd hyn gan y sawl a gyfwelwyd yn yr ysgol arbennig, yn enwedig mewn perthynas â phlant sy'n derbyn gofal gan yr ALl ac sy'n symud i'r ardal.

- Nododd staff o wasanaethau cymdeithasol yr ALl yr arferai trosglwyddo i wasanaethau oedolyn fod yn anodd ond ei fod wedi gwella dros y blynyddoedd diwethaf gan eu bod yn cydweithio'n agosach gyda staff ysgolion a staff addysg yr ALl nawr, yn enwedig yr ysgol arbennig. Roedd staff gwasanaethau cymdeithasol yr

ALI yn teimlo bod codi uchelgais ymhlith ysgolion, dysgwyr a rhieni/gofalwyr yn bwysig er mwyn helpu dysgwyr i feithrin sgiliau i fyw bywydau annibynnol. Nododd rhai o'r rhai a gyfwelwyd o'r BILl nad oedd trosglwyddo i wasanaethau oedolion o fewn y gwasanaethau iechyd mor effeithiol ag y gallai fod oherwydd bod 'gwahanol wasanaethau yn trosglwyddo ar wahanol adegau' ac nad oedd llwybrau a phrotocolau trosglwyddo ffurfiol yn bodoli bob amser.

- Mae gan y SAB sy'n gweithio yn ardal yr ALI un swyddog trosglwyddo ac adroddodd y sawl a gyfwelwyd bod y trosglwyddo yn effeithiol iawn ar gyfer y rhai sy'n cychwyn ar gyrsiau cyn-alwedigaethol (cyrsiau 12 mis lefel mynediad sy'n cynnig rhagflas o wahanol lwybrau galwedigaethol i ddysgwyr nad ydynt yn siŵr pa gwrs AB yr hoffent ei ddilyn). Adroddodd cynrychiolwyr SAB eu bod yn cynnal cyfarfodydd trosglwyddo ar gyfer pob dysgwr sy'n cychwyn ar y cyrsiau hyn a'u bod yn cael eu gwahodd i fynychu cyfarfodydd adolygu blynyddol statudol mewn ysgolion.

- I ddysgwyr sy'n cychwyn ar gyrsiau prif ffrwd eraill, roedd y sawl a gyfwelwyd o'r SAB yn teimlo nad yw'r prosesau trosglwyddo mor effeithiol ag y dylent fod. Nododd y sawl a gyfwelwyd eu bod yn cael cynlluniau dysgu a sgiliau (LSPs) gan Gyrfa Cymru a bod y rhain o gymorth wrth gynorthwyo trosglwyddo. Fodd bynnag, adroddodd y sawl a gyfwelwyd nad yw ysgolion wastad yn anfon gwybodaeth at y SAB megis datganiadau AAA, IEPau neu adroddiadau adolygu blynyddol, a bod hyn yn golygu y bu'n rhaid i staff SAB dreulio amser yn cysylltu â'r ysgol er mwyn cael y wybodaeth hon neu'n casglu gwybodaeth gan y dysgwr a/neu eu rhiant/gofalwr. Nododd un unigolyn a gyfwelwyd bod gan ALIau eraill brosesau mwy systematig er mwyn trosglwyddo manylion yr holl ddysgwyr sydd ag AAA i'r SAB yn ystod tymor yr haf bob blwyddyn. Adroddodd y SAB bod hyn yn helpu i hwyluso proses bontio fwy effeithiol i ddysgwyr.

**Yr iaith Gymraeg o fewn ALI2**

- Nododd yr holl rai a gyfwelwyd eu bod yn gofyn i ddysgwyr a rhieni/gofalwyr nodi eu dewis iaith wrth gyfathrebu a'u bod yn cynnig gwasanaethau yn yr iaith hon pan fo modd. Nododd y sawl a gyfwelwyd o'r ALI bod yr holl ffurflenni cyfeirio yn gofyn am ddewis iaith teuluoedd a bod hyn yn cael ei ystyried wrth ymgysylltu â theuluoedd.

- Roedd y sawl a gyfwelwyd yn teimlo y gallai gwasanaethau fodloni anghenion Cymraeg teuluoedd mewn ffordd effeithiol yn y blynyddoedd cynnar ac mewn ysgolion, ond amlygwyd heriau o ran y capasiti i gynnig darpariaeth arbenigol trwy gyfrwng y Gymraeg.

- Nododd y sawl a gyfwelwyd mewn ysgolion y gallent fodloni anghenion Cymraeg dysgwyr yn fewnol (e.e. asesu yn yr ysgol, darpariaeth, adolygu) ond bod prinder staff sy'n siarad Cymraeg yn aml mewn asiantaethau allanol. Nododd rhai o'r rhai a gyfwelwyd o ysgolion nad ydynt wedi gallu manteisio ar SA sy'n siarad Cymraeg trwy gyfrwng yr ALl, er enghraifft. Roedd hyn yn golygu nad oedd rhai dysgwyr mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg yn gallu cael cymorth trwy gyfrwng y Gymraeg. Nododd y sawl a gyfwelwyd o ysgolion hefyd y gallai recriwtio fod yn faes heriol, gan gyfeirio at brinder CAwyr ac athrawon cynhwysiant sy'n siarad Cymraeg.

- Nododd y rhai a gyfwelwyd o'r ALl a'r BILl eu bod yn ceisio sicrhau bod yr holl SEP ar gael yn Gymraeg, er eu bod wedi nodi nad yw hyn wastad yn bosibl oherwydd diffyg sgiliau Cymraeg yn y gweithlu. Yn ogystal, adroddwyd am alw isel am rai gwasanaethau gan y sawl a gyfwelwyd o'r ALl a'r BILl, a nododd y gallai hyn arwain at ddiffyg niferoedd digonol ar gyfer rhai gwasanaethau (e.e. dosbarthiadau SLT cyfrwng Cymraeg). Roedd y sawl a gyfwelwyd o ysgolion a BILlau yn teimlo bod prinder staff arbenigol sy'n gallu siarad Cymraeg, a chyfeiriwyd at SLTs, seicolegwyr addysg, ymarferwyr CAMHS a phaediatregwyr cymunedol fel enghreifftiau.

- Adroddodd y PRU ei bod yn gosod dysgwyr yn ôl eu gofynion o ran yr iaith Gymraeg, gan bod rhai aelodau o staff sy'n siarad Cymraeg yn gallu bodloni anghenion dysgwyr.

- Nododd y sawl a gyfwelwyd o'r SAB eu bod yn gallu cynnig gwasanaethau Cymraeg i ddysgwyr os mai hon oedd dewis iaith y dysgwr. Fodd bynnag, roeddent yn nodi hefyd bod recriwtio staff cymorth dysgu sy'n siarad Cymraeg yn gallu bod yn heriol.

**ALl3**

**Cefndir ALl3**

Proffil ALl3:

- Mae canran y disgyblion sydd ag AAA yn is nag y mae ar gyfartaledd ymhlith ALlau Cymru (Llywodraeth Cymru, 2017b);[13]
- Mae canran y disgyblion eFSM yn is nag y mae ar gyfartaledd ymhlith ALlau Cymru (Llywodraeth Cymru, 2017b);
- Mae'r boblogaeth yn is na maint y boblogaeth ar gyfartaledd ymhlith ALlau Cymru (ONS, 2016);[14]
- Mae canran y siaradwyr Cymraeg yn is nag y mae ar gyfartaledd ymhlith ALlau Cymru (ONS, 2011);[15]
- Mae'r lefelau amddifadedd yn is nag y maent ar gyfartaledd ymhlith ALlau Cymru (Llywodraeth Cymru, 2014).[16]

Roedd y gwaith maes ar yr astudiaeth achos yn cynnwys cyfweliadau gyda phedwar swyddog o'r ALl (tri o'r adran addysg ac un o'r adran gwasanaethau cymdeithasol) a phedwar aelod o staff y BILl. Cynhaliwyd gwaith maes gydag uwch-reolwyr, SENCos ac athrawon mewn un ysgol gynradd cyfrwng Saesneg ac un ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg.[17] Cynhaliwyd cyfweliadau hefyd gyda staff mewn ysgol arbennig, PRU a SAB.

**Rolau a chyfrifoldebau o fewn ALl3**

- Roedd y sawl a gyfwelwyd sy'n gweithio ym maes addysg yn cytuno bod rolau a chyfrifoldebau mewn perthynas ag AAA yn glir yn eu lleoliad. Pwysleisiodd rhai bwysigrwydd hyblygrwydd o ran rolau cymorth, fodd bynnag, roeddent yn nodi bod gofyn i ddysgwyr gael gwahanol symiau o gymorth ar wahanol adegau, a'i bod yn bwysig sicrhau bod math a lefel gywir y cymorth ar gael ar yr adeg gywir.

---

[13] Mae data ynghylch disgyblion sydd ag AAA ac eFSM yn ôl ALl ar gael yma: https://gov.wales/docs/statistics/2017/170726-school-census-results-2017-en.pdf (Cyrchwyd 12 Mehefin 2018)
[14] Mae amcangyfrifon poblogaeth yn ôl ALl ar gael yma: https://statswales.gov.wales/Catalogue/Population-and-Migration/Population/Estimates/Local-Authority/populationestimates-by-localauthority-year (Cyrchwyd 12 Mehefin 2018)
[15] Mae data ynghylch sgiliau Cymraeg yn ôl ALl ar gael yma: https://statswales.gov.wales/Catalogue/Welsh-Language/WelshSpeakers-by-LA-BroaderAge-2001And2011Census
[16] Mae data ynghylch Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru ar gael yma: https://gov.wales/docs/statistics/2015/150812-wimd-2014-revised-en.pdf (Cyrchwyd 12 Mehefin 2018)
[17] Cynhwyswyd ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog mewn astudiaethau achos ALlau eraill.

- Teimlwyd bod yr eglurder ynghylch rolau ym maes iechyd a gwasanaethau cymdeithasol yn gymysg. Adroddwyd bod gan rai gwasanaethau rolau a phwyntiau cyswllt clir, a barnwyd bod rhai gwasanaethau yn llawer llai clir o ran pwy yw pwy o fewn gwasanaeth neu dîm, eu rolau a'u cyfrifoldebau, a phwyntiau cyswllt.

- Roedd yr ALl yn mynd trwy adolygiad o'i SEP ar hyn o bryd, yn enwedig mewn perthynas â'r ddarpariaeth statudol, ac adroddwyd bod yr ALl yn cynnig gwneud gwaith ad-drefnu mawr. Adroddwyd bod diffyg cydbwysedd ar hyn o bryd o ran anghenion dysgwyr a'r ddarpariaeth sydd ar gael, a bod gormod o ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr sydd ag anghenion dysgu cymedrol a diffyg darpariaeth ar gyfer dysgwyr sydd ag anghenion sy'n ymwneud â lleferydd ac iaith ac awtistiaeth, yn ogystal â grwpiau penodol sydd ag anghenion cymdeithasol ac emosiynol (e.e. plant yn y blynyddoedd cynnar, merched sydd ag AYECh). Adroddodd yr ALl ei fod yn dymuno datblygu cynwysoldeb ei ddarpariaeth a chynnig darpariaeth i fwy o ddysgwyr sydd ag AAA mewn ysgolion prif ffrwd lleol, tra'n cynnig darpariaeth arbenigol ar sail mwy hyblyg ac integredig.

- Adroddodd SENCos eu bod yn cyflawni amrediad o weithgareddau fel rhan o'u rôl. Roedd y rhain yn cynnwys: cynnal asesiadau, rheoli adnoddau, darparu, monitro ac adolygu darpariaeth, cael cyswllt gyda staff, rhieni a gofalwyr ac asiantaethau allanol (e.e. gwasanaethau a ddarparir gan yr ALl, iechyd), mynychu cyfarfodydd panel darpariaeth yr ALl, cydlynu'r ddarpariaeth ar gyfer plant sy'n derbyn gofal gan yr ALl, a gwneud gwaith strategol gyda grwpiau clwstwr ysgolion. Yn yr ysgol uwchradd, roedd y SENCo yn bennaeth cynorthwyol hefyd ac roedd ganddynt gyfrifoldebau pellach yr oeddent yn ymwneud â'r swydd hon ac roedd nifer o weithgareddau AAA yn cael eu dirprwyo i athrawon a CAwyr o fewn y tîm AAA. Roedd staff yn teimlo bod yr amser cyfyngedig sydd ar gael i'r SENCo yn her, ac roedd yn golygu bod y rôl yn y lleoliad hwn yn cael ei gyfyngu i gael trosolwg o AAA yn hytrach na gweithrediad SEP o ddydd i ddydd. Yn yr ysgol arbennig, roedd rôl y SENCo yn ymwneud â chyflawni asesiadau a thasgau gweinyddol mewn perthynas â dogfennaeth a chyfarfodydd adolygu. Roedd asesu natur yr angen ar gyfer dysgwyr pan fyddant yn cyrraedd yr ysgol yn agwedd bwysig ar y rôl hwn, er mwyn pennu targedau dysgu cynhwysfawr a datblygu cwricwlwm pwrpasol.

- Yn yr ysgol gynradd, disgrifiwyd y SENCo fel rhywun cefnogol iawn a rhywun oedd wastad ar gael i gynnig cyngor. Roedd y sawl a gyfwelwyd yn ystyried bod y profiad a oedd gan y SENCo mewn perthynas ag AAA yn ased ac yn cynorthwyo'r broses o adnabod angen, trafod prosesau a'r weithdrefn AAA, a datblygu IEPau effeithiol ac unigoledig. Barnwyd bod y ffaith bod gan y SENCo rôl addysgu o fewn darpariaeth feithrin yr ysgol yn fantais gan bod y cymarebau staffio uwch yn golygu ei bod yn fwy posibl eu rhyddhau ar gyfer dyletswyddau AAA.

- Adroddodd SENCos bod ganddynt amrediad o gymwysterau perthnasol gan gynnwys gwobr genedlaethol ar gyfer AAA a gradd meistr mewn AAA. Nid oedd gan y SENCo yn yr ysgol gynradd gymhwyster penodol a oedd yn ymwneud ag AAA, ond roedd ganddynt sawl blwyddyn o brofiad o addysgu AAA a chymhwyster nyrs feithrin yn ychwanegol i statws athro cymwys. Barnwyd bod hyfforddiant NNEB yn arbennig o berthnasol er mwyn gweithio gyda dysgwyr sydd ag AAA ac adroddwyd ei fod yn datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o ddatblygiad plant. Roedd gan staff y PRU amrediad o arbenigaethau a oedd yn ymwneud ag AAA ac adroddwyd mai dim ond ymarferwyr profiadol a gyflogir yn y lleoliad hwn.

- Yn y SAB, adroddwyd bod y cyfrifoldebau mewn perthynas ag AAA yn cael eu rhannu ar draws nifer o rolau. Ym mhob campws y SAB, ceir cydlynydd dysgu a sgiliau ac mae gan yr unigolyn hwn drosolwg o drefniadau trosglwyddo, cymorth a gaiff ei neilltuo, cyswllt gyda dysgwyr, rhieni a gofalwyr, ac maent wedi cynnal asesiadau ar gyfer trefniadau arholiadau. Cyflawnir agweddau strategol ar y rôl gan reolwr AAA, a chyflawnir gwaith cynllunio a'r ddarpariaeth yn y ganolfan adnoddau ar gyfer dysgwyr sydd ag anghenion mwy cymhleth gan yr athro cyfrifol.

- Adroddodd y sawl a gyfwelwyd o'r ALl bod rolau a chyfrifoldebau yn glir a bod perthnasoedd da yn bodoli rhwng uwch-swyddogion o fewn ac ar draws gwasanaethau. Mae'r awdurdod yn un bach ac mae'r cyfathrebu o fewn yr ALl yn cael ei gynnal gan nifer fach o bersonél a thrwy gydleoli swyddogion addysg a gwasanaethau cymdeithasol ar yr un safle. Adroddwyd y bydd y tîm sy'n goruchwylio AAA yn yr awdurdod yn cael ei ehangu er mwyn paratoi ar gyfer gweithredu'r ddeddfwriaeth ADY newydd.

**Gweithgarwch adnabod ac asesu ar gyfer dysgwyr sy'n cael eu cynorthwyo trwy gyfrwng gweithredu gan yr ysgol/a mwy a dysgwyr sydd â chynlluniau SAB o fewn ALI3**

- Roedd y sawl a gyfwelwyd ym maes iechyd yn teimlo bod adnabod angen yn gynnar yn faes y mae angen ei wella yn yr ALI. Er y barnwyd bod Dechrau'n Deg yn cyfrannu at newid cadarnhaol yn y maes hwn, teimlwyd bod ymyrraeth gynnar yn hollbwysig, bod gormod o blant ifanc yn cael eu nodi yn 'rhy hwyr' a bod angen gwneud gwaith monitro o'r adeg pan gaiff plant eu geni.

- Roedd prosesau adnabod tebyg yn bodoli ar draws lleoliadau, sef y ffaith y codir pryder cychwynnol, a dilynir hyn gan weithgarwch casglu gwybodaeth, cynhelir asesiadau â ffocws yn fewnol neu gan asiantaeth allanol, ac ymgynghorir gyda dysgwyr a'u rhieni a'u gofalwyr pan fo hynny'n briodol. Mewn lleoliadau ysgol, gallai unrhyw aelod o staff nodi angen dysgu unigol, er enghraifft, athro dosbarth, CA, pennaeth blwyddyn, hyfforddwr dysgu neu aelod o'r tîm cymorth bugeiliol. Cyfeiriwyd at rieni a gofalwyr hefyd fel rhywun a allai fynegi pryderon, yn yr un modd ag ymwelwyr iechyd yn achos plant iau.

- Yn yr ysgol gynradd, teimlwyd bod y ffaith bod Dechrau'n Deg wedi'i leoli ar yr un safle yn cynorthwyo'r broses adnabod. Gwelwyd adolygiadau hanner tymor athrawon o gynnydd disgyblion fel cyfle pellach i nodi anghenion ac roedd penderfyniadau ynghylch cymorth ar gyfer dysgwr yn cael eu gwneud gan y SENCo trwy ymgynghori â'r athro dosbarth yn y lleoliad hwn.

- Yn y lleoliad uwchradd, teimlwyd bod y broses adnabod yn faes lle y gwelwyd gwelliant sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf. Roedd y sawl a gyfwelwyd yn teimlo bod newid ar lefel uwch-reolwyr wedi golygu gwelliant o ran y systemau er mwyn rhannu gwybodaeth am ddysgwyr, yn ogystal â'r ffaith bod AAA yn gyfrifoldeb pob athro yn cael ei gyfleu yn fwy. Nododd y SENCo eu bod wedi cael negeseuon e-bost rheolaidd gan athrawon pwnc yn gofyn am gymorth gyda dysgwr yn flaenorol, ond eu bod bellach yn cael llai o geisiadau o'r fath. Roeddent yn teimlo bod hyn yn dynodi mwy o ymdeimlad o atebolrwydd ar ran athrawon, ond hefyd, mwy o fanylder yn y broses o adnabod angen.

- Yn y lleoliad uwchradd, adroddwyd bod athrawon pwnc arbenigol yn mynegi pryderon ynghylch dysgu academaidd fel arfer, a bod staff cymorth yn tueddu i nodi mathau eraill o angen. Ystyriwyd bod gwaith y tîm AAA fel ffordd o gael 'llygaid ym mhob man' gan bod y staff cymorth yn gweithio mewn gwahanol ddosbarthiadau a lleoliadau yn yr ysgol ac mae ganddynt wybodaeth dda am ddysgwyr, yn enwedig mewn perthynas â'u profiadau personol, cymdeithasol ac emosiynol. Nodwyd bod y broses o adnabod angen yn yr ysgol wedi canolbwyntio ar anawsterau llythrennedd yn hanesyddol, ond bod ganddo ffocws ehangach bellach.

- Disgrifiodd y sawl a gyfwelwyd o'r PRU bod eu cyswllt cychwynnol gyda dysgwr yn canolbwyntio ar asesu. Roeddent yn disgrifio'r cam o gynnal gweithgarwch asesu cynhwysfawr ac eang a oedd yn nodi AAA sylfaenol weithiau. Roedd y sawl a gyfwelwyd yn teimlo bod dysgwyr yn aml yn celu eu hanawsterau yn yr ysgol, er bod y ffaith bod dysgwyr sy'n cael eu cyfeirio i'r gwasanaeth yn newid ysgol yn aml yn cael ei ystyried fel y rheswm dros y diffyg gwybodaeth gyffredinol a dealltwriaeth o'u hanghenion dysgu hefyd.

- Roedd offerynnau a oedd yn cael eu defnyddio er mwyn asesu anghenion mewn ysgolion yn cynnwys asesiadau gwaelodlin y cyfnod sylfaen, arsylwadau o fath Marie Clay, Proffil Boxall, a Graddfa Geirfa Lluniau Prydain (BPVS) ar gyfer dysgwyr yn y cynradd. I ddysgwyr uwchradd, ystyriwyd bod rhannu gwybodaeth wrth bontio ym Mlwyddyn 7 yn amser tyngedfennol er mwyn adnabod anghenion dysgwyr, er bod arsylwadau CA o ddysgwyr yn ystod y tymor cychwynnol ar ôl iddynt gychwyn yn cael ei hystyried yn ffordd bwysig o fynegi pryderon hefyd. Adroddwyd bod y tîm CA yn trafod pryderon ynghylch dysgwyr unigol yn rheolaidd yn ystod cyfarfodydd tîm, gan wneud penderfyniadau ar yr adeg hon ynghylch a ddylid mynegi pryder i'r SENCo neu beidio.

- Yn y SAB, disgrifiwyd y cam o adnabod anghenion dysgwyr fel rhan o'r broses bontio. I ddysgwyr sydd ag anghenion mwy cymhleth a'r rhai yr oedd ganddynt ddatganiad yn yr ysgol, teimlwyd bod y broses o rannu gwybodaeth yn effeithiol. Disgrifiwyd bod rhai ysgolion yn rhagorol wrth rannu gwybodaeth gynhwysfawr ac o ansawdd uchel am anghenion dysgwyr. Disgrifiwyd bod perfformiad rhai ysgolion yn hyn o beth, fodd bynnag, yn wael. Nodwyd bod anghenion mewn perthynas ag

anhawster academaidd yn llawer mwy tebygol o gael eu cyfleu nag anghenion mewn perthynas ag ymddygiad heriol.

- Nodwyd bod adnabod anghenion dysgu rhai dysgwyr yn hwyr yn faes heriol i'r SAB. I rai dysgwyr, nodwyd y byddai angen yn cael ei ddatgelu yn gyntaf wrth gofrestru, a dywedwyd bod hyn yn wir ar gyfer dysgwyr yr oeddent wedi 'cwympo trwy'r rhwyd' yn yr ysgol.

- Nododd y sawl a gyfwelwyd o'r SAB eu bod yn cynnal asesiadau ar gyfer dysgwyr sydd ag angen a nodwyd pan fyddant yn cychwyn yno. Mae'r rhain yn cynnwys Prawf Sgiliau Hanfodol Cymru (PSHC) a phrofion galluoedd gwybyddol. Mae sawl aelod o staff yn y coleg wedi sicrhau cymhwyster AMBDA ac maent yn gallu cynnal asesiadau gwybyddol.

- Adroddodd y sawl a gyfwelwyd ac sy'n gweithio ym maes SLT eu bod wedi datblygu pecyn cymorth a gwefan er mwyn cynorthwyo'r broses o adnabod anghenion sy'n ymwneud â lleferydd ac iaith a'u bod yn darparu gwybodaeth i ysgolion a theuluoedd. Adroddwyd bod hyfforddiant wedi cael ei ddarparu ar gyfer athrawon gan y gwasanaeth hwn hefyd a theimlwyd bod hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar ansawdd y cyfeiriadau a wneir i'r tîm. Barnwyd mai datblygiad yr adnoddau hyn yw'r rheswm pam y gwelir llai o geisiadau am asesiad statudol.
- Nododd un unigolyn a gyfwelwyd o faes iechyd bod datblygiad proffesiynol parhaus yn gallu arwain at nodi mwy o achosion mewn maes lle y gwelir angen, gan gyfeirio at sefyllfa lle'r oedd y ffaith bod staff wedi mynychu hyfforddiant yn ddiweddar ynghylch osgoi galw patholegol (PDA) wedi arwain at adnabod y cyflwr hwn fel maes a allai fod yn peri anhawster i nifer o ddysgwyr.

**Cynllunio ar gyfer SEP ar gyfer dysgwyr sy'n cael eu cynorthwyo trwy gyfrwng gweithredu gan yr ysgol/a mwy a dysgwyr sydd â chynlluniau SAB o fewn ALl3**

- Nododd y sawl a gyfwelwyd o ysgolion o fewn yr ALl eu bod yn parhau i ddefnyddio IEPau yn unol â Chod Ymarfer presennol Anghenion Addysgol Arbennig Cymru (Llywodraeth Cymru, 2004), er y defnyddiwyd y derminoleg IEP a CDU gan y sawl a gyfwelwyd yn gyfnewidiol. Yn gyffredinol, roedd y sawl a gyfwelwyd yn teimlo'n hyderus wrth ddefnyddio IEPau ac roeddent yn cytuno eu bod yn cynnig ffocws da o

ran cymorth addysgol, ac nad yw hi'n cymryd gormod o amser i'w datblygu. Roedd un unigolyn a gyfwelwyd, fodd bynnag, yn teimlo bod IEPau yn gyfyngedig o ran cynorthwyo datblygiad holistig dysgwr, gan nodi nad oedd dau neu dri tharged dysgu yn ddigon yn aml a bod dysgu yn fwy integredig fel proses nag yr oedd gweithgarwch adnabod targedau ar wahân yn ei ganiatáu. Dywedwyd bod systemau eraill yn cyflawni rôl pwysig mewn prosesau cynllunio, er enghraifft, defnyddio pasbortau disgyblion gyda dysgwyr sydd ag awtistiaeth, sy'n nodi amodau amgylcheddol pwysig i athrawon eu hystyried.

- Mewn lleoliadau ysgol prif ffrwd, barnwyd bod rhieni a gofalwyr yn gefnogol o'r cam o ddefnyddio IEPau at ddibenion cynllunio, gan bod hyn yn golygu eu bod yn cymryd rhan o'r dechrau. Disgrifiwyd datblygiad cynlluniau gan ysgolion prif ffrwd fel proses a gyflawnir gan athrawon, fodd bynnag, weithiau trwy ymgynghori â staff cymorth a/neu'r SENCo, ond hysbysir rhieni/gofalwyr ar ôl llunio targedau.

- Adroddodd unigolion a gyfwelwyd o'r ysgol uwchradd eu bod yn defnyddio'r model ysgol gyfan, 'Cyflawniad i Bawb', er mwyn trefnu darpariaeth a chynllunio. Roedd hyn yn canolbwyntio ar bedair elfen, sef arweinyddiaeth, addysgeg, ymgysylltu â rhieni a deilliannau, ac adroddwyd ei fod yn pwysleisio gweithgarwch gofalus i olrhain cynnydd dysgwyr, addysgu a dysgu o ansawdd uchel, a sgyrsiau strwythuredig gyda rhieni a gofalwyr. Roedd y SENCo o'r farn bod y fenter hon yn arbennig o addas er mwyn cynorthwyo anghenion y rhai sy'n cael eu herio fwyaf o ran eu dysgu, ac fel rhywbeth sy'n sicrhau darpariaeth addysg gynhwysol effeithiol.

- Adroddodd y sawl a gyfwelwyd o SAB bod cynlluniau dysgu unigol yn cael eu defnyddio ar gyfer pob dysgwr yn eu lleoliad a bod yr un system yn cael ei defnyddio er mwyn cynllunio ar gyfer dysgwyr sydd ag AAA. Nododd y sawl a gyfwelwyd bod cynlluniau yn cael eu rhoi ar-lein, a bod modd i'r holl staff sy'n ymwneud â dysgwr fanteisio ar wybodaeth am ddysgwyr y maent yn gweithio gyda nhw ar hyn o bryd mewn ffordd dda.

- Nododd yr ALI eu bod yn dechrau symud tuag at system o arfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a'u bod yn hyrwyddo offerynnau PCP at y diben hwn. Roedd grŵp

clwstwr o ymarferwyr ysgol wedi cael eu cynnull at y diben hwn ac adroddwyd eu bod yn datblygu profforma cynllunio ar gyfer ysgolion.

**Cynnwys plant, pobl ifanc, rhieni a gofalwyr wrth wneud penderfyniadau sy'n ymwneud a SEP gweithredu gan yr ysgol/a mwy a chynlluniau SAB, o fewn ALl3**

- Mynegwyd cred gan swyddogion yr ALl bod angen datblygu'r arfer mewn perthynas â hawliau plant a lleisiau plant o fewn yr awdurdod. Roeddent yn teimlo bod gan rai ysgolion arferion o ansawdd uchel mewn perthynas ag ymgysylltu â phlant a phobl ifanc, yn enwedig y rhai sy'n cynnig SEP arbenigol, ond nad oedd hyn yn gyson ar draws y rhanbarth.

- Dywedodd y sawl a gyfwelwyd o'r ysgol gynradd bod yr ysgol yn ymgynghori â phlant, ond mewn ffordd anffurfiol yn unig. Ni estynnir gwahoddiad i blant fynychu cyfarfodydd ac nid ydynt yn cael mewnbwn uniongyrchol i'r broses o osod targedau ar gyfer IEPau.

- Nododd un unigolyn a gyfwelwyd o'r ysgol uwchradd bod gwrando ar ddysgwyr yn rhan bwysig o fodel Cyflawniad i Bawb a ddefnyddir yn yr ysgol. Roeddent yn disgrifio ymgynghori gyda phobl ifanc, rhieni a gofalwyr fel rhan barhaus o'r ddarpariaeth. Disgrifiwyd bod angen i'r sgyrsiau a geir gyda dysgwyr a'u rhieni a'u gofalwyr fod yn strwythuredig, gan ddefnyddio fframwaith clir er mwyn meithrin deialog agored, rhywbeth a ystyriwyd yn beth cyson â fframwaith PCP o'r 'hyn sy'n bwysig ei wneud' a'r 'hyn sy'n bwysig ar gyfer'.

- Ar gyfer y sawl a gyfwelwyd o'r PRU, barnwyd bod cynnwys pobl ifanc mewn sgyrsiau am eu profiadau a'u dysgu yn rhan bwysig o'r ddarpariaeth. Disgrifiwyd bod pobl ifanc yn cymryd rhan mewn trafodaethau am gynlluniau, a hefyd, mewn cyfarfodydd amlasiantaeth am eu hanghenion. Barnwyd bod prosesau PCP yn ffordd o resymoli arferion presennol o ran cyfranogiad dysgwyr mewn cynlluniau, er y disgrifiwyd bod gofyn rhoi cymorth i rai pobl ifanc gan bod lefel eu hunan-barch yn isel, cyn eu bod yn gallu cymryd rhan mewn gweithgarwch i wneud penderfyniadau. Dywedodd y sawl a gyfwelwyd eu bod yn ceisio ymgysylltu rhieni a gofalwyr â'r broses o gynllunio ac adolygu, ond bod angen iddynt weithio mewn ffordd sensitif yn

y maes hwn oherwydd efallai bod rhieni a gofalwyr wedi cael profiadau negyddol o'r ysgol.

- Adroddodd y sawl a gyfwelwyd ac sy'n gweithio yn y SAB bod pobl ifanc yn ymwneud â gweithgarwch cynllunio yn gyffredinol, er eu bod wedi nodi bod cynnwys pob dysgwr mewn gweithgarwch i osod targedau yn her oherwydd y niferoedd uchel sy'n cael eu neilltuo i diwtoriaid personol. Adroddodd y coleg bod rhieni a gofalwyr yn aml yn mynychu cyfarfodydd cychwynnol yn y coleg ar gyfer dysgwyr sydd ag AAA, ond bod y cyswllt ffurfiol yn dilyn hyn ar sail ad hoc.

- Roedd rhai a gyfwelwyd o faes iechyd wedi mynegi cefnogaeth ar gyfer prosesau PCP ac roeddent yn gweld y rhain fel rhywbeth y maent yn eu hyrwyddo yn eu gwaith gyda phlant, ysgolion a theuluoedd.

**SEP ac adolygu ar gyfer dysgwyr sy'n cael eu cynorthwyo trwy gyfrwng gweithredu gan yr ysgol/a mwy a dysgwyr sydd â chynlluniau SAB, o fewn ALI3**

- Nododd rhai o'r rhai a gyfwelwyd bod effeithiolrwydd SEP yn cael ei bennu gan briodoldeb y ffordd y caiff ei darparu. Barnwyd bod angen i'r ddarpariaeth fod yn ymatebol ac yn hyblyg i anghenion unigol, a bod gwybodaeth dda am ddysgwyr yn hanfodol yn hyn o beth. Nododd un unigolyn a gyfwelwyd ac sy'n gweithio fel CA bod y math hwn o gymorth ymatebol yn golygu ffurfio barnau o foment i foment ar gyfer yr ymarferwr ac nad oedd hyn yn rhywbeth yr oeddent yn teimlo y byddai modd ei ysgrifennu i lawr neu gynllunio ar ei gyfer o reidrwydd.

- Yn yr ysgol gynradd, disgrifiwyd effeithiolrwydd y ddarpariaeth yn nhermau galluogi'r holl blant i fanteisio ar gwricwlwm gwahaniaethol neu amgen. Barnwyd bod hyfforddiant ar gyfer y staff yn allweddol yn hyn o beth, a nodwyd bod absenoldebau staff yn faes heriol wrth ddarparu cymorth cyson. Barnwyd bod diweddaru sgiliau a gwybodaeth staff yn wyneb anghenion sy'n newid yn her bellach.

- Ar gyfer y rhai a gyfwelwyd o'r PRU a'r SAB, roedd effeithiolrwydd yn gysylltiedig â gwahanol ddeilliannau, gan amrywio o sicrhau cymwysterau a chyflogaeth i fwy o hyder a hunan-barch ymhlith dysgwyr. I rai o'r rhai a gyfwelwyd, roedd y meysydd cyflawniad hyn yr un mor bwysig. Dywedodd y SAB eu bod wedi cyflwyno system yn

ddiweddar er mwyn mesur canlyniadau meddal trwy gyfrwng gweithgarwch hunanwerthuso ar un safle er mwyn mesur lefel hyder a gweithgarwch ymgysylltu dysgwyr, eu sgiliau rheoli amser a'u trefn bersonol. Roedd y SAB o'r farn bod hyn wedi bod yn llwyddiannus ac adroddodd y byddai'n cael ei ymestyn i gampysau eraill.

- Roedd un unigolyn a gyfwelwyd yn yr ysgol uwchradd wedi disgrifio'r ffordd yr ad-drefnwyd strwythurau cymorth dros y blynyddoedd diwethaf. Nid oedd Cynorthwywyr Addysgu yn cael eu neilltuo i adrannau penodol yn y lleoliad hwn mwyach oherwydd y teimlwyd bod angen defnyddio cymorth mewn ffordd fwy hyblyg na hyn. Roedd rhai Cynorthwywyr Addysgu yn arbenigo mewn pynciau penodol, a ddisgrifiwyd fel rhywbeth pwysig o fewn lleoliad uwchradd hefyd, ond roedd eraill yn y tîm cymorth yn gweithio mewn ffordd hyblyg ar draws pynciau a grwpiau, gan ddarparu cymorth a oedd yn addas i anghenion unigol sy'n newid. Disgrifiwyd hon fel ffordd o weithio sy'n grymuso Cynorthwywyr Addysgu, gan ei bod yn sicrhau bod eu gwaith yn fwy effeithiol ac yn cynnwys mwy o ffocws.

- Disgrifiodd y sawl a gyfwelwyd o ysgolion amrediad y SEP a ddarparir trwy gyfrwng trefniadau gweithredu gan yr ysgol/a mwy, gan gynnwys cymorth yn y dosbarth, gwaith mewn grwpiau bach, dal i fyny mathemateg a chynllun darllen 'Rapid Readers', ynghyd â darparu ymyriadau megis sesiynau ELSA a therapi chwarae. Roedd y sawl a gyfwelwyd o ysgolion yn teimlo bod sicrhau lle yn eu heiddo nhw i ddarparu amrediad o ymyriadau a chyflawni gwaith mewn grwpiau bach yn gallu bod yn her.

- Yn yr ysgol uwchradd a'r SAB, roedd cymorth yn cael ei neilltuo ar gyfer y dosbarth cyfan yn hytrach nag i unigolion. Barnwyd bod hon yn ffordd fwy defnyddiol a hyblyg o fodloni anghenion sy'n newid, gan beri llai o stigma i ddysgwyr. Disgrifiwyd strategaethau ac anghenion cymorth yn y ddau leoliad fel rhywbeth sy'n cael eu cyfathrebu trwy gyfrwng systemau ar-lein a gaiff eu diweddaru yn gyson, er y disgrifiwyd bod y defnydd a wneir o'r rhain gan athrawon a darlithwyr yn anghyson.

- Adroddwyd gan y sawl a gyfwelwyd o'r ysgol uwchradd bod y SENCo yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd gyda Chynorthwywyr Addysgu i drafod dysgwyr unigol a'u profiadau mewn gwahanol wersi. Disgrifiwyd bod rhannu'r hyn sy'n cyfateb ag arfer

da ar gyfer dysgwr penodol ar draws staff addysgu yn rhan bwysig o gydlynu SEP oherwydd y gallai'r un dysgwr ymateb mewn ffordd wahanol i arddulliau addysgu penodol.

- Adroddodd yr ALl eu bod wedi sicrhau bod cyllid estynedig ar gael i ddysgwyr sy'n cael SEP trwy gyfrwng gweithredu gan yr ysgol a mwy fel ffordd o leihau'r angen i ofyn am ddatganiad o anghenion addysgol arbennig ar gyfer dysgwr, heb bod angen amdano.

- Adroddodd ysgolion bod y cymorth gan asiantaethau allanol (e.e. gwasanaethau a ddarparir gan yr ALl, iechyd) wedi lleihau dros y blynyddoedd diwethaf. Disgrifiwyd bod gwasanaethau ffisiotherapi ac SLT yn effeithiol, ond eu bod yn darparu symiau bach o fewnbwn, a disgrifiwyd bod y mewnbwn gan dimau o athrawon arbenigol, y gwasanaeth cyflawniad lleiafrifoedd ethnig a CAMHS yn fach iawn neu heb fod yn bodoli o gwbl. Barnwyd bod cyfeiriad at CAMHS yn aneffeithiol oherwydd yr adroddwyd bod yr amseroedd aros yn hyd at 12 mis. Yn yr ysgol gynradd, priodolwyd cyfradd uchel y gwaharddiadau yn ystod y flwyddyn flaenorol i ddiffyg capasiti o fewn y PRU. Nododd y sawl a gyfwelwyd o'r PRU bod allgymorth i ysgolion prif ffrwd yn rhan o'u darpariaeth, gan gynnwys hyfforddiant a rhedeg grwpiau ymyrraeth.

- Ar gyfer y sawl a gyfwelwyd ym maes iechyd, cyfeiriwyd at y canlynol fel rhwystrau o ran y ddarpariaeth: capasiti y gweithlu, cyllid ar gyfer offer arbenigol, diffyg ymrwymiad i SEP gan SMTs ysgolion, trosiant uchel staff cymorth mewn ysgolion, a diffyg systemau rhannu gwybodaeth digonol.

- Adroddodd y sawl a gyfwelwyd bod trefniadau IEPau ar gyfer darpariaeth a ddarparir trwy gyfrwng gweithredu gan yr ysgol/a mwy yn cael eu hadolygu ddwywaith y flwyddyn ar gyfer dysgwyr yn y lleoliad uwchradd, ac unwaith y tymor ar gyfer dysgwyr yn yr ysgol gynradd. Ni theimlwyd bod y broses o adolygu IEP yn cymryd amser, a barnwyd ei bod yn rhywbeth y mae athrawon yn teimlo bod ganddynt berchnogaeth ohoni. Adroddwyd bod Cynorthwywyr Addysgu yn yr ysgol uwchradd yn cynnal adolygiadau IEP yn gyffredinol, ond eu bod yn teimlo'n rhwystredig

ynghylch hygyrchedd systemau ar-lein gan mai dim ond athrawon sy'n gallu troi at wybodaeth am ddysgwyr.

- Yn y SAB, roedd adolygu gweithrediad systemau deuol yn faes heriol, un ar gyfer darlithwyr er mwyn iddynt adolygu cynnydd dysgwyr mewn perthynas â chyrsiau a system ar wahân ar gyfer y tîm AAA er mwyn adolygu'r cymorth ar gyfer dysgu. Disgrifiodd y sawl a gyfwelwyd y ffaith bod rhai darlithwyr yn ymgysylltu llai â'r broses o adolygu SEP, ac nad oes gan rai ohonynt sgiliau a gwybodaeth o ran darparu adborth am gyflawniad ac angen parhaus dysgwyr.

**Datrys anghytundebau ynghylch y ddarpariaeth a gyflwynir trwy gyfrwng gweithredu gan yr ysgol/a mwy ac ar gyfer dysgwyr sydd â chynlluniau SAB o fewn ALl3**

- Adroddodd ysgolion nad ydynt yn cael fawr iawn o wrthdaro gyda rhieni/gofalwyr o ran eu SEP, ac yn gyffredinol, bod anghytundebau yn deillio o rwystredigaeth rhieni gyda systemau sy'n gweithredu y tu allan i'r ysgol, er enghraifft, amseroedd aros hir am asesiadau gan asiantaethau allanol, a'r ffaith y gwrthodir ceisiadau am gymorth estynedig gan yr ALl. Roedd y sawl a gyfwelwyd o ysgolion yn cytuno bod cyfathrebu da gyda rhieni/gofalwyr yn bwysig er mwyn osgoi anghytundebau ac er mwyn datrys pryderon yn gynnar.

- Disgrifiodd y sawl a gyfwelwyd o'r ysgol gynradd y ffaith y gweithredir polisi drws agored, lle y gall rhieni/gofalwyr droi at athrawon ar ddechrau neu ar ddiwedd y diwrnod ysgol. Yn yr ysgol uwchradd, dywedodd y sawl a gyfwelwyd bod rhieni a gofalwyr yn cael eu hystyried yn rhan annatod o'r addysg a ddarparir gan yr ysgol, a rhestrwyd nifer o blatfformau cyfathrebu, gan gynnwys negeseuon testun, galwadau ffôn ac ymweliadau galw heibio â'r ysgol.

- Adroddodd y sawl a gyfwelwyd o'r ysgol gynradd bod gweithiwr cyswllt teuluol yn darparu amrediad o wasanaethau ar gyfer teuluoedd gan gynnwys gwneud apwyntiadau, gwneud cyfeiriadau am ddosbarthiadau rhianta a gwneud cyfeiriadau i wasanaethau cymdeithasol.

- Disgrifiwyd anghytundebau gan y SAB fel rhywbeth sy'n cymryd amser, a'u bod yn aml yn canolbwyntio ar ddilyniant dysgwyr. Nododd y sawl a gyfwelwyd bod rhai dysgwyr yn cofrestru ar gyrsiau Lefel 1 'o flwyddyn i flwyddyn', ond dywedwyd bod nodau arfer yn ymwneud â dilyniant ac roeddent yn gweld hon fel ffynhonnell gwrthdaro gyda rhieni a gofalwyr.

- Adroddodd ysgolion bod cyllid estynedig a ddarparir gan yr ALl ar gyfer darpariaeth trwy gyfrwng gweithredu gan yr ysgol a mwy yn aml yn cael ei gyfateb â chanran o oriau CA gan rieni/gofalwyr. Roeddent yn teimlo y gallai hyn arwain at ddisgwyliad y bydd plentyn yn cael cymorth CA yn naturiol ac y byddai hyn wedyn yn gallu bod yn sail anghytundeb gyda'r ysgol.

**Asesiad statudol ar gyfer anghenion addysgol arbennig o fewn ALl3**

- Barnwyd bod y broses asesu statudol yn gynhwysfawr gan ei bod yn casglu safbwyntiau'r holl randdeiliaid, gan gynnwys dysgwyr, rhieni a gofalwyr, personél yr ysgol ac asiantaethau allanol (e.e. gwasanaethau a ddarparir gan yr ALl, iechyd). Fodd bynnag, roedd y sawl a gyfwelwyd o ysgolion a maes iechyd a'r gwasanaethau cymdeithasol yn cytuno bod heriau yn bodoli o ran yr amserlen, o ran hyd y cyfnod y mae'n ei gymryd i gynnal asesiad, a ddisgrifiwyd fel cyfnod 'rhy hir' gan un a gyfwelwyd, a'r amser sy'n ofynnol er mwyn er mwyn cwblhau gwaith papur. Roedd y sawl a gyfwelwyd yn teimlo bod angen gwella'r system, yn enwedig mewn perthynas â'i gallu i ymateb mewn ffordd amserol i anghenion dysgwyr. Disgrifiwyd bod pob asiantaeth yn araf wrth gynnal asesiadau oherwydd materion yn ymwneud â chapasiti o fewn timau a dywedodd y sawl a gyfwelwyd o faes iechyd bod cymorth gweinyddol wrth baratoi adroddiadau yn broblem bellach.

- Roedd y sawl a gyfwelwyd sy'n gweithio ym maes gwasanaethau iechyd plant yn teimlo bod y system integredig er mwyn cyfeirio a weithredir o fewn y BILl yn effeithiol. Nodwyd bod y system hon yn cynnig un pwynt mynediad ar gyfer amrediad o anghenion a'i bod yn derbyn cyfeiriadau gan wahanol bersonél, gan gynnwys athrawon. Roedd cyfarfodydd cyfeirio yn cael eu cynnull yn wythnosol ac roedd y drafodaeth yn canolbwyntio ar nodi'r prif fater sy'n peri pryder a'r gwasanaeth mwyaf priodol er mwyn darparu cymorth a gwaith asesu. Disgrifiwyd y system fel 'partneriaeth gyflawn' o wasanaethau a rhanddeiliaid, a bod adroddiadau ar gyfer

rhieni/gofalwyr a gweithwyr proffesiynol eraill yn cael eu paratoi fel rhan o'r gwaith o gofnodi trafodaethau.

- Yn yr ysgol arbennig, roedd rôl y SENCo yn canolbwyntio ar asesu natur yr angen ar gyfer dysgwyr pan fyddant yn cychwyn yn yr ysgol. Gosodwyd dysgwyr yn yr ysgol am anghenion sy'n ymwneud ag AYECh, ond fe'u disgrifiwyd bron bob amser fel unigolion sydd ag anghenion sylfaenol pellach, y maent yn aml yn gysylltiedig â dyslecsia, ond hefyd gydag awtistiaeth ac anawsterau cyfathrebu cymdeithasol ac anawsterau corfforol. Disgrifiwyd rôl y SENCo fel un sy'n adolygu gwaith papur sy'n bodoli eisoes am ddysgwr, cysylltu gyda'r lleoliad blaenorol a chynnal profion gallu gwybyddol a llythrennedd, pan fo hynny'n briodol, fel rhan o broses asesu hir. Ystyriwyd y gweithgarwch casglu gwybodaeth hwn fel rhan o ddull gweithredu cynhwysfawr tuag at ddatblygu cwricwlwm pwrpasol ar gyfer dysgwyr unigol, gyda nodau, deilliannau a strategaethau cymorth yn cael eu nodi'n glir. Roedd yr ysgol yn teimlo, o ganlyniad i'r gwaith hwn, eu bod yn effeithiol iawn wrth ddatblygu dull gweithredu addysgol holistig tuag at ddatblygiad dysgwyr. Barnwyd bod cynnwys asiantaethau allanol yn y broses asesu hon yn heriol, gan ei bod yn gallu cymryd amser hir i bobl ymateb i gyfeiriadau, er enghraifft, mae'r amseroedd aros am asesiad gan SA yn chwe mis ar hyn o bryd. Nodwyd y rhoddir blaenoriaeth i asesiadau statudol yn yr awdurdod ac mae hyn yn golygu bod dysgwyr eraill yn symud i lawr y rhestr aros yn gyson.

**Darpariaeth statudol ar gyfer anghenion addysgol arbennig o fewn ALl3**

- Adroddodd yr ysgol arbennig y caiff cynlluniau dysgu eu diweddaru'n rheolaidd, bob tymor fel arfer, ond yn amlach os bydd gwybodaeth newydd am ddysgwr yn dod i'r amlwg, er enghraifft, mewn perthynas â meddyginiaeth. Adroddodd athrawon eu bod yn datblygu cynlluniau dysgu ar gyfer eu grŵp tiwtor fel arfer, er bod y broses gyffredinol yn cael ei chydlynu gan y SENCo fel arfer, sy'n trefnu cyfarfod unwaith y tymor i drafod y grŵp cyfan gydag athrawon dosbarth. Roedd asiantaethau allanol (e.e. gwasanaethau a ddarparir gan yr ALl, iechyd) yn tueddu i beidio ymwneud â'r broses hon, gan ddarparu adroddiadau ar gyfer dysgwyr pan fyddant yn cychwyn yr ysgol yn unig.

- Nododd yr ysgol arbennig bod yr ALI wedi datblygu templed wedi'i seilio ar PCP er mwyn cynllunio ac adolygu, ond roedd yn disgrifio hwn fel proffil un tudalen i bob pwrpas, nad oedd yn mynd yn ddigon pell fel ffurf er mwyn cynllunio ac adolygu darpariaeth arbenigol er mwyn cynnwys amrediad o anghenion. Roedd yr ysgol wedi addasu'r templed trwy ymestyn yr adran ar gyfer llais y dysgwr ac ychwanegu un arall ar gyfer rôl a dyletswyddau'r gweithiwr allweddol. Roedd y sawl a gyfwelwyd o'r ysgol arbennig yn cytuno bod cynlluniau wedi'u seilio ar PCP yn well na datganiadau wrth ganolbwyntio ar anghenion presennol yn hytrach nag anghenion hanesyddol, a'u bod yn helpu'r holl randdeiliaid i adnabod yr hyn sy'n gweithio'n dda ar gyfer dysgwr.

- Nododd lleoliadau ysgol eu bod yn aml yn blaenoriaethu amcanion datganiad, gan wneud penderfyniadau am hyn yn ystod cyfarfodydd adolygu ac ymgynghori gyda rhieni a gofalwyr at y diben hwn. Adroddwyd y caiff penderfyniadau eu gwneud yn unol â'r hyn a ystyrir yn faes pwysig o ran angen ar hyn o bryd, ac fel ffordd o sicrhau ffocws ar gyfer amcanion datganiad, a ddisgrifiwyd weithiau fel rhai 'rhy eang ac amwys'.

- Yn y ganolfan ddysgu wedi'i lleoli yn yr ysgol uwchradd, lle'r oedd gan bob dysgwr ddatganiad AAA, roedd system er mwyn mapio darpariaeth bersonoledig wedi cael ei datblygu. Roedd hyn yn ymateb i nifer gyfyngedig y targedau sydd ar gael o fewn IEP a'r her ddilynol o gynnwys pob maes o ran angen dysgu ar gyfer pobl ifanc yn y ganolfan. Disgrifiwyd eu hanghenion fel rhai eang ac fel rhai anodd i'w lleihau i dri neu bedwar targed. Barnwyd bod mapio personoledig yn ffordd o gynnig trosolwg mwy cynhwysfawr gan bod mapiau yn cynnwys manylion o'r cynnydd a sicrhawyd hyd yn hyn, gwybodaeth bwysig am natur dysgwr ac amrediad o dargedau er mwyn cynnwys anghenion academaidd a datblygiadol. Roedd y system yn cynnwys mwy o dargedau 'camau bach' na fyddai'n cael eu defnyddio o fewn IEP fel arfer, a byddai modd ei defnyddio at ddiben cynnal adolygiad tymor byr a rhoi adborth wythnosol, rhywbeth y teimlwyd ei bod yn bwysig i ddysgwyr yn y ganolfan. Roedd y mapiau darpariaeth unigoledig hyn yn cael eu gweithredu law yn llaw ag IEPau yn y ganolfan er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â chanllawiau polisi.

- Ar draws lleoliadau, adroddodd y sawl a gyfwelwyd bod asiantaethau allanol (e.e. gwasanaethau a ddarparir gan yr ALl, iechyd) wedi cael ychydig iawn o fewnbwn yn y broses o gyflwyno'r ddarpariaeth statudol.  Priodolwyd hyn ym mhob achos at ddiffyg capasiti o fewn timau, yn enwedig o fewn gwasanaethau iechyd plant.  Adroddodd yr ysgol arbennig bod ganddi ei gweithiwr cymdeithasol ei hun ac felly, ei bod yn cael cyswllt da gyda gwasanaethau cymdeithasol ar gyfer dysgwyr sy'n byw yn ardal yr astudiaeth achos.  Roedd cwnselydd ysgol wedi rhoi mewnbwn i'r ysgol ddwy waith yr wythnos, ond disgrifiwyd hyn fel adnodd y mae angen iddo fod ar gael dan drefniant amser llawn.

- Roedd y sawl a gyfwelwyd o faes iechyd yn teimlo bod ganddynt rôl pwysig fel hyfforddwyr ar gyfer SEP.  Barnwyd bod hwyluso dealltwriaeth a gwybodaeth mewn perthynas â datblygiad plant a phobl ifanc sydd ag AAA yn gryfder o ran darpariaeth gwasanaethau iechyd plant.  Nodwyd bod llwybrau gofal wedi cael eu mapio gan grwpiau arbenigol sy'n gweithio ym maes iechyd at y diben hwn a bod y rhain yn cyfeirio at dystiolaeth ymchwil presennol.

- Roedd y sawl a gyfwelwyd o'r ysgol arbennig yn disgrifio meithrin cysylltiadau gyda mudiadau gwirfoddol fel ffordd o ddatblygu'r ddarpariaeth, er enghraifft, gyda Drug Aid ac ASH Cymru.  Nodwyd hefyd yn y lleoliad hwn bod cynnig gweithgareddau cwricwlaidd amgen yn rhan bwysig o'r ddarpariaeth.  Roedd gweithgareddau amgen yn cynnwys:  grŵp sgiliau bywyd, grwpiau sgiliau cymdeithasol, addysg sgiliau gwaith, gwobrau Dug Caeredin, addysg yn yr awyr agored, therapi cerddoriaeth, adweitheg, marchogaeth a therapi ceffylau, trampolinio a gymnasteg.  Mae lle meithrin ar gael hefyd i'r dysgwyr sy'n ei chael hi'n anodd dod i'r ysgol.

- Dywedodd y sawl a gyfwelwyd o'r ysgol arbennig eu bod yn defnyddio model cynradd o gyfuno dysgwyr o ran eu hangen yn hytrach na'u hoedran a defnyddio un athro er mwyn darparu'r cwricwlwm yng Nghyfnod Allweddol 3 yn ogystal ag yng Nghyfnod Allweddol 2.  Adroddwyd bod addysgu manwl yn cael ei ddefnyddio er mwyn darparu dysgu llythrennedd a rhifedd, ynghyd â gwaith gwahaniaethol, gwaith mewn grwpiau bach a chynnwys cyfleoedd ar gyfer cymorth cymdeithasol ac emosiynol fel rhan o'r diwrnod ysgol.  Barnwyd bod y dull gweithredu hwn tuag at y ddarpariaeth yn effeithiol.

**Adolygiad o'r ddarpariaeth statudol o fewn ALl3**

- Roedd y sawl a gyfwelwyd yn cytuno bod cyfarfodydd adolygu yn cynnig cyfle da i ddwyn ynghyd gwahanol bersbectifau am ddysgwr ac er mwyn cynllunio'r ddarpariaeth ar y cyd. Nodwyd bod y rhan fwyaf o asiantaethau allanol yn mynychu adolygiadau'n rheolaidd, er enghraifft, swyddogion yr ALl a'r gwasanaethau cymdeithasol, ac y byddai'r rhai na allent fynychu yn anfon adroddiad. Adroddodd y sawl a gyfwelwyd sy'n gweithio ym maes iechyd nad ydynt yn cael digon o rybudd am ddyddiadau cyfarfodydd fel arfer, sy'n arwain at sefyllfa lle na fyddant yn mynychu. Adroddont nad ydynt wastad yn cael copïau o ddogfennaeth adolygu blynyddol yn dilyn adolygiad, a'u bod yn gweld diffyg system gyfathrebu a rennir ar draws addysg ac iechyd fel rhwystr yn hyn o beth.

- Adroddodd y rhai a gyfwelwyd o'r ysgol arbennig bod adolygiadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal gan yr ALl yn digwydd yn amlach nag unwaith y flwyddyn ac nad ydynt yn cael eu cynnal ar yr un pryd â chyfarfodydd yr adolygiad blynyddol. Weithiau, cynhelir adolygiadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal gan yr ALl yn yr ysgol, ond roedd staff ysgol yn teithio i ALlau eraill hefyd ar gyfer cyfarfodydd adolygu. Nododd un unigolyn a gyfwelwyd bod cynlluniau addysg personol (PEPs) yn cael eu hadolygu bob tymor a bod hyn rhy aml i'r dysgwr yn aml, a bod targedau'n cael eu hailadrodd.

- Dywedodd y sawl a gyfwelwyd o faes iechyd bod gweithgarwch i fonitro darpariaeth y gwasanaeth yn cael ei gyflawni mewn perthynas â'r cwestiwn a fodlonir nodau'r driniaeth a rheolaeth llwythi achosion. Yn ogystal, monitrwyd anghenion hyfforddiant staff yn rheolaidd. Roedd fforwm yn gweithredu o fewn y BILl hefyd er mwyn ystyried materion sy'n ymwneud ag ansawdd, ac er mwyn sicrhau y bodlonir safonau.

**Cynnwys plant, pobl ifanc, rhieni a gofalwyr wrth wneud penderfyniadau am ddarpariaeth statudol a datrys anghytundebau o fewn ALl3**

- Roedd y sawl a gyfwelwyd o ysgolion yn teimlo bod y broses asesu statudol yn effeithiol wrth sicrhau safbwyntiau plant a phobl ifanc, a bod rhai gwasanaethau, er enghraifft, seicoleg addysgol, yn casglu persbectifau pobl ifanc fel rhan o'r profforma asesu. Yn ogystal, barnwyd bod perthnasoedd sy'n bodoli eisoes mewn ysgolion yn cynorthwyo wrth sicrhau persbectifau dysgwyr, a disgrifiwyd SENCos fel rhai sydd

mewn sefyllfa arbennig o dda i adnabod dysgwr a deall natur unrhyw anhawster. Cyfeiriodd y SENCo yn yr ysgol uwchradd at y ffaith bod gwrando ar ddysgwyr yn rhan bwysig o fodel 'Cyflawniad i Bawb' a ddefnyddir yn yr ysgol a disgrifiodd ymgynghori gyda phobl ifanc, rhieni a gofalwyr fel rhywbeth sy'n digwydd o leiaf bob tymor.

- Ar gyfer y sawl a gyfwelwyd o faes iechyd, barnwyd bod plant wrth wraidd y ddarpariaeth, a disgrifiwyd nodau fel elfennau y cytunir arnynt bob amser gyda phlant, pobl ifanc a theuluoedd.

- Adroddodd yr ysgol gynradd ei bod yn defnyddio rhai agweddau ar PCP ar gyfer cyfarfodydd adolygu blynyddol a'i bod yn ymgynghori gyda phlant, er bod hyn yn rhywbeth sy'n digwydd cyn cyfarfodydd ac nid oedd plant wedi cael mewnbwn uniongyrchol wrth osod targedau. Roedd y sawl a gyfwelwyd yn teimlo bod arferion PCP yn hwyluso'r broses o osod targedau, a'u bod yn gorfodi staff i fod yn fwy creadigol wrth llunio targedau CAMPUS (h.y. targedau cyraeddadwy, amser wedi'i bennu, mesuradwy, penodol, uchelgeisiol a synhwyrol) sy'n werthfawr ar gyfer dysgu sy'n digwydd yn yr ysgol ac yn y cartref. Nid oedd y sawl a gyfwelwyd yn siŵr a yw prosesau PCP yn grymuso rhieni/gofalwyr neu beidio, oherwydd yn eu profiad nhw, roedd yn ymddangos bod rhieni/gofalwyr a oedd yn ymwneud â'r broses o wneud penderfyniadau am addysg eu plentyn eisoes wedi cael eu grymuso.

- Adroddodd yr ysgol arbennig ei bod wastad yn gwahodd dysgwyr a rhieni a gofalwyr i gyfarfodydd adolygu, ond bod y presenoldeb yn dibynnu ar hwyl y dysgwr ar ddiwrnod yr adolygiad, ac ar y pellter teithio i'r ysgol ar gyfer rhieni a gofalwyr. Adroddwyd bod canran uchel o ddysgwyr yn yr ysgol yn rhai o'r tu allan i'r sir a bod y pellter rhwng yr ysgol a'r cartref yn cael ei ystyried yn fater pwysig yn hyn o beth. Roedd y sawl a gyfwelwyd o'r farn bod gallu rhieni/gofalwyr i ymgysylltu â phrosesau adolygu yn gymysg. Disgrifiwyd rhieni a gofalwyr fel rhai nad ydynt wastad yn fodlon nac yn gallu cymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau, a bod angen cymorth arnynt weithiau, er enghraifft, trwy gael esboniad o'r broses adolygu. Nododd yr ysgol ei bod yn ceisio grymuso rhieni/gofalwyr trwy eu cyfeirio at grwpiau eiriolaeth rhieni. Barnwyd bod dibyniaeth ar wybodaeth ysgrifenedig ar gyfer adolygiadau yn peri problemau i rieni/gofalwyr sy'n cael anhawster wrth ddarllen.

- Adroddodd y SENCo yn yr ysgol arbennig eu bod yn cael nifer o gyfarfodydd gyda dysgwyr er mwyn paratoi ar gyfer cyfarfodydd adolygu blynyddol, a'u bod yn gweld hyn fel ffordd o rymuso dysgwyr i gymryd rhan mewn prosesau penderfynu. Roedd y sawl a gyfwelwyd o'r ysgol arbennig yn teimlo bod angen casglu safbwyntiau dysgwyr mewn ffordd sensitif, fodd bynnag, gan bod pobl ifanc weithiau yn datgelu gwybodaeth nad oedd rhieni a gofalwyr yn gwybod amdani yn flaenorol.

- Disgrifiwyd datrys anghytundebau mewn perthynas â'r ddarpariaeth statudol fel rhywbeth sy'n cymryd 'amser aruthrol' gan swyddogion o'r ALl. Barnwyd bod y system apêl mewn tribiwnlys yn hyrwyddo ymgysylltu gwrthwynebol a bod y gwrthdaro yn ymwneud â lleoliadau neu agweddau ar ddarpariaeth megis mewnbwn meddygol gan amlaf.

- Roedd y sawl a gyfwelwyd o faes iechyd o'r farn bod partneriaethau effeithiol gyda rhieni/gofalwyr yn helpu i osgoi anghytundebau a dywedwyd eu bod yn blaenoriaethu cyfarfodydd gyda rhieni/gofalwyr ac yn defnyddio dull gweithredu ymgynghori yn eu gwaith gyda theuluoedd.

**Gweithio gydag eraill o fewn ALl3**

- Roedd y sawl a gyfwelwyd o faes iechyd o'r farn bod y galw ar adnoddau yn rhwystr sy'n atal gwasanaeth rhag cael ei darparu ac roeddent yn teimlo bod angen i weithwyr iechyd proffesiynol ddatblygu ffyrdd newydd o weithio er mwyn ymateb i'r galw hwn. Barnwyd bod mwy o waith cydgysylltiedig gydag athrawon yn faes i'w wella, gan gynnwys y cyfle i fynegi barn am y ffordd y defnyddir cyllid mewn ysgolion.

- Roedd y sawl a gyfwelwyd o ysgolion yn disgrifio ymgysylltu gyda gwasanaethau plant fel maes heriol. Disgrifiwyd bod plant a phobl ifanc yn cael cymorth y tu allan i'r ysgol weithiau, ond gydag ychydig iawn o gyswllt a rhannu gwybodaeth gydag ysgolion gan rai gwasanaethau. Gwnaethpwyd cyfeiriad penodol at CAMHS yn hyn o beth. Adroddodd rhai a gyfwelwyd o faes iechyd eu bod wastad yn darparu adroddiadau triniaeth, ond roeddent yn nodi ei bod yn gallu bod yn anodd dal i fyny gyda'r newidiadau mewn personél a phrotocolau, a bod hyn yn gallu peri rhwystredigaeth i rieni/gofalwyr ac ysgolion.

- Adroddodd y sawl a gyfwelwyd o'r ysgol gynradd bod cymorth gan asiantaethau allanol, megis y gwasanaeth SA, y gwasanaeth therapi lleferydd ac iaith a ffisiotherapi yn aml yn ddibynnol ar deuluoedd yn ymgysylltu â'r gwasanaeth a/neu'n mynychu apwyntiadau yn rheolaidd. Ym maes gwasanaethau plant, pe byddai teulu yn colli apwyntiad ddwy waith, adroddwyd y byddent yn cael eu rhyddhau yn awtomatig, ac y byddai unrhyw gyfeiriad newydd yn cymryd amser hir. Mynegwyd rhwystredigaeth gan yr ysgol am y system hon, ac maent yn teimlo nad oes ganddynt unrhyw reolaeth drosti ac nas ymgynghorir â nhw amdani.

- Nodwyd bod plant sy'n derbyn gofal gan yr ALl yn tueddu i gael blaenoriaeth o ran gwasanaethau a'u bod yn tueddu i fanteisio ar wasanaethau yn gyflymach.

- Roedd y sawl a gyfwelwyd o'r PRU yn nodi eu bod yn gweithio gyda nifer fawr o wasanaethau a sefydliadau a'u bod yn teimlo y byddai profforma a rennir yn cefnogi'r gwaith hwn, er enghraifft, ar ffurf CDU sy'n cynnwys nodau a blaenoriaethau a rennir. Barnwyd bod hon yn ffordd o sicrhau parhad ar draws lleoliadau a gwasanaethau, ac yn rhywbeth a ystyrir yn bwysig oherwydd y ffaith bod y dysgwyr y maent yn gweithio gyda nhw yn gorfod symud ysgolion yn gyson a bod amgylchiadau eu bywyd yn newid yn gyson.

- Barnwyd bod gwaith amlasiantaeth yn flaenoriaeth i staff y PRU. Roeddent yn disgrifio'r dysgwyr y maent yn gweithio gyda nhw fel rhai sy'n barod i 'ymladd neu ffoi' yn aml, ac nad ydynt yn gallu canolbwyntio ar dasgau dysgu. Roeddent o'r farn bod mewnbwn sy'n ymwneud ag iechyd yn hanfodol ar gyfer y dysgwyr hyn, ond roeddent yn nodi'r ychydig gyswllt y mae gofal cymdeithasol a CAMHS yn ei gael gyda'r ddarpariaeth, er bod y gwasanaethau hyn yn gwybod am ddysgwyr.

- Adroddodd y sawl a gyfwelwyd o'r SAB bod anghenion iechyd meddwl dysgwyr yn flaenoriaeth i'r coleg, ond bod angen cael mwy o gyswllt gyda CAMHS. Nodwyd her o ran dysgwyr sydd ag anghenion iechyd meddwl, ond nad oes ganddynt anghenion academaidd ac nad oedd ganddynt ddatganiad pan oeddent yn yr ysgol. Adroddwyd bod y gwasanaethau iechyd yn aml yn gwybod am y dysgwyr hyn, ac efallai bod ganddynt anghenion sylweddol o fewn y coleg, ond nododd SABau nad oes unrhyw

fecanwaith yn bodoli ar hyn o bryd er mwyn rhannu gwybodaeth rhwng iechyd a'r SAB. Ar draws lleoliadau, gwelwyd cydnabyddiaeth o'r ffaith mai diffyg capasiti o fewn gwasanaethau iechyd, ac o fewn CAMHS yn arbennig, yw'r rheswm dros y diffyg cyswllt.

- Roedd swyddogion yr ALl yn teimlo bod maint bach yr awdurdod yn golygu y byddai moddi iddo gael ei anwybyddu gan wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ac asiantaethau eraill sy'n gweithio o fewn ôl troed rhanbarthol mwy o faint.

**Trosglwyddo o fewn ALl3**

- Disgrifiwyd bod amrediad o drefniadau trosglwyddo a strategaethau cymorth yn eu lle ar draws lleoliadau ar gyfer dysgwyr sydd ag AAA. Roedd y rhain yn cynnwys: ymweliadau estynedig a diwrnodau rhagflas, ymweliadau yng nghwmni staff, cyfarfodydd trosglwyddo rhwng gweithwyr addysg ac iechyd proffesiynol, cyfarfodydd cychwynnol gyda dysgwyr a'u rhieni a'u gofalwyr, cychwyn addysg amser llawn fesul cam.

- Roedd y sawl a gyfwelwyd ar draws gwasanaethau yn teimlo bod trosglwyddo yn gryfder ymhlith pob grŵp oedran. Yn yr ysgol gynradd, teimlwyd bod cydleoli tîm yr ymwelwyr iechyd a darpariaeth feithrin yr ALl yn cynorthwyo trosglwyddo da. Yn yr ysgol uwchradd, nododd y sawl a gyfwelwyd bod arolygiad Estyn wedi amlygu trosglwyddo fel cryfder, ac y nodwyd prosesau allweddol megis ymweliadau trosglwyddo estynedig ar gyfer dysgwyr agored i niwed a dysgwyr AAA, a rhannu gwybodaeth ar gyfer gweithwyr proffesiynol yn ystod cyfarfodydd clwstwr ysgolion. Teimlwyd bod cyfarfodydd clwstwr yn cynorthwyo'r broses o rannu darn o wybodaeth pwysig am blant a theuluoedd, ac fe'u defnyddir i nodi pwyntiau cyswllt a gwasanaethau pwysig. Adroddodd y sawl a gyfwelwyd o SAB eu bod yn ceisio mynychu cyfarfodydd adolygu blynyddol darpar ymgeiswyr a'u bod yn cael gwybodaeth ragorol am ddysgwyr mewn rhai lleoliadau yn rheolaidd, er y disgrifiwyd bod rhai ysgolion yn wael yn hyn o beth.

- Disgrifiwyd trosglwyddo i mewn i'r ysgol arbennig fel maes cymorth pwysig. Nododd y sawl a gyfwelwyd bod dysgwyr sy'n dod i mewn i'r ysgol yn aml yn unigolion nad oeddent wedi bod yn mynychu lleoliad ysgol yn rheolaidd am gryn amser. Roedd

gan yr ysgol ddarpariaeth feithrin estynedig, a oedd yn arbennig o addas i anghenion y dysgwyr hynny pan fyddent yn cychwyn ym marn y sawl a gyfwelwyd. O fewn y ddarpariaeth hon, byddai cyfanswm yr oriau yn yr ysgol yn cael ei gynyddu'n raddol nes byddent yn mynychu dan drefniant amser llawn a byddai athro dosbarth y dysgwr yn meithrin perthynas gyda'r dysgwr yn y lleoliad hwn yn gyntaf.

- Disgrifiwyd y trosglwyddo ar gyfer plant a phobl ifanc o'r tu allan o'r sir fel rhywbeth sy'n peri llawer mwy o broblemau o ran rhannu gwybodaeth, a gwelwyd amrywiadau sylweddol o ran ansawdd ac amseroldeb rhannu gwybodaeth gan wahanol ysgolion ac ALlau.

- Disgrifiwyd Gyrfa Cymru fel cyfryngwr pwysig o ran y trosglwyddo ar gyfer dysgwyr sy'n symud ymlaen i addysg bellach. Nododd y sawl a gyfwelwyd bod Gyrfa Cymru yn gweithredu fel sianel gyfathrebu rhwng y SAB a gwasanaethau iechyd yn absenoldeb trefniadau a chysylltiadau ffurfiol. Nododd un a gyfwelwyd ym maes iechyd bod cynnwys gwasanaethau iechyd plant yn y broses drosglwyddo o'r ysgol i addysg drydyddol yn wendid, fodd bynnag, ac yn peri pryder arbennig i rieni a gofalwyr.

- Barnwyd bod allan o'r SAB yn faes heriol gan nad yw'r coleg fel arfer yn cael gwybod am geisiadau dysgwyr, er enghraifft, am le mewn Prifysgol neu goleg pellach.

**Yr iaith Gymraeg o fewn ALl3**

- Nododd y sawl a gyfwelwyd o faes iechyd a'r ALl eu bod yn gofyn i ddysgwyr a rhieni/gofalwyr nodi eu dewis iaith pan fyddant yn ymgysylltu â gwasanaethau. Nododd rhai a gyfwelwyd o faes iechyd bod eu canllawiau clinigol yn nodi y dylid darparu gwaith asesu ym mhrif iaith y plentyn/teulu a bod yr angen hwn yn cael ei nodi wrth gyfeirio.

- Adroddodd y sawl a gyfwelwyd bod rhywfaint o gapasiti o fewn timau i gynnal asesiadau a darparu SEP trwy gyfrwng y Gymraeg, ond adroddwyd bod y galw am hyn yn ardal yr astudiaeth achos yn isel. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi na chynhwyswyd unrhyw ysgolion cyfrwng Cymraeg yn sampl y gwaith maes yn ardal yr

astudiaeth achos hon (cynhwyswyd ysgolion cyfrwng Cymraeg, ffrwd deuol a dwyieithog yn ardaloedd astudiaethau achos eraill – ALl2 ac ALl4).

- Nododd y sawl a gyfwelwyd o faes iechyd bod y galw am wasanaethau Cymraeg yn isel, ac mai ychydig iawn o geisiadau a gafwyd am asesu a darpariaeth trwy gyfrwng y Gymraeg. Nododd y sawl a gyfwelwyd o faes iechyd bod gan y BILl gapasiti cyfyngedig o ran staff sy'n meddu ar sgiliau Cymraeg yn y gweithlu, ond eu bod wedi nodi staff sy'n meddu ar sgiliau Cymraeg fel bod modd bodloni'r galw pe bai teuluoedd yn gofyn am wasanaethau yn Gymraeg. Soniodd y sawl a gyfwelwyd yn y BILl at y ffaith bod ymwelydd iechyd sy'n siarad Cymraeg ar gael, yn ogystal ag un SLT a rhai staff ThG. Nododd un unigolyn a gyfwelwyd, o'i gymharu â'r gwasanaeth Saesneg, bod rhai bylchau yn y dystiolaeth sy'n ymwneud â datblygiad sgiliau Cymraeg.

**ALI4**

**Cefndir ALI4**

Proffil ALI4:

- Mae canran y disgyblion sydd ag AAA yn uwch nag y mae ar gyfartaledd ymhlith ALlau Cymru (Llywodraeth Cymru, 2017b);[18]
- Mae canran y disgyblion eFSM yn debyg i'r ganran ar gyfartaledd ymhlith ALlau Cymru (Llywodraeth Cymru, 2017b);
- Mae'r boblogaeth yn uwch na maint y boblogaeth ar gyfartaledd ymhlith ALlau Cymru (ONS, 2016);[19]
- Mae canran y siaradwyr Cymraeg yn is nag y mae ar gyfartaledd ymhlith ALlau Cymru (ONS, 2011);[20]
- Mae'r lefelau amddifadedd yn debyg i'r lefelau ar gyfartaledd ymhlith ALlau Cymru (Llywodraeth Cymru, 2014).[21]

Roedd y gwaith maes ar yr astudiaeth achos yn cynnwys cyfweliadau gyda chwe swyddog o'r ALl (pedwar o'r adran addysg a dau o'r adran gwasanaethau cymdeithasol) a phum aelod o staff y BILl. Cynhaliwyd gwaith maes gydag uwch-reolwyr, SENCos ac athrawon mewn un ysgol gynradd cyfrwng Saesneg ac un ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg. Cynhaliwyd cyfweliadau hefyd gyda staff mewn ysgol arbennig, uned cyfeirio disgyblion a Sefydliad Addysg Bellach.

**Rolau a chyfrifoldebau o fewn ALI4**

- Roedd y sawl a gyfwelwyd o ysgolion a'r ALl o'r farn bod rolau a chyfrifoldebau mewn perthynas ag AAA yn glir. Nododd rhai, fodd bynnag, nad yw'r sefyllfa o ran y cyllid yn glir, a bod dryswch yn bodoli yn arbennig mewn perthynas â'r cyllid er mwyn cael cymorth gan y gwasanaethau iechyd.

---

[18] Mae data ynghylch disgyblion sydd ag AAA ac eFSM yn ôl ALl ar gael yma: https://gov.wales/docs/statistics/2017/170726-school-census-results-2017-en.pdf (Cyrchwyd 12 Mehefin 2018)

[19] Mae amcangyfrifon poblogaeth yn ôl ALl ar gael yma: https://statswales.gov.wales/Catalogue/Population-and-Migration/Population/Estimates/Local-Authority/populationestimates-by-localauthority-year (Cyrchwyd 12 Mehefin 2018)

[20] Mae data ynghylch sgiliau Cymraeg yn ôl ALl ar gael yma: https://statswales.gov.wales/Catalogue/Welsh-Language/WelshSpeakers-by-LA-BroaderAge-2001And2011Census

[21] Mae data ynghylch Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru ar gael yma: https://gov.wales/docs/statistics/2015/150812-wimd-2014-revised-en.pdf (Cyrchwyd 12 Mehefin 2018)

- Teimlwyd bod eglurder rolau yn cael ei gynorthwyo yn yr ALI trwy weithredu panel darpariaeth addysg a phanel gwasanaethau cymdeithasol sydd â chyfrifoldebau mewn perthynas ag asesu, darparu, adolygu a lleoliadau y tu allan i'r sir. Dywedodd sawl ymatebydd ar draws gwasanaethau, gan gynnwys y rhai ym maes iechyd, gwasanaethau cymdeithasol ac ysgolion, eu bod yn aelodau rheolaidd o'r paneli hyn a'u bod yn eu hystyried fel fforwm er mwyn sicrhau eu bod yn cael gwybod y datblygiadau diweddaraf mewn perthynas ag AAA o fewn yr awdurdod.

- Un nod a nodwyd ar gyfer yr ALI oedd darparu SEP o fewn lleoliadau prif ffrwd, a bod cyllid yn cael ei ddirprwyo i ysgolion at y diben hwn. Lleolir a rheolir sawl canolfan dysgu arbenigol a ariannir yn ganolog mewn ysgolion prif ffrwd ac roedd sawl un a gyfwelwyd wedi cyfeirio atynt fel rhan bwysig yn y strwythur AAA o fewn yr awdurdod. Mae'r canolfannau hyn yn darparu ar gyfer dysgwyr sydd ag amrediad o anghenion gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud ag anhawster dysgu cymedrol, anhawster lleferydd ac iaith, awtistiaeth, nam ar y clyw, materion symudedd ac oedi cyffredinol, ac roeddent yn gweithredu yn y cyfnod cynradd ac uwchradd. Mae'r gymhareb addysgwr i ddysgwr yn uwch o fewn canolfannau, maent yn cael mwy o adnoddau o ran cymorth cynorthwywyr addysgu ac maent yn cael mewnbwn mwy rheolaidd ar draws gwasanaethau, er enghraifft, gan y gwasanaeth therapi lleferydd ac iaith. Yn ychwanegol i'r canolfannau arbenigol, roedd gan yr ALI ddwy ysgol arbennig ac roedd ganddo gynlluniau i adeiladu un ysgol arbennig arall. Nodwyd bod yr ALI yn manteisio ar nifer fawr o leoliadau y tu allan i'r sir.

- Roedd y tîm sy'n gyfrifol am blant sy'n derbyn gofal gan yr ALI yn eistedd o fewn y gwasanaeth addysg, ond nid oedd yn rhan o'r gwasanaeth AAA, er eu bod yn nodi eu bod yn cydweithio'n agos gydag addysg.

- Holwyd y sawl a gyfwelwyd o ysgolion am rôl a chyfrifoldebau'r SENCo yn eu lleoliad nhw yn benodol. Ym mhob ysgol (cynradd, uwchradd, arbennig), roedd y SENCo yn rhan o dîm yr uwch-reolwyr ac roedd ganddynt gyfrifoldebau strategol a gweithredol gan gynnwys asesu, monitro SEP, hyfforddi staff a neilltuo adnoddau, trefnu adolygiadau blynyddol, gwneud gwaith cyswllt gyda theuluoedd ac asiantaethau allanol (e.e. gwasanaethau a ddarparir gan yr ALI, iechyd), gwaith trosglwyddo a mynychu cyfarfodydd panel cyrff yr ALI. Yn y lleoliadau cynradd ac uwchradd, roedd

y SENCo yn athro cymwys, ac yn yr ysgol arbennig, nid oedd y SENCo yn athro cymwys. Roedd rôl y SENCo yn yr ysgol arbennig yn canolbwyntio ar gydlynu cyfarfodydd adolygu blynyddol ac amlasiantaeth, cyflawni gwaith ymgysylltu gyda theuluoedd a goruchwylio hyfforddiant, ar gyfer staff yn yr ysgol ac ar gyfer staff mewn ysgolion prif ffrwd trwy gyfrwng fforymau SENCo. Barnwyd bod cydlynu adolygiadau blynyddol yn cymryd cyfran sylweddol o'r amser yn yr ysgol arbennig oherwydd bod datganiad gan bob dysgwr.

- Trefnwyd SEP yn y SAB mewn perthynas â chanolfan dysgu arbenigol ar gyfer dysgwyr sydd ag anghenion cymhleth ac yr oedd ganddynt ddatganiad anghenion addysgol arbennig pan oeddent yn yr ysgol. Yn ychwanegol i'r ganolfan hon, mae strwythur cymorth dysgu i fyfyrwyr yn gweithredu ar gyfer dysgwyr sydd ag AAA mewn perthynas â dysgu academaidd ac anghenion sy'n ymwneud ag elfennau cymdeithasol-emosiynol.

- Adroddodd SENCos ysgol eu bod yn teimlo'n hyderus yn eu rôl oherwydd hyd y cyfnod y maent wedi bod yn cyflawni'r cyfrifoldeb hwn a'r profiad y maent wedi'i gael o wneud hyn.

- Nododd pob lleoliad bod y cyfrifoldeb dros AAA yn cael ei ystyried fel un a rennir a bod staff yn gweithio fel tîm i roi sylw i amrediad yr anghenion sydd gan ddysgwyr. Ym mhob lleoliad, nodwyd hefyd bod sawl aelod o staff yn y lleoliad yn meddu ar gymhwyster mewn perthynas ag AAA, yn ychwanegol i gymhwyster sy'n berthnasol i AAA y mae'r SENCo yn meddu arno. Yn y lleoliad cynradd, barnwyd mai presenoldeb canolfan ddysgu arbenigol oedd y rheswm rhannol dros y ffaith bod gan gyfran uchel o athrawon brofiad o AAA a'u bod wedi cael hyfforddiant AAA, er bod rhai athrawon sy'n gweithio mewn ystafelloedd dosbarth prif ffrwd yn meddu ar gymwysterau AAA ac wedi cael profiad o AAA. Yn yr ysgol arbennig, mae sawl aelod o staff, gan gynnwys staff cymorth, yn meddu ar raddau Meistr mewn pynciau sy'n berthnasol i AAA. Dywedodd penaethiaid mewn lleoliadau cynradd ac arbennig eu bod yn rhoi blaenoriaeth i hyfforddiant staff a'u bod yn talu am hwn mewn rhai

achosion, er enghraifft, hyfforddiant Iaith Arwyddion Prydain (BSL), Makaton, PECs a Thrive[22].

- Nododd sawl ysgol bod hierarchaethau o ran lefelau rheoli uwch a chanol yn bodoli, ond bod dull arwain dosbarthedig tuag at rolau a chyfrifoldebau yn cael ei hyrwyddo ac roeddent o'r farn bod hyn yn berthnasol i ddarpariaeth SEP.

**Gweithgarwch adnabod ac asesu ar gyfer dysgwyr sy'n cael eu cynorthwyo trwy gyfrwng gweithredu gan yr ysgol/a mwy a dysgwyr sydd â chynlluniau SAB o fewn ALl4**

- Dywedodd gweithwyr iechyd proffesiynol bod ysgolion, gwasanaethau therapi a gwasanaethau iechyd cymunedol yn cydweithio'n agos ac mewn ffordd effeithiol er mwyn cynorthwyo i adnabod angen addysgol arbennig yn gynnar ar lefel cyn ysgol. Nodwyd bod offerynnau sgrinio megis WellComm ar gyfer datblygiad lleferydd ac iaith yn cael eu defnyddio'n eang at y diben hwn. Defnyddiwyd cyllid a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru yn ddiweddar i hwyluso'r systemau mewn perthynas â hyn, yn enwedig ar gyfer y rhai sydd ag angen sy'n seiliedig ar niwroddatblygiad. Mynegwyd cred gan weithwyr iechyd proffesiynol bod timau wedi cael eu hyfforddi'n dda mewn perthynas ag adnabod yn gynnar a'u bod yn 'gwybod yr hyn i gadw golwg amdano'.

- Dywedodd y sawl a gyfwelwyd o'r ysgol gynradd mai athrawon dosbarth sy'n mynegi pryder am ddysgwr gan amlaf, er y disgrifiwyd y broses o wneud penderfyniadau ynghylch adnabod AAA fel penderfyniad a wneir gan y tîm. Barnwyd bod lefel uchel yr arbenigedd ynghylch AAA sy'n bodoli yn yr ysgol yn berthnasol yn hyn o beth. Diben cynnwys y SENCo yn bennaf oedd arsylwi dysgwyr y mynegwyd pryder amdanynt, llunio dogfennaeth briodol (fel arfer ar ffurf nodiadau arsylwadau a sgyrsiau), gweithredu asesu os bernir bod hynny'n briodol, a chydlynu gweithgarwch penderfynu am y camau nesaf er mwyn cynnig cymorth.

[22] Mae Thrive yn elusen a gaiff ei rhedeg gan rieni er mwyn cynorthwyo plant anabl a'u teuluoedd.

- Mae'r offerynnau a ddefnyddir er mwyn asesu yn cynnwys Cysylltiadau Lleferydd a Phroffil Boxall. Nodwyd bod rhai o'r rhain yn cymryd cryn amser i'w cyflawni, ond eu bod yn cynnig gwybodaeth bwysig sy'n golygu eu bod yn werth chweil yn y pen draw.

- Yn yr ysgol uwchradd, roedd dysgwyr Blwyddyn 7 yn cael eu sgrinio yn rheolaidd pan fyddent yn cychwyn, trwy ddefnyddio profion gallu gwybyddol ar gyfer sillafu, darllen ac ysgrifennu. Yn ogystal, barnwyd bod data sy'n cael ei drosglwyddo o'r ysgol gynradd yn ddefnyddiol wrth nodi unrhyw anghenion dysgu unigol a defnyddiwyd y profion darllen a rhifedd cenedlaethol fel dull sgrinio pellach. Mae canlyniadau o'r ffynonellau gwybodaeth cyfunol hyn ynghylch galluoedd dysgwyr yn nodi'r rhai sy'n cyflawni yn is na throthwy (sgôr gradd fel arfer) ac yn arwain at grwpiau ar gyfer ymyriadau. Trefnwyd grwpiau ar sail pa mor aml y darparir ymyrraeth, er enghraifft, yn wythnosol neu'n amlach na hynny, neu dan drefniant un-i-un.

- Cwestiynwyd effeithiolrwydd cofnodi AAA fel data caled (h.y. sgoriau) gan rai o'r rhai a gyfwelwyd. Teimlwyd, er enghraifft, bod rhai meysydd datblygu, megis lles a dysgu hyder, yn hollbwysig i gyflawniad dysgwr, ond bod gofyn cael adroddiadau disgrifiadol o'r cynnydd er mwyn cyfleu canlyniadau 'meddal' pwysig.

- Er bod cyllid wedi cael ei ddarparu i'r tîm therapi amlddisgyblaethol o fewn y gwasanaeth iechyd plant, nododd y sawl a gyfwelwyd o faes iechyd bod materion sy'n ymwneud ag adnoddau yn parhau i beri rhwystr wrth ymgymryd â chyfeiriadau ar gyfer cymorth ac asesu. Teimlwyd bod y ddarpariaeth ar gyfer plant sydd ag anghenion cymhleth yn dda yn gyffredinol, ond roedd plant a phobl ifanc nad ydynt yn perthyn i'r categori hwn yn debygol o gael llai o gymorth neu ddim cymorth. Fodd bynnag, roedd un unigolyn a gyfwelwyd o faes iechyd ac a fu'n gweithio yn y gwasanaeth therapi lleferydd ac iaith o'r farn bod y grŵp olaf hwn yn cael ei gynorthwyo mewn ysgolion a bod y ddarpariaeth iechyd yn ailadrodd cymorth. Soniodd yr unigolyn hwn a gyfwelwyd bod angen rheoli disgwyliadau o ran effaith y cymorth a ddarparir gan wasanaethau iechyd hefyd.

- Yn y SAB, barnwyd bod y broses o adnabod angen dysgu yn syml i ddysgwyr sydd â chynllun dysgu a sgiliau. I'r dysgwyr hyn, disgrifiwyd bod y wybodaeth gan ysgolion, gwasanaethau cymdeithasol, gwasanaethau iechyd a Gyrfa Cymru yn gynhwysfawr

ac yn ddefnyddiol. Mynegodd y sawl a gyfwelwyd eu cred bod rhai dysgwyr yn 'cwympo trwy'r rhwyd' yn yr ysgol ac yn cyrraedd y coleg gydag anghenion ychwanegol, ond nad oes gwybodaeth glir amdanynt. Roedd y coleg yn cynnal system ar gyfer anghenion academaidd a chymdeithasol dysgwyr pan fyddent yn cychwyn.

**Cynllunio ar gyfer SEP ar gyfer dysgwyr sy'n cael eu cynorthwyo trwy gyfrwng gweithredu gan yr ysgol/a mwy a dysgwyr sydd â chynlluniau SAB o fewn ALl4**

- Nododd ysgolion eu bod yn parhau i weithio yn unol â chanllawiau yng Nghod Ymarfer presennol Anghenion Addysgol Arbennig Cymru (Llywodraeth Cymru, 2004), er eu bod wedi mynegi'r ffaith eu bod yn ymwybodol y byddai'r system hon yn newid cyn bo hir. Roedd IEPau yn cael eu defnyddio ar draws lleoliadau, er y soniwyd am CDUau. Roedd y sawl a gyfwelwyd yn cytuno bod defnyddio IEPau yn system effeithiol sy'n caniatáu hyblygrwydd a ffocws o ran y ddarpariaeth addysgol a sylw cynhwysfawr i anghenion dysgwyr.

- Roedd amrediad o gynlluniau yn cael eu defnyddio mewn lleoliadau ysgol law yn llaw ag IEPau. Mae'r rhain yn cynnwys cynlluniau chwarae mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar, cynlluniau 'adweithiol' ar gyfer ymddygiad, cynlluniau gofal iechyd a chynlluniau cymorth bugeiliol tymor byr ar gyfer dysgwyr sydd mewn perygl o gael eu gwahardd.

- Adroddodd swyddogion yr ALl bod rhaglen hyfforddiant PCP wedi cael ei darparu ar gyfer personél allweddol yn ystod y bum mlynedd ddiwethaf. Adroddodd yr holl rai a gyfwelwyd mewn lleoliadau ysgol eu bod yn defnyddio proffiliau un tudalen ar gyfer dysgwyr sydd ag IEPau a bod rhai o'r farn bod y rhain yn rhywbeth cadarnhaol a'u bod yn cynorthwyo gweithgarwch ymgynghori gyda dysgwyr, rhieni a gofalwyr am yr hyn sy'n bwysig a mynegi pryderon.

**Cynnwys plant, pobl ifanc, rhieni a gofalwyr wrth wneud penderfyniadau sy'n ymwneud â SEP gweithredu gan yr ysgol/a mwy a chynlluniau SAB, o fewn ALI4**

- Mynegwyd ymrwymiad cryf gan bob lleoliad i ymgynghori â dysgwyr, eu rhieni, gofalwyr a rhanddeiliaid eraill. Dywedodd rhai ysgolion a'r SAB eu bod wedi bod yn ymgynghori gyda phlant, pobl ifanc a rhieni a gofalwyr ers cryn amser a'u bod wedi datblygu strategaethau cymorth at y diben hwn. Yn y PRU, lle nad oes gan ddysgwyr ddatganiadau fel arfer, ond mae ganddynt lefel uchel o anghenion ychwanegol, roedd y sawl a gyfwelwyd yn teimlo bod gwrando ar ddysgwyr yn ffordd bwysig o ddarparu cymorth ymddygiad cadarnhaol a'i fod yn sicrhau llwyddiant lleoliad.

- Cyfeiriwyd at amrywiaeth o blatfformau gan ysgolion fel rhai sy'n cynnig cyfleoedd i rieni a gofalwyr gymryd rhan wrth wneud penderfyniadau. Roedd y rhain yn cynnwys nosweithiau rhieni, llyfrau cyfathrebu rhwng yr ysgol a'r cartref a chyfarfodydd unigol a drefnir i drafod mater penodol. Disgrifiwyd bod presenoldeb rhieni a gofalwyr mewn cyfarfodydd yn dda ar y cyfan a dywedodd ysgolion eu bod yn ymdrechu i sicrhau y cynhelir cyfarfodydd ar amser sy'n gyfleus i rieni a gofalwyr, yn enwedig y rhai sy'n gweithio.

- Disgrifiwyd bod plant a phobl ifanc yn cymryd rhan mewn gweithgarwch i osod targedau fel arfer, yn enwedig yn ystod y cyfnod adolygu, sy'n digwydd bob tymor neu ddwywaith y flwyddyn mewn lleoliadau. Yn y PRU, cynhelir adolygiadau ar gyfer dysgwyr yn fwy rheolaidd fel arfer (bob 6 wythnos), gan gyfuno pob agwedd ar y ddarpariaeth a chan ddefnyddio model yr hyn sy'n gweithio'n dda ar hyn o bryd. Disgrifiwyd IEPau fel dogfennau a drafodir, lle yr ymgynghorir â dysgwyr am yr hyn y maent yn dymuno ei ddysgu a'i gyflawni.

- Disgrifiwyd bod cynorthwyo rhieni a gofalwyr i ddeall y rhesymau addysgol dros rai penderfyniadau neu ddulliau a ddefnyddir mewn lleoliad yn her gan rai wrth geisio sicrhau bod rhieni yn cymryd rhan mewn penderfyniadau. Dywedwyd bod hyn yn arbennig o wir ymhlith rhieni a gofalwyr sydd ag anhawster dysgu eu hunain neu yr oeddent wedi cael profiadau negyddol yn yr ysgol pan oeddent yn ifanc. Barnwyd bod cyfarfodydd anffurfiol gyda rhieni a gofalwyr yn fwy addas mewn amgylchiadau o'r fath.

- Dywedodd y sawl a gyfwelwyd o faes iechyd eu bod yn rhoi blaenoriaeth i arferion sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a'u bod yn ceisio rhoi plant a theuluoedd wrth wraidd y penderfyniadau a wneir ynghylch y ddarpariaeth. Roedd hyn yn rhywbeth a ystyriwyd yn rhan o bolisi a chanllawiau iechyd presennol ac yn ffordd sefydledig o weithio o fewn iechyd. Roedd rhai o'r rhai a gyfwelwyd, fodd bynnag, yn teimlo bod gweithrediad y gwasanaeth o ddydd i ddydd yn golygu eu bod yn cael llai o gyswllt gyda phlant efallai, er gwaethaf yr agenda hon o gyfranogi, yn enwedig ar ôl iddynt symud o'r lleoliad cyn ysgol. Disgrifiodd un unigolyn a gyfwelwyd y cam o ddefnyddio holiaduron defnyddwyr gwasanaeth, gan gynnwys holiadur addas i blant, ond dywedodd bod y niferoedd sy'n eu dychwelyd yn isel.

**SEP ac adolygu ar gyfer dysgwyr sy'n cael eu cynorthwyo trwy gyfrwng gweithredu gan yr ysgol/a mwy a dysgwyr sydd â chynlluniau SAB, o fewn ALI4**

- Roedd y sawl a gyfwelwyd o fewn addysg yn teimlo bod y ddarpariaeth addysg arbennig o fewn yr ALI yn effeithiol i raddau helaeth wrth sicrhau deilliannau da i blant a phobl ifanc. Roedd staff ysgol wedi darparu tystiolaeth o effaith gadarnhaol eu darpariaeth ar gyfer dysgwyr sydd ag AAA ar ffurf sgorau cyrhaeddiad, cyfraddau absenoldeb isel a nifer isel iawn y gwaharddiadau neu'r ffaith na wneir unrhyw waharddiadau. Roedd rhai lleoliadau yn teimlo y dylai lefel llesiant dysgwyr a'u parodrwydd i ddod i'r ysgol ddynodi'r effeithiolrwydd. Ar gyfer y sawl a gyfwelwyd o'r SAB, barnwyd effeithiolrwydd gan yr hyn y mae dysgwr yn dymuno ei gyflawni ar lefel addysgol, a ddisgrifiwyd fel rhywbeth gwahanol i wahanol ddysgwyr. Nododd un unigolyn a gyfwelwyd o'r SAB y gallai cwblhau cwrs a chael 'cam nesaf' i symud ymlaen iddo fod yn gyflawniad sylweddol i rai dysgwyr.

- Cyfeiriodd sawl un o'r rhai a gyfwelwyd at bwysigrwydd ymrwymiad i gynhwysiant gan bob aelod o staff fel rhywbeth sy'n cynnig sylfaen ar gyfer darpariaeth lwyddiannus SEP. Barnwyd bod angen i SEP fod ar sawl ffurf, fodd bynnag, gan gynnwys addasu a chyfaddasu yn y dosbarth, yn ogystal â sesiynau tynnu allan, er enghraifft, ar gyfer cymorth llythrennedd a rhifedd, a grwpiau dynodedig ar gyfer anghenion penodol, er enghraifft, grwpiau 'Talkabout' ar gyfer grwpiau o ddysgwyr sydd ag anghenion lleferydd ac iaith a mannau meithrin ar gyfer dysgwyr y mae ganddynt anawsterau emosiynol a gorbryder ar lefel uchel. Disgrifiwyd arfer

'cynhwysiant dwy ffordd' gan un unigolyn a gyfwelwyd fel cynnwys dysgwyr nad ydynt yn ddysgu AAA yn ymuno â dysgwyr AAA mewn canolfannau dysgu arbenigol ar gyfer gweithgareddau penodol, neu ddysgwyr canolfan yn ymuno â gweithgarwch ysgol gyfan. Mynegwyd pryder gan swyddogion yr ALI ynghylch defnyddio cynorthwywyr addysgu i ddarparu ymyriadau AAA gan nad ydynt o'r farn bod hyn yn arwain at deilliannau da i ddysgwyr o reidrwydd.

- Yn y PRU, gwerthuswyd darpariaeth bob blwyddyn fel ffordd o sicrhau bod y cwricwlwm a gynigir yn cysylltu dysgu gyda'r amcanion a nodir gyda phlant a phobl ifanc unigol. Barnwyd bod y ddarpariaeth yn effeithiol ar gyfer plant cynradd pe byddent yn gallu ail-ymuno ag addysg prif ffrwd, er bod y sawl a gyfwelwyd wedi adrodd bod ysgolion yn aml yn amharod i gymryd dysgwyr yn ôl ar ôl iddynt ymuno â'r PRU.

- Gwelwyd cytundeb ynghylch y sawl a gyfwelwyd o faes addysg a'r gwasanaethau cymdeithasol bod diffyg capasiti o fewn gwasanaethau plant ar hyn o bryd, yn enwedig gwasanaethau iechyd plant, yn her wrth ddarparu SEP. Nododd sawl un a gyfwelwyd y disgwylir gormod gan rai gwasanaethau ac nad ydynt yn gallu cynnig cymorth i rai dysgwyr mewn ysgolion, a disgrifiwyd CAMHS fel gwasanaeth arbennig o anodd i fanteisio arno.

- Er bod y sawl a gyfwelwyd o faes iechyd o'r farn bod ganddynt berthnasoedd gwaith cadarnhaol gydag ysgolion, roeddent yn cytuno bod capasiti o fewn gwasanaethau iechyd yn rhwystr wrth gyfeirio at wasanaethau iechyd plant ac roeddent yn teimlo bod hyn yn arbennig o wir ar gyfer plant nad oes ganddynt gyflwr y rhoddwyd diagnosis clir iddo. Mynegwyd pryder gan rai o'r rhai a gyfwelwyd ynghylch diffyg cymorth seicoleg a chymorth therapi lleferydd ac iaith ac roeddent o'r farn bod hyn o ganlyniad i gyfyngiadau ariannol. Cyfeiriwyd hefyd at y ffaith bod contractau cyflogaeth dros dro a thymor byr i staff yn anhawster sylfaenol wrth ddarparu gwasanaeth.

- Nododd un unigolyn sy'n gweithio yn y gwasanaeth iechyd mai dim ond cyfeiriadau gan wasanaethau cymdeithasol, CAMHS a'r gwasanaethau iechyd plant i'r tîm seicoleg sy'n cynorthwyo plant sydd ag anawsterau dysgu ac ymddygiad, a

dderbynnir, ac nid ceisiadau ysgolion. O ystyried y ffaith bod hwn yn wasanaeth trydyddol, teimlwyd bod y trefniant cyfeirio hwn yn un priodol, ond gallai beri rhwystredigaeth i ysgolion a rhieni a gofalwyr. Nodwyd hefyd nad oes capasiti er mwyn delio â'r holl gyfeiriadau o fewn adnoddau'r tîm.

- Roedd rhai o'r rhai a gyfwelwyd o faes iechyd yn gweld eu rôl nhw fel un sy'n cynorthwyo ymarferwyr addysgol i ddarparu cymorth i blant a phobl ifanc, er enghraifft, trwy ddarparu pecynnau hyfforddiant a datblygu dealltwriaeth a gwybodaeth athrawon mewn perthynas â datblygiad plant a natur anawsterau dysgu. Barnwyd bod hyn yn ffordd o leihau nifer y cyfeiriadau a wneir i'r gwasanaethau iechyd, ond hefyd, ei bod yn ffordd o ddatblygu capasiti mewn ysgolion.

- Roedd y sawl a gyfwelwyd mewn ysgolion yn ystyried bod addysg ôl-16 yn cael ei herio o ran SEP. Teimlwyd bod darparu cwricwlwm priodol a chyraeddadwy ar gyfer dysgwyr yng Nghyfnod Allweddol 4 sy'n cael eu herio o ran eu dysgu, yn faes anodd. Barnwyd y byddai mwy o lwybrau galwedigaethol yn ddefnyddiol, yn ogystal â sicrhau bod mwy o gymorth personol ar gael ar gyfer lleoliadau gwaith.

- Roedd y sawl a gyfwelwyd yn y SAB yn teimlo eu bod yn gallu darparu cyrsiau priodol ar gyfer dysgwyr sydd ag amrediad o anghenion a disgrifiwyd cyrsiau ar bedair ar ddeg lefel, gan gynnwys cyn mynediad i lefel mynediad, Lefel 1, 2 a 3. Defnyddiwyd profion lefel mynediad er mwyn asesu lefelau priodol ar gyfer dysgwyr, gan gynnwys dull sgrinio ar gyfer dysgwyr y mae lefel eu gallu yn isel, a luniwyd gan goleg. Disgrifiwyd bod y wybodaeth a geir gan ysgolion am y dysgwyr hyn yn annigonol, gan ei bod yn canolbwyntio ar gyrhaeddiad TGAU a'i bod ar lefel rhy uchel ar gyfer y grŵp hwn.

- Addysgwyd dysgwyr sydd ag anghenion cymhleth mewn canolfan ar wahân sy'n canolbwyntio ar waith academaidd, ond hefyd, sgiliau bywyd a sgiliau gwaith. Barnwyd bod cyllid ar gyfer dysgu nad yw'n ddysgu academaidd yn her gan nad oes unrhyw gyllid uniongyrchol ar gael, ac mae angen i feysydd dysgu gyd-fynd â chyrsiau presennol, er enghraifft, sgiliau coginio a ddatblygir mewn cyrsiau technoleg. Disgrifiwyd hon fel proses sy'n cymryd amser a dywedodd y coleg bod

angen iddynt annog dysgwyr i ddewis cyrsiau academaidd sy'n caniatáu mwy o sylw i sgiliau bywyd a byw'n annibynnol.

- Barnwyd bod amrediad o ddarpariaeth ar gyfer gwahanol feysydd o ran angen yn bwysig yn y SAB. Barnwyd bod anghenion iechyd meddwl dysgwyr yn arbennig o heriol, er y barnwyd bod sicrhau mynediad i addysg yn ffordd bwysig o roi sylw i faterion iechyd meddwl. Dywedodd y sawl a gyfwelwyd bod cymorth gan iechyd yn brin neu heb fod yn bodoli o gwbl ac roedd y coleg wedi datblygu ei darpariaeth ei hun ar gyfer y maes angen hwn yn ddiweddar trwy benodi nyrs iechyd meddwl yn ychwanegol i nyrs y coleg. Yn ogystal, mae'r coleg yn defnyddio gwasanaeth cwnsela sy'n cynnig pedair sesiwn gychwynnol ar gyfer pobl ifanc sy'n cael eu cyfeirio. Caiff ei ddisgrifio fel gwasanaeth digonol o ran ei gapasiti gan bod y coleg yn ei ddefnyddio ar sail trefniant talu yn ôl yr angen.

- Ar gyfer plant sy'n derbyn gofal sydd ag AAA, teimlwyd bod y ddarpariaeth yn digonol, ond nad yw'n ddigon cynhwysfawr. Ariannir darpariaeth ar gyfer plant sy'n derbyn gofal gan yr ALI gan y Grant Amddifadedd Disgyblion ac mae'n cynorthwyo plant oedran ysgol yn unig, hynny yw, nid plant mewn darpariaeth cyn ysgol neu bobl ifanc ôl-16. Dywedodd un unigolyn a gyfwelwyd bod y rhain yn bwyntiau trosglwyddo allweddol, gan nodi, 'mae angen i addysg gyflawni rôl am gyfnod hwy ar gyfer plant sy'n derbyn gofal'. Barnwyd bod cymorth ar gyfer plant cyn ysgol yn bwysig er mwyn rhoi sylw i faterion ymlyniad a dysgu sy'n seiliedig ar chwarae, a barnwyd bod cymorth ar gyfer unigolion ôl-16 yn ffordd bwysig o gynorthwyo cynlluniau prentisiaeth. Disgrifiwyd bod gan y tîm LAC sy'n gweithredu yn y gwasanaeth addysg sgiliau yn yr holl feysydd hyn a'u bod yn fwy abl nag ysgolion i ddarparu cymorth un-i-un.

- Barnwyd bod y prosesau adolygu ar gyfer SEP yn gryf gan rai o'r rhai a gyfwelwyd, yn enwedig o ran y broses o adolygu cyflawniad dysgwyr. Barnwyd bod defnyddio agweddau ar PCP ym mhob lleoliad, sef proffiliau un tudalen a strwythur 'yr hyn sy'n bwysig ar gyfer' a'r 'hyn sy'n bwysig i' ddysgwr yn ychwanegu at effeithiolrwydd y system adolygu. Nodwyd, fodd bynnag, nad yw trafodaethau mewn cyfarfodydd adolygu wastad yn canolbwyntio ar anghenion dysgwyr a chamau gweithredu penodol.

- Dywedodd rhai lleoliadau bod prosesau adolygu ar gyfer dysgwyr sydd ag AAA yn cael eu cynnwys mewn prosesau adolygu a ddefnyddir gyda phob dysgwr. Yn yr ysgol gynradd, er enghraifft, mae pob dysgwr yn cymryd rhan mewn cyfarfodydd cynnydd unigol a defnyddiwyd y rhain er mwyn adolygu targedau IEP os yw hynny'n briodol. Yn ogystal, disgrifiodd y rhai a gyfwelwyd mewn ysgol arferion asesu ffurfiannol anffurfiol sy'n rhan o weithgarwch addysgu a dysgu parhaus, a barnwyd bod ganddynt rôl pwysig wrth olrhain cynnydd a chyflawniad dysgwyr.

- Mae prosesau er mwyn sicrhau ansawdd y ddarpariaeth gan wasanaethau iechyd yn cynnwys archwiliadau llwyth achosion, grwpiau goruchwylio, mesurau deilliannau a gweithrediad safonau er mwyn ysgrifennu adroddiadau. Mynegwyd ansicrwydd gan swyddogion yr ALl bod SEP mewn lleoliadau addysgol wastad yn seiliedig ar y dystiolaeth orau sydd ar gael ac roedd ganddynt rywfaint o bryder ynghylch effeithiolrwydd y cymorth ar gyfer dysgwyr sydd ag AAA yn cael ei ddarparu gan gynorthwywyr addysgu cyffredinol yn hytrach na chynorthwywyr addysgu arbenigol.

**Datrys anghytundebau sy'n ymwneud â'r ddarpariaeth a gyflwynir trwy gyfrwng gweithredu gan yr ysgol/a mwy ac ar gyfer dysgwyr sydd â chynlluniau SAB o fewn ALl4**

- Roedd y sawl a gyfwelwyd yn cytuno bod angen i ysgolion fod yn rhagweithiol wrth osgoi anghytundebau, trwy sicrhau bod arferion cyfathrebu da gyda rhieni a gofalwyr yn eu lle. Roedd un ysgol yn pwysleisio pwysigrwydd mabwysiadu agwedd o wrando ar rieni a gofalwyr a dywedwyd eu bod yn ceisio meithrin perthnasoedd da gyda nhw, gan sicrhau rhieni a gofalwyr bob amser y bydd rhywun yn ymateb i'w hymholiad ac yn eu gwahodd i'r ysgol i gael sgwrs anffurfiol ar ôl y mynegir pryder. Roedd lleoliadau yn cytuno bod gweithredu'n gyflym ar ôl y mynegir pryder a gwahodd rhieni a gofalwyr i gyfarfod wyneb-yn-wyneb yn datrys mater fel arfer.

- Yn y SAB, dywedwyd bod anghytundebau yn cymryd amser, ond bod trafodaeth gyda'r teulu yn cael ei defnyddio at ddibenion datrys gwrthdaro.

- Dywedodd y sawl a gyfwelwyd o faes iechyd a gwasanaethau cymdeithasol nad ydynt yn ymwneud ag anghytundebau ynghylch cymorth addysgol yn gyffredinol, a

bod teuluoedd fel arfer yn troi at y gwasanaeth addysg pe bai problem. Nodwyd bod systemau effeithiol yn eu lle o fewn y gwasanaeth iechyd i ddelio â phryderon ynghylch materion penodol gyda darpariaeth y gwasanaeth iechyd.

**Asesiad statudol ar gyfer anghenion addysgol arbennig o fewn ALl4**

- Nododd yr holl rai a gyfwelwyd bod y broses asesu statudol yn un hir a'i bod yn fiwrocrataidd o ran y gwaith papur. Er y barnwyd bod y broses asesu ei hun yn gadarn, barnwyd bod swm yr amser sy'n gysylltiedig â pharatoi adroddiadau, nifer yr adroddiadau sy'n ofynnol a'r diffyg cyswllt gyda gwasanaethau iechyd plant mewn rhai achosion yn heriau o fewn y system. Nodwyd bod yr amser aros am asesiad gan wasanaethau iechyd plant yn hyd at 18 mis a barnwyd bod hwn yn rhwystr wrth wneud cyfeiriadau gan bod gofyn i ddysgwyr gael cymorth ar unwaith fel arfer.

- Nododd swyddogion yr ALl, fodd bynnag, bod yr awdurdod yn cyhoeddi nifer gymharol fawr o ddatganiadau angen addysgol arbennig a bod y nifer hon wedi mwy na dyblu dros y ddwy i dair blynedd ddiwethaf. Nodwyd y bu cynnydd o ran y ceisiadau am ddarpariaeth datganiad yn arbennig ar gyfer dysgwyr sydd ag awtistiaeth ac anawsterau sy'n ymwneud â chyfathrebu.

- Gwnaethpwyd rhan fwyaf y cyfeiriadau am asesiad statudol yn yr ALl ar lefel cyn ysgol gan ddefnyddio rhwydwaith o nyrsys ardal, paediatregwyr cymunedol ac ymarferwyr addysgol, y barnwyd ei fod yn gweithio'n effeithiol at y diben hwn. Nid yw'r ALl yn cynnig unrhyw ddarpariaeth y tu allan i'r ysgol neu y tu allan i leoliadau cyn ysgol a disgrifiwyd y broses adnabod fel un syml gan swyddogion yr ALl. Cynhelir panel darpariaeth bob wythnos neu ddwywaith yr wythnos, ac mae'n cynnwys cynrychiolwyr o addysg, iechyd a'r gwasanaethau cymdeithasol, cynrychiolydd o SNAP, yn ogystal â phersonél o'r ysgol a rhieni a gofalwyr.

- Nododd un swyddog o'r ALl ei bod yn ymddangos bod cydberthynas rhwng adnabod AAA ac anfantais gymdeithasol a dywedodd bod Dechrau'n Deg yn bwriadu defnyddio rhai o'i adnoddau er mwyn rhoi sylw i'r mater hwn.

- Yn yr ysgol arbennig, nodir anghenion pob dysgwr cyn iddynt gychwyn, er y nododd y sawl a gyfwelwyd ei bod yn anarferol i ddysgwr gael un maes o angen. Efallai y

rhoddir lle i ddysgwyr yn yr ysgol oherwydd un angen, ond yna, nodir bod ganddynt anghenion pellach. Roedd awtistiaeth, ADCG ac anghenion meddygol ychwanegol yn gyffredin ymhlith yr anghenion pellach hyn.

- Dywedodd y sawl a gyfwelwyd o'r adran gwasanaethau cymdeithasol bod adnabod angen dysgu ar gyfer plant sy'n derbyn gofal ac sy'n cael eu lleoli y tu allan i'r sir, yn gallu bod yn broses araf. Yn aml, roedd angen mewn perthynas â'r grŵp hwn o blant yn canolbwyntio ar anawsterau cyfathrebu cymdeithasol.

**Darpariaeth statudol ar gyfer anghenion addysgol arbennig o fewn ALI4**

- Roedd hi'n nod gan yr awdurdod darparu SEP sydd ar gael yn lleol ac sy'n gynhwysol ac roedd cronfeydd wedi cael eu dirprwyo i ysgolion at y diben hwn. Mae canolfannau dysgu arbenigol a leolir mewn ac a reolir gan ysgolion prif ffrwd yn gweithredu mewn nifer o safleoedd o fewn yr awdurdod. Barnwyd bod y rhain yn lleoliadau addas i ddysgwyr sydd ag amrediad o anghenion ac yn ffordd o ehangu'r hyn sydd ar gael o ran SEP.

- Fodd bynnag, teimlwyd bod cynnal y cydbwysedd cywir o ran SEP er mwyn bodloni'r galw presennol o ran anghenion yn her barhaus i'r awdurdod a bod SEP addas ar gyfer rhai dysgwyr yn gyfyngedig weithiau, neu heb fod yn bodoli. Roedd cynlluniau yn bodoli am ysgol arbennig newydd a'r gobaith oedd y bydd hon yn cynnig amrediad o gymorth, gan gynnwys cymorth teuluol a gofal seibiant, meysydd y barnwyd nad oes digon o adnoddau yn cael eu neilltuo iddynt ar hyn o bryd.

- Rhoddir blaenoriaeth i blant sy'n derbyn gofal o ran eu hanghenion mewn paneli lleoli, er bod nifer o blant a phobl ifanc yn y categori hwn mewn lleoliadau y tu allan i'r sir ar hyn o bryd.

- Yn yr ysgol arbennig, defnyddir IEPau ar y cyd â chynlluniau ymddygiad unigol (CYUs) er mwyn cynnwys targedau academaidd yn ogystal â thargedau sy'n canolbwyntio ar les, ymddygiad a chymhwysedd ddigidol. Gyda'i gilydd, barnwyd bod y rhain yn cyfrannu at lwybr dysgu pwrpasol ar y lefel unigol, er y disgrifiwyd bod cynlluniau gwella ysgol a chynlluniau gweithredu ysgol yn siapio SEP hefyd. Mae gan bob dysgwr yn yr ysgol ddatganiad anghenion addysgol arbennig a nododd yr

ysgol y gwneir pob ymdrech i sicrhau bod cynlluniau yn cyd-fynd ag amcanion datganiadau, er y nodwyd y gallai'r rhain fod yn eang ac yn anodd sicrhau eu bod yn cyd-fynd â nodau dros y tymor byrrach neu amcanion dysgu nad ydynt yn seiliedig ar y Cwricwlwm Cenedlaethol.

- Nododd nifer o'r rhai a gyfwelwyd bod cymorth gan ddarpariaeth iechyd a gwasanaethau cymdeithasol plant yn gyfyngedig, a chyfeiriwyd amlaf at CAMHS yn hyn o beth, er bod y gwasanaethau eraill y cyfeiriwyd atynt yn cynnwys SLT a ThG. Dywedodd rhai ysgolion eu bod yn ffurfio perthnasoedd newydd gyda mathau eraill o sefydliadau fel ffordd o fanteisio ar gymorth allanol, er enghraifft, Barnardo's, gwasanaethau cwnsela lleol, a gyda grwpiau cymunedol ac eglwysig lleol, er y disgrifiwyd bod rhai o'r sefydliadau hyn yn cael problemau o ran eu capasiti hefyd.

**Adolygu SEP statudol o fewn ALI4**

- Roedd y sawl a gyfwelwyd o ysgolion o'r farn bod datganiadau yn aml yn anghyson o ran amcanion dysgwyr ac roeddent yn gweld hyn fel her mewn perthynas ag adolygiadau blynyddol. Nodwyd bod oedi yn aml yn codi gyda datganiadau hefyd, wrth i'r ALI eu diwygio yn dilyn cyfarfod adolygu. Nododd swyddogion yr ALI ei bod yn anodd iawn sicrhau cytundeb ysgolion a rhieni a gofalwyr i ddwyn datganiad i ben, hyd yn oed pan geir cytundeb bod holl amcanion y datganiad wedi cael eu cyflawni.

- Adroddodd y sawl a gyfwelwyd mewn lleoliadau prif ffrwd bod asiantaethau allanol (e.e. gwasanaethau a ddarparir gan yr ALI, iechyd) wastad yn cael eu gwahodd i gyfarfodydd adolygu blynyddol ar gyfer dysgwyr sydd ag AAA, ond nad ydynt yn aml yn eu mynychu. Roedd y sawl a gyfwelwyd o faes iechyd yn cytuno bod y lefel bresenoldeb mewn cyfarfodydd adolygu yn anfoddhaol ar hyn o bryd, ond roeddent yn priodoli hyn i broblemau capasiti o fewn y tîm. Nodwyd bod adroddiad wastad yn cael ei baratoi os na fyddai modd i ymarferwr iechyd fynychu cyfarfod adolygu blynyddol. Dywedodd yr ysgol arbennig eu bod yn gwneud cryn dipyn o waith cyswllt gyda phartneriaid allanol ym maes iechyd a'r gwasanaethau cymdeithasol, ac roeddent o'r farn bod hyn yn sail i'w llwyddiant wrth sicrhau cyfranogiad asiantaethau allanol mewn cyfarfodydd adolygu.

- Dywedodd swyddogion o'r ALI bod dogfennaeth sy'n codi o gyfarfodydd adolygu ac a anfonir ymlaen gan ysgolion yn amrywiol o ran ei hansawdd, ac ni cheir tystiolaeth ei bod yn arwain at broses adolygu fwy effeithiol i rieni/gofalwyr a dysgwyr neu ei bod yn helpu i osgoi anghytundebau.

**Cynnwys plant, pobl ifanc, rhieni a gofalwyr yn y broses o wneud penderfyniadau am SEP statudol a datrys anghytundebau, o fewn ALI4**

- Nododd y sawl a gyfwelwyd bod pob ysgol yn yr ALI wedi cael hyfforddiant PCP a'u bod yn defnyddio prosesau PCP fel rhan o gyfarfodydd adolygu blynyddol. Adroddodd yr holl rai a gyfwelwyd mewn ysgolion eu bod yn defnyddio proffiliau un tudalen. Roedd rhai o'r farn bod y rhain yn rhywbeth cadarnhaol a'u bod yn cynorthwyo gweithgarwch ymgynghori gyda dysgwyr, rhieni a gofalwyr ynghylch yr hyn sy'n bwysig a mynegi pryderon. Fodd bynnag, dywedodd un ysgol bod PCP fel proses yn ymwneud â mwy na phroffiliau un tudalen a'i bod yn system gred gyfan am ddiwylliannau arferion cydweithio ar draws rhanddeiliaid. Roedd yr ysgol uwchradd yn teimlo bod dull PCP wrth gynllunio yn cymryd amser gan ei fod yn cynnwys gweithgarwch ymgynghori manylach gydag amrediad o bobl, ac felly, dim ond gyda rhai dysgwyr yr oedd yn defnyddio PCP.

- Disgrifiwyd bod presenoldeb rhieni a gofalwyr mewn cyfarfodydd i drafod SEP ac mewn cyfarfodydd blynyddol i adolygu datganiadau yn dda iawn. Dywedodd ysgolion eu bod yn ymdrechu i sicrhau y cynhelir cyfarfodydd ar amser sy'n gyfleus i rieni a gofalwyr, yn enwedig y rhai sy'n gweithio.

- Estynnwyd gwahoddiad i ddysgwyr yn rheolaidd i gyfarfodydd adolygu blynyddol, er bod y sawl a gyfwelwyd yn yr ysgol gynradd yn adrodd bod rhai dysgwyr yn gallu teimlo'n ofidus ynghylch cyfranogi ac felly, na fyddent yn cymryd rhan. Dywedwyd bod hyn yn arbennig o wir ar gyfer dysgwyr ar y sbectrwm awtistiaeth.

- Yn yr ysgol arbennig, barnwyd bod gwneud penderfyniadau mewn perthynas â chynllunio yn un o gryfderau'r ysgol ac yn broses allweddol wrth sicrhau deilliannau da ar gyfer dysgwyr. Disgrifiodd yr ysgol nifer o brosesau sydd yn eu lle er mwyn cynorthwyo dysgwyr i ymgysylltu a chymryd rhan mewn penderfyniadau. Dywedodd y sawl a gyfwelwyd yn y lleoliad hwn bod y prosesau hyn yn cyd-fynd â PCP fel dull

gweithredu, ond eu bod wedi bod yn gweithio fel hyn ers tro, a nododd un unigolyn a gyfwelwyd, 'Roeddem yn PCP cyn iddo ddod allan'. Teimlwyd bod arbenigedd proffesiynol yn ofynnol mewn perthynas ag ymgysylltu dysgwyr gyda phrosesau penderfynu oherwydd y barnwyd bod hyn yn ddibynnol yn rhannol ar ddealltwriaeth dysgwr o'r hyn y gofynnir ohonynt, yn ogystal â'u tymer ar yr adeg y gofynnwyd iddynt.

- Nododd y swyddogion o'r ALl a gyfwelwyd y bu cynnydd amlwg yn nifer yr anghytundebau ar lefel yr ALl. Disgrifiwyd y rhain fel rhai sy'n ymwneud ag asesu statudol a lleoli neu faterion SEP fel arfer, er enghraifft, lleoliad ar gyfer dysgwyr sydd ag awtistiaeth a darpariaeth dadansoddiad ymddygiad cymhwysol (ABA). Mae'r ALl yn ymateb fesul cam er mwyn datrys anghytundebau, gan ddefnyddio swyddog cyswllt rhwng y cartref a'r ysgol fel pwynt cyswllt cyntaf, a ddilynir gan gyfarfodydd gyda phenaethiaid AAA a/neu SNAP. Roedd cam cyntaf y broses datrys anghydfodau yn ddigonol yn rhan fwyaf yr achosion, ond nododd swyddogion y bu cynnydd sylweddol yn nifer yr achosion tribiwnlys yn yr awdurdod. Disgrifiwyd bod achosion tribiwnlys yn cymryd llawer o amser o ran llwyth gwaith swyddogion yr ALl.

**Gweithio gydag eraill o fewn ALl4**

- Er bod y sawl a gyfwelwyd yn cytuno bod ganddynt berthnasoedd gwaith da gydag ymarferwyr ar draws addysg, iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, nododd nifer bod problemau capasiti o fewn timau yn rhwystr mawr sy'n atal cydweithio gydag eraill, yn enwedig o fewn gwasanaethau iechyd plant. Adroddodd ysgolion bod cyfeiriadau i iechyd yn aml yn hir o ran yr amseroedd aros a'u bod yn arwain at sefyllfa lle na fydd unrhyw un yn manteisio ar y gwasanaeth weithiau. Dywedodd ysgolion prif ffrwd eu bod wastad yn gwahodd asiantaethau allanol (e.e. gwasanaethau sy'n cael eu darparu gan yr ALl, iechyd) i gyfarfodydd adolygu ar gyfer dysgwyr sydd ag AAA, ond dywedont mai ychydig iawn sy'n mynychu, er bod yr ysgol arbennig wedi adrodd am fwy o lwyddiant yn hyn o beth. Cyfeiriwyd at CAMHS yn arbennig fel gwasanaeth y mae'n anodd i ysgolion, y PRU a'r SAB fanteisio arno. Disgrifiwyd bod ffurflenni cyfeirio CAMHS yn cymryd cryn dipyn o amser i'w llenwi a nodwyd y gallai'r meini prawf cyfeirio fod yn gul ac yn canolbwyntio ar rai categorïau angen yn unig. Nododd y PRU, fodd bynnag, y dangoswyd nad oedd gan fwyafrif helaeth eu cyfeiriadau at CAMHS dros y blynyddoedd diwethaf broblemau iechyd

meddwl, felly, bod ffurfiau SEP amgen yn bwysig, er enghraifft, ar ffurf darpariaeth addysgol wedi ei hehangu.

- Cwestiynodd y sawl a gyfwelwyd yn y PRU a yw hi'n bosibl i weithwyr iechyd proffesiynol gyfrannu at ddeilliannau addysgol ar sail dysgwr unigol gan nad yw'r rolau o fewn iechyd yn cyd-fynd â rolau addysg. Mynegwyd cred gan y sawl a gyfwelwyd bod gweithio mewn ffordd strategol yn rôl gwell ar gyfer gweithwyr iechyd proffesiynol, gan gyfeirio at ddatblygiad protocol llesiant yn y rhanbarth.

- Adroddodd ysgolion prif ffrwd am fewnbwn parhaus bach iawn gwasanaethau iechyd plant, er enghraifft, gan y gwasanaeth ThG a'r gwasanaeth SLT. Disgrifiwyd bod mewnbwn y gwasanaeth SA yn fwy cyson, er y nododd un ysgol y bu gostyngiad yn nifer yr oriau sydd ar gael iddynt yn ddiweddar. Disgrifiodd yr ysgol arbennig fewnbwn mwy rheolaidd gan asiantaethau allanol, er enghraifft, mewnbwn wythnosol gan y gwasanaeth SA a mewnbwn ddwywaith yr wythnos gan SLT. Nododd yr ysgol ei bod wedi datblygu ei thimau cyfathrebu ac ymddygiad mewnol ei hun, a bod yr ysgol yn ariannu hyfforddiant staff ar gyfer y rhain. Nododd yr ysgol hefyd ei bod yn cynnal clinigau iechyd yn yr ysgol fel ffordd o gynorthwyo gwaith amlasiantaeth.

- Cyfeiriodd sawl un o'r rhai a gyfwelwyd at bwyntiau trosglwyddo fel cyfnod lle y gwneir gwaith ar draws asiantaethau, a disgrifiwyd bod gwaith trosglwyddo a gwaith a wneir ar faterion eraill yn dda gyda SABau, Gyrfa Cymru, gwasanaethau cymdeithasol a SLIAs, ac ar gyfer gwaith cynradd ac uwchradd ar draws cyfnodau.

- Adroddodd y SAB nad yw'r gwasanaethau cymdeithasol yn darparu cymorth ar gyfer pobl ifanc nad oes ganddynt gyflwr y rhoddwyd diagnosis iddo, er enghraifft gweithiwr cymdeithasol. Roeddent yn disgrifio bod dysgwyr ar gyrsiau Lefel 1 yn aml yn y categori hwn, er bod angen y cymorth mwyaf arnynt.

- Disgrifiodd y SAB y broses o weithio gydag ystod eang o asiantaethau trydydd sector a gwirfoddol, gan gynnwys sefydliadau sy'n canolbwyntio ar ofalwyr ifanc, trais domestig, digartrefedd a chymorth tenantiaeth, y Samariaid, Amser Newid, a grwpiau cymorth diogelu'r cyhoedd a grwpiau yn erbyn radicaliaeth. Barnwyd bod y cysylltiadau hyn yn rhai pwysig i ddysgwyr sydd ag anghenion ychwanegol ac yn

ffordd o wella'r hyn y gall y coleg ei gynnig o ran SEP. Barnwyd bod cysylltiadau gyda gwasanaethau cyflogadwyedd yn bwysig hefyd yn hyn o beth.

- Adroddodd y sawl a gyfwelwyd o faes iechyd eu bod yn ymwneud ag ystod eang o wasanaethau, ysgolion, colegau a sefydliadau trydydd sector. Teimlwyd bod gwahaniaethau o ran y blaenoriaethau rhwng gwasanaethau yn effeithio ar effeithiolrwydd cydweithio, ynghyd â'r ffaith na chaiff timau eu cydleoli. Nid oedd gweithgarwch rhannu gwybodaeth wastad yn gyson ac mae materion gweithredol yn bodoli mewn perthynas â chyfrinachedd gwybodaeth. Barnwyd bod meithrin perthnasoedd amlasiantaeth da yr un mor bwysig â darparu gwasanaeth gan y rhai a gyfwelwyd o faes iechyd, ond nododd y sawl a gyfwelwyd bod hyn yn gofyn am fuddsoddi amser nad oedd wastad ar gael.

- Cafwyd enghreifftiau gan swyddogion o'r ALl o ddatblygiadau ym maes gwaith amlasiantaeth yn yr awdurdod. Mae'r rhain yn cynnwys cyfarfodydd rheolaidd rhwng penaethiaid cynhwysiant a'r BILl, cyfarfodydd grŵp strategol ar gyfer gweithio ar draws ffiniau, gweithgorau gyda SABau, a fforymau amlasiantaeth ar gyfer iechyd ac addysg. Mae fforymau amlasiantaeth yn canolbwyntio ar wahanol faterion, er enghraifft, datblygu systemau er mwyn rhannu gwybodaeth, a oedd yn faes sy'n peri her o ran gwaith amlasiantaeth ar hyn o bryd ym marn rhai.

**Trosglwyddo o fewn ALl4**

- Disgrifiwyd amrediad o drefniadau trosglwyddo mewn perthynas â phob cyfnod o fewn ysgol, hynny yw, cyn ysgol i'r cynradd, cynradd i'r uwchradd a llwybrau ôl-uwchradd. Barnwyd bod y trosglwyddo i addysg ôl-16 yn un o gryfderau arbennig yr ALl, ac yn rhywbeth a nodwyd gan y sawl a gyfwelwyd fel rhywbeth a gadarnhawyd gan arolygiad Estyn a gynhaliwyd yn ddiweddar, er y barnwyd bod trosglwyddo yn effeithiol wrth bob pwynt trosglwyddo yn gyffredinol.

- Barnwyd bod trosglwyddo i'r ysgol yn cael ei gynorthwyo gan y ffaith y lleolir tîm Dechrau'n Deg ar yr un safle â'r ysgol gynradd a chan y ffaith bod pennaeth yr ysgol gynradd yn rheoli'r tîm hwn. Estynnwyd gwahoddiad i rieni a gofalwyr ddod i'r ysgol i gyfarfod athrawon dosbarth cyn y byddai'r plentyn yn cychwyn yn yr ysgol. Roedd trosglwyddo i mewn ac allan o'r ysgol yn cael ei gynorthwyo gyda chymorth

ymweliadau estynedig ar gyfer dysgwyr i ystafelloedd dosbarth newydd neu leoliadau newydd, a thrwy gyfrwng cyfarfodydd rhannu gwybodaeth sy'n cynnwys ymarferwyr. Mae gan yr ysgol gynradd ganolfan dysgu arbenigol ar ei safle ac adroddwyd bod y trosglwyddo ar gyfer dysgwyr yn y ganolfan hon yn cael ei drefnu mewn ffordd hyblyg er mwyn bodloni anghenion unigol. I rai plant, defnyddir trefniant cychwyn fesul cam ac i eraill, yn enwedig y rhai sydd ag awtistiaeth, mae cychwyn yn yr ysgol dan drefniant amser llawn yn syth yn well. Oherwydd y nodwyd gan y sawl a gyfwelwyd mewn lleoliadau cynradd bod trosglwyddo rhwng y cyfnod sylfaen a chyfnod allweddol 2 yn faes heriol i rai dysgwyr, roedd yr ysgol wedi cyflwyno addysgeg y cyfnod sylfaen i Flynyddoedd 3 a 4. Roedd y sawl a gyfwelwyd yn ystyried bod hyn yn cyd-fynd â'r cynigion ar gyfer y cwricwlwm newydd i Gymru.

- Roedd trefniadau trosglwyddo tebyg i'r ysgol gynradd yn eu lle yn yr ysgolion uwchradd ac arbennig. Barnwyd bod ymweliadau estynedig i ddysgwyr, cyswllt agos rhwng gweithwyr proffesiynol ar draws lleoliadau, systemau clir er mwyn cyfnewid gwybodaeth, cyfarfodydd gyda rhieni a gofalwyr a defnyddio diwrnodau a sesiynau rhagflas yn arferion effeithiol sy'n cynorthwyo trosglwyddo.

- Disgrifiodd yr ysgol arbennig ei threfniadau gyda'r SAB sy'n cynnwys dysgwyr o'r ysgol yn mynychu'r coleg am un bore yr wythnos yn ystod Blynyddoedd 11 a 12. Barnwyd bod hon yn ffordd effeithiol o gynorthwyo dysgwyr gyda phontio cymdeithasol.

- Barnwyd bod effeithiolrwydd trosglwyddo yn rhannol ddibynnol ar ansawdd perthnasoedd rhwng unigolion allweddol. Roedd y sawl a gyfwelwyd yn teimlo, pan fo'r perthnasoedd sy'n bodoli eisoes gyda gweithwyr proffesiynol, gwasanaethau ac ysgolion yn dda, bod hyn yn cynorthwyo gwaith trosglwyddo ar gyfer dysgwyr ac yn helpu i sicrhau llwyddiant.

- Nododd yr ALI eu bod yn cynnal panel trosglwyddo ar gyfer dysgwyr sydd â datganiadau ac sy'n trosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd. Defnyddiwyd hwn er mwyn trafod achosion unigol ac er mwyn sicrhau bod datganiadau yn cael eu diweddaru a'u bod yn gyfredol o ran anghenion dysgwyr.

- Nododd y sawl a gyfwelwyd o faes iechyd bod gwasanaethau yn tueddu i dynnu'n ôl wrth i bobl ifanc drosglwyddo i wasanaethau oedolion. Yn ogystal, roedd rhai yn teimlo nad yw hi wastad yn glir pa wasanaethau sydd ar gael i oedolion. Dywedodd ymarferwr sy'n gweithio yn y gwasanaeth iechyd ôl-18 ar gyfer pobl sydd ag anableddau dysgu nad yw hi'n ymddangos bod nifer o ddefnyddwyr gwasanaeth yn gwybod am y gwasanaeth hwn, a hefyd, bod gweithwyr proffesiynol yn ei chael hi'n anodd casglu gwybodaeth am gyfeiriadau posibl. Nododd yr ymarferwr hwn hefyd bod eu gwasanaeth yn aml yn cael eu hysbysu am unigolion pan fyddant yn troi'n 18 oed. Roedd rhai a gyfwelwyd o faes iechyd yn teimlo bod y trefniadau trosglwyddo yn dda ar gyfer plant a phobl ifanc sydd ag anghenion cymhleth ar draws pob cam addysg, ond yn llai effeithiol ar gyfer y rhai sydd ag anghenion mwy cymedrol. Adroddwyd bod dealltwriaeth ymarferwyr o AAA, yn enwedig mewn ysgolion uwchradd, yn her i'r grŵp hwn.

- Ar gyfer y sawl a gyfwelwyd o faes iechyd, mae heriau pellach wrth gynorthwyo trosglwyddo yn cynnwys cyfathrebu gwael rhwng gwasanaethau a gyda sefydliadau, problemau capasiti mewn timau a bylchau yn narpariaeth y gwasanaeth iechyd ar gyfer defnyddwyr sy'n oedolion.

**Yr iaith Gymraeg o fewn ALI4**

- Adroddodd yr ALI ei bod yn bosibl cynnig rhywfaint o SEP yn Gymraeg, er enghraifft, asesiad SA, darpariaeth canolfan arbenigol yn y cyfnod uwchradd ac allgymorth i ysgolion cyfrwng Cymraeg. Nododd swyddogion bod cynnig SEP trwy gyfrwng y Gymraeg yn her sy'n parhau, ond roeddent yn teimlo bod yr hyn a gynigir ar hyn o bryd yn bodloni'r galw presennol. Adroddodd y sawl a gyfwelwyd o'r ALI eu bod yn cyfrannu at eu cynllun lleol y Gymraeg mewn addysg wrth adnabod y galw am SEP cyfrwng Cymraeg a'u bod yn cael cyswllt agos gydag ysgolion cyfrwng Cymraeg wrth asesu'r galw hwn.

- Nododd yr ysgol uwchradd eu bod yn gallu cynnig pob agwedd ar SEP a chymorth yn yr ysgol trwy gyfrwng y Gymraeg a bod rhywfaint o SEP arbenigol ar gael yn Gymraeg trwy gyfrwng canolfan adnoddau dysgu ar y safle. Nododd y sawl a gyfwelwyd o ysgolion bod gwasanaeth hollol ddwyieithog ar gael ar gyfer gwasanaethau symudedd, cwnsela a gwasanaethau cymdeithasol. Roeddent yn

nodi hefyd bod trosglwyddo i SABau fel arfer yn cael ei gynorthwyo gan staff AB sy'n siarad Cymraeg.  Fodd bynnag, adroddodd y SENCo hefyd bod rhai bylchau mewn SEP cyfrwng Cymraeg gan gynnwys gwasanaethau sydd ar gael yn Saesneg yn unig (e.e.  swyddog nam ar y golwg, swyddog anawsterau dysgu penodol, gwasanaethau PRU/EOTAS).  Yn ogystal, nododd y rhai a gyfwelwyd o ysgolion bod rhai gwasanaethau yn cynnig gwasanaeth cyfyngedig yn Gymraeg ac o ganlyniad, nad ydynt wastad ar gael yn Gymraeg (e.e.  SLT a SA).  Adroddodd y sawl a gyfwelwyd o'r ysgol uwchradd bod prinder offerynnau sgrinio ac offerynnau asesu mwy arbenigol yn Gymraeg.